

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau

Dyddiad: Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y
Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones,
Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,
Meryl Roberts;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones,
Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

R H A G L E N

Rhifau Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3. **Cofnodion** **3-10**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.
4. **Taflen Gweithredu** **11-12**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
5. **Diweddariad o'r Gyllideb 2023/24** **13-23**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
6. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2024/25** **24-27**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/23** **28-38**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. (Copi yma)
8. **Arallgyfeirio Incwm** **39-62**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr / Archwilio Cymru. (Copi yma)
9. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23** **63-101**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
10. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Blynyddol** **102-128**
Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)
11. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2022-23** **129-132**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)
12. **Canolfannau Croeso – Adroddiad Blynyddol** **133-139**
Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy. (Copi yma)
13. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** **140-144**
Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023. (Copi yma)

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 12 GORFFENNAF 2023**

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tracey Evans, Sarah Hattle, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Bethan Hughes, Nia Murray, David Williams, Peter Rutherford, Etta Trumper, Anwen Gaffey, Sarah Roberts;

Yn bresennol

Nick Selwyn, Euros Lake - Archwilio Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ethol Cadeirydd

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn nifer o enwebiadau yn cynnig y Cynghorydd Elfed Powell Roberts fel Cadeirydd.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elfed Powell Roberts fel Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-Gadeirydd

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn nifer o enwebiadau yn cynnig y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd.

Etholwyd y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. Ymddiheuriadau

Cynghorydd Kim Jones, Dilwyn Owain Roberts.
Dewi Morgan, Prif Swyddog Cyllid.

4. Datgan Budd

Datganodd Emyr Williams ac Iwan Jones fudd yn eitem 13 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.

7. **Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru.

Croesawodd y Cadeirydd Nic Selwyn ac Euros Lake o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad. Cafodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint ar y cefndir a'r prif ganfyddiadau a dywedwyd wrthynt mai adolygiad thematig ar draws y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru oedd yr adroddiad, a fyddai'n llunio crynodeb Cenedlaethol ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Nododd yr Aelodau ymateb sefydliadol y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr heriau ariannol ym Mhlas Tan y Bwlch ac argymhelliad gan Archwilio Cymru y dylai'r Awdurdod adolygu'r model gweithredu yn y Plas a phennu strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- Nododd yr aelodau:-
 - o y dylai'r Awdurdod fabwysiadu agwedd strwythuredig tuag at arallgyfeirio yn hytrach na ymateb wrth i amgylchiadau newid.
 - o roedd yr angen i ddenu incwm allanol i gwrdd â heriau'r dyfodol yn sylweddol a byddai'r rhestr wirio hunanasesu a ddarparwyd yn cynorthwyo'r Awdurdod dros y 12-18 mis nesaf i ddarparu cyfeiriad teithio clir.
- Yn codi wedi hynny, manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i Nic Selwyn, a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf gyda'r Awdurdod gan ei fod yn ymddeol o'i rôl gydag Archwilio Cymru. Diolchodd y Prif Weithredwr iddo am ei waith, ei ddealltwriaeth, ac am ei gefnogaeth i'r tri Pharc Cenedlaethol Cymreig dros y blynyddoedd, a oedd wedi'i werthfawrogi'n fawr.
- dywedodd y Prif Weithredwr mai'r nod oedd cynyddu incwm i gyflawni pwrpasau statudol yr Awdurdod ac y byddai angen cytuno ar faterion o egwyddor. Teimlai swyddogion y dylai'r Awdurdod fod yn effro i'r risgiau o weithredu ar sail fwy masnachol a nodwyd bod rhai Awdurdodau wedi methu'n llwyr, gyda'r trethdalwr yn gorfod camu i mewn. Roedd angen cydbwysu'r risg a chyflawni ffrwd incwm o'r buddsoddiad, tra'n ymwybodol o'r arbenigedd a'r gallu sydd ar gael.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd y Gweinidog yn disgwyl i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddisgwyliadau a amlinellwyd yn y llythyr cylch gwaith yng ngoleuni'r setliad grant. Nododd hefyd y byddai dyfarniadau arian parod ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn haws i'w gweinyddu pe baent yn cael eu hymgorffori i setliad grant yr Awdurdod yn y dyfodol, a fyddai'n dileu rhywfaint o'r pwysau oddi ar staff prosiect a'r defnydd o contractau tymor byr.

- teimlai aelod y dylai'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'r costau ac nid canolbwyntio ar gynyddu incwm yn unig. Nododd y dylai'r Awdurdod ystyried a oedd yn briodol cystadlu ar sail fasnachol gyda busnesau bach yn yr ardal, a chan nad oedd yr Awdurdod yn gorff masnachol, byddai angen iddo sicrhau bod y defnydd o arian cyhoeddus yn ddiogel. Tra bod incwm preifat ar gael roedd angen cadw at bwrpasau'r Parc Cenedlaethol wrth roi strategaeth yn ei lle.
- Nododd yr Aelodau a'r Swyddogion fod Hafod Eryri ar brydles tymor hir ac yn rhoi incwm masnachol i'r Awdurdod a bod Archwilio Cymru wedi canfod bod cynllun busnes Yr Ysgwrn yn foddhaol.
- cytunwyd y dylai'r Tîm Rheoli ddechrau'r broses a chyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol lle gellid penodi panel o Aelodau wedyn i weithio'n fanwl ar y strategaeth.
- mewn ymateb i gwestiwn ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y model busnes wedi esblygu ers y model gwely a brechwast a bod adroddiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'r Aelodau ystyried yr holl opsiynau, gan ystyried yr holl opsiynau. Gan gadw mewn cof bod Plas Tan y Bwlch yn adeilad Rhestredig Gradd II*.
- mewn perthynas â'r cynnig i AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ddod yn bedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn cynnal asesiad technegol ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi dynodi Parc Cenedlaethol newydd ac y byddai'r cyllid yn fater i'w drafod yn nhymor nesaf y llywodraeth.
- Trafododd yr aelodau y potensial ar gyfer creu diwylliant o fewn y Parciau Cenedlaethol sy'n cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu incwm.
- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn argymhell bod yr Awdurdod yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch ac yn cytuno ar ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol o fewn y 12 mis nesaf. Yn ogystal, defnyddio'r offeryn hunanwerthuso (Atodiad 1) i ddatblygu ymagwedd strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad a derbyn y ddau argymhelliad fel y'u nodwyd.**
2. **aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.**

8. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2022/23

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf a gyllidebwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2022/2023 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y symudiadau ariannol a'r trosglwyddiadau o gyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Yn codi wedi hynny, atebodd y Swyddog Cyllid nifer o gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo'r trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a'r gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2).**

4. cymeradwyo dyraniad llithriad ac ymrwymadau (£ 461,519) yn Atodiad 4.
5. nodi y bydd y tanwariant sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2022/23 yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod, y Gronfa Cadernid Staff a'r Gronfa Risgiau Penodol.
6. cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).

9. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr fod paragraff 3.2 o'r adroddiad Cymraeg yn uniaith Saesneg.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn ar yr Awyr Dywyll a sut y gallai'r Awdurdod hyrwyddo manteision y prosiect ymhellach yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, dywedodd y Prif Weithredwr fod cyllid tymor byr ar gael ar hyn o bryd a dywedodd fod swyddog Gogledd-ddwyrain Cymru wedi'i benodi'n ddiweddar. Cytunodd y dylai cyllid ar gyfer Awyr Dywyll gael ei gynnwys fel rhan o waelodlin yr Awdurdod, a byddai'n codi hyn gyda'r Gweinidog yn Sioe Frenhinol Cymru.
- yn codi wedi hynny, cytunodd aelod lleol Llanegryn i ofyn i Gyngor Gwynedd fynd i'r afael â'r mater o ormod o oleuadau stryd yn ei ardal.
- rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Aelodau fod tîm monitro LIFE yn ymwybodol bod rhai tîffeddiawyr yn amharod i wneud ymrwymiad 20 mlynedd ac er bod risg fach, roeddent yn teimlo ei fod yn dderbyniol.
- gofynnodd Aelod i swyddogion nodi mai "chough" oedd y cyfieithiad i'r Saesneg o "bran goesgoch".

PENDERFYNWYD

1. nodi'r prosiectau a ariannwyd gan gyfalaf 2022 – 2025.
2. nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).
3. cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).
4. nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).

10. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y prif newidiadau i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,

Cyf Risg. 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch), a
Cyf Risg. 16 Sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- roedd yn fodlon y dylai'r Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch) aros fel y mae, a chyfeiriodd at y ffigurau incwm a adroddwyd yn gynharach yn Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2022/23, a oedd yn well na'r disgwyl.
- Byddai Cyf Risg 16 yn cael ei ddiwygio a byddai'n cynnwys cyfeiriad at y risg i enw da'r Awdurdod o reoli Plas Tan y Bwlch. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Corfforaethol y bydd dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch yn llawer cliriach unwaith y bydd yr Aelodau wedi ystyried yr adroddiad llawn yn yr Hydref.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg.**
- 2. cynnwys cyfeiriad at y risg i enw da'r Awdurdod mewn Cyf Risg. 16.**

11. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23

Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd pedwerydd a chwarter olaf ar gyfer 2022/23 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ddiweddariadau'r pedwerydd a'r chwarter olaf a dywedodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn cael ei defnyddio i baratoi'r adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau ym mis Medi. Rhoddodd fanylion pellach i'r Aelodau ar sut y gosodwyd yr adroddiad a sut i ddehongli'r wybodaeth.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Gwella Rheolaeth Hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol Hamdden Trafododd yr Aelodau a swyddogion y mesurau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion gwrsylla anghyfreithlon a chartrefi modur. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Aelod wedi gofyn am ddatblygu polisi nofio gwyllt ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Weithgor yr Aelodau yn y dyfodol.
- Mynd i'r afael â'r Dirywiad mewn Natur – mewn ymateb i gwestiwn ar Ganllawiau disgwylidiedig Llywodraeth Cymru ar wella bioamrywiaeth, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn ystod sesiwn Adfer Natur yn Sioe Frenhinol Cymru.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y ffocws ar frandio wedi'i gynnwys fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod.
- Cefnogi Pobl Ifanc - mewn ymateb i gwestiwn ar sut yr oedd y Maniffesto Ieuencid drafft yn dod yn ei flaen, byddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu i'r swyddog perthnasol roi diweddariad i'r Aelod ar y cynnydd.
- Trafododd yr aelodau a swyddogion y mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â Rheoli Traffig yn Yr Wyddfa a'r risgiau cysylltiedig i enw da'r partneriaethau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. Adroddiad Monitro Cwynion

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbynir nifer o gwynion, ond oherwydd diwydrwydd staff yr Awdurdod sy'n ymdrin â'r cwynion yn broffesiynol ac yn brydlon, nid ydynt yn mynd ymlaen i fod yn gwynion ffurfiol.

PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad cadarnhaol a nodi ei gynnwys.

13. **Datganiad Polisi Tâl 2023/24 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir.

PENDERFYNWYD

1. **cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.**
2. **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.**

14. **Holiadur Staff – Archwilio Amrywiol Batrymau Gweithio Hyblyg ar gyfer yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i osod y cefndir, rhannu canlyniadau'r holiadur, a chyflwyno adroddiad llafar ar y camau nesaf, cyn cychwyn ar y broses ymgynghori swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Gweithwyr yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd wrth yr Aelodau fod ymateb holiadur o 48% yn gyson â'r nifer arferol a fanteisiodd i'w gwblhau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- gofynnodd Aelod i'r siartiau canlyniadau holiadur gael eu cyfieithu i'r Saesneg a'u dosbarthu i'r Aelodau.
- nododd Aelod fod angen i reolwyr fod yn bresennol i ddarparu strwythur pan fydd staff newydd yn dechrau eu cyflogaeth, gyda chyfnod ymsefydlu wedi'i gynllunio'n ofalus. Byddai hyn yn sicrhau nad yw staff newydd yn teimlo'n ynysig ac yn teimlo'n rhan o dîm. Dylai fod cyfnodau gorfodol hefyd pan fydd yr holl staff yn mynychu cyfarfodydd tîm ac ati.
- Croesawodd yr aelodau'r ymateb i'r holiadur gan fod y staff yn cytuno'n gryf / cytuno bod yr Awdurdod yn lle da i weithio.
- Nododd Aelod y gall yr arferiad o rannu desgiau weithio a darparu gwell cyfathrebu ac integreiddio.
- Nododd Aelod fod dal angen sicrhau bod swyddogion ar gael yn ystod oriau swyddfa i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd.
- rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol amlinelliad byr i'r Aelodau o'r camau nesaf a dywedodd fod rheolwyr wedi edrych ar bob disgrifiad swydd o fewn eu gwasanaeth ac wedi cytuno â'u staff pa rolau yr ystyriwyd eu bod yn weithwyr hybrid / parhaol yn y swyddfa / o bell ac ati. Bydd y gwaith hwn nawr yn cael ei adolygu gan grŵp o staff, yn debyg i banel gwerthuso swyddi, i sicrhau bod y meini prawf wedi'u cymhwyso'n gyson. Yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda staff a'r Undebau Llafur, bydd peilot i waredu ag oriau craidd a chaniatáu mwy o hyblygrwydd yn cael ei dreialu. Dangoswyd fod hyn wedi gweithio'n effeithiol mewn awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, er y bydd angen i reolwyr gadw at ganllawiau cadarn a chysion i sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyfartal ac yn effeithiol. Os bydd unrhyw faterion perfformiad yn codi o'r trefniadau gweithio newydd, yna gellir tynnu'r opsiwn yn ôl.
- Nododd Aelod fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithredu prosiect agwedd "doeth tuag at waith" tebyg dros y 4 i 5 mlynedd diwethaf ac anogwyd swyddogion i gysylltu â swyddogion o'r adran berthnasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad.**

2. awdurdodi'r Pennaeth Adnoddau Dynol i ddechrau'r broses ymgynghoriad Swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Chyflogeion yr Awdurdod.

15. (Drafft) Strategaeth Hamdden

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles i gyflwyno'r drafft ddogfen i'w chymeradwyo cyn cyfnod o ymgynghori arni.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a'r cefndir ac amlygodd y pwyntiau allweddol. Yna arweiniwyd yr aelodau drwy'r Strategaeth Hamdden (Drafft) yn fanwl.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r strategaeth ddrafft a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Croesawodd yr Aelodau'r Strategaeth Hamdden a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.
- Bu aelodau a swyddogion yn trafod mynd â chŵn am dro yng nghefn gwlad ac er nad oedd unrhyw gyfraith yn mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn, byddai'r Awdurdod bob amser yn annog perchnogion cŵn i roi eu ci ar dennyn yng nghyffiniau da byw, boed ar dir mynediad neu ar Hawl Tramwy Cyhoeddus.
- Cytunodd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach a mân newidiadau at y Rheolwr Mynediad a Llesiant, e.e. gofynion caniatâd dronau ac ati.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Mynediad a Llesiant mai mapiau ac apiau a ddatblygwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri oedd y mapiau ar y we y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad ac nad oeddent yn rhan o Google na systemau mapio torfol yr AO.
- cytunodd y Rheolwr Mynediad a Llesiant i ddarparu dolen i'r cod ymddygiad gwersylla gwyllt yn y ddogfen i hysbysu defnyddwyr unwaith y bydd caniatâd wedi'i roi.
- Nododd Aelod na fydd y Cynghorau Cymuned yn cyfarfod tan fis Medi. Gan fod hyn yn wir, sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau na fyddai'r ymgynghoriad yn dechrau tan yr amser hwn.
- Croesawodd Aelod y ddogfen a oedd, yn ei farn ef, o fudd i dirfeddianwyr. Trafododd yr aelodau yr angen i leihau effaith parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd gan nodi bod llwybrau cylchol Dinas Mawddwy yn esiampl dda gan eu bod yn caniatáu i bobl fwynhau'r awyr agored heb orfod defnyddio eu ceir, gan fod y llwybrau troedyn dechrau a gorffen yn y pentrefi. Cytunodd swyddogion y byddai lleoedd fel Beddgelert yn elwa o gynlluniau tebyg.
- teimlai Aelod fod y rhan ar newid hinsawdd yn fyr iawn wrth symud ymlaen ac y dylid ei chroesgyfeirio gyda'r strategaeth hinsawdd. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y strategaeth yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Eryri a'i amcanion, ac y bydd y Rheolwr Mynediad a Llesiant yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli i fireinio'r ddogfen.
- bydd y Strategaeth Hamdden hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddwyr faniau gwersylla.
- nododd Aelod fod ystadegau newydd ar hamdden yn seiliedig ar weithgareddau wedi'u lansio'n ddiweddar ac y dylai swyddogion gysylltu ag Eryri Bywiol am ragor o fanylion. Hefyd, dylid cywiro'r cyfeiriad at 'Mount Snowdon' ar dudalen 34 o'r strategaeth.

PENDERFYNWYD

- 1. bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys y Strategaeth Hamdden ddrafft (Atodiad 1) yn ddarostyngedig i sylwadau'r Aelodau.**
- 2. bod yr Aelodau'n cymeradwyo cyfnod ymgynghori allanol o 4 wythnos gyda chyfnod pellach o 4 wythnos wedi hynny i ystyried ymatebion ac**

ymgorffori unrhyw newidiadau perthnasol i'r ddogfen cyn dychwelyd i'r Awdurdod i'w chymeradwyo'n derfynol.

3. bod y cyfnod ymgynghori i ddechrau ym mis Medi 2023.

16. Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ac i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd gyda'r Strategaeth Gwirfoddoli 2021-26.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yr Adroddiad Blynyddol a rhoddodd y cefndir ac adroddiad cynnydd i'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr Adroddiad Blynyddol a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y byddai targedu grwpiau penodol i ddod yn wirfoddolwyr yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r ardal a gwaith y Parciau Cenedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, CNC a'r RSPB wedi comisiynu darn o waith i edrych ar ymgysylltu gwell â grwpiau ethnig. Roedd hyn hefyd yn rhan o rôl y swyddog strategol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a dylai wella pethau dros y blynyddoedd i ddod.
- Croesawodd yr aelodau'r ddogfen a'r cynnydd a wnaed gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles wrth ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr er nad oedd rhan o'r gwirfoddolwyr yn gallu siarad Cymraeg, eu bod yn cael pob anogaeth i ddysgu'r iaith.
- Diolchodd yr aelodau oedd wedi bod yn plannu coed gyda phlant o Ysgol Hafod Lon i'r Swyddog Gwirfoddoli a Lles am ei gwaith ac am y profiad a ddarparwyd i'r plant. Gwahoddwyd yr holl Aelodau i ymuno yn y diwrnodau gwirfoddoli a lles a drefnir yn fisol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022.

17. Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y pwyntiau allweddol. Dywedodd ymhellach fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn awr yn aros am yr adroddiad opsiynau gyda'r costau cyn cyflwyno argymhellion ar ddyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch i'r Awdurdod yn yr Hydref.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri	PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.	Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri.	JC	Mae'r dyddiad targed ar gyfer Strategaeth Carbon Isel wedi'i wthio'n ôl. Mae hyn oherwydd pryderon swyddogion am gwmpas y gwaith a chapasiti staff i'w gwblhau. Mae'r Awdurdod yn edrych ar gyfraniad cyrff eraill o fewn yr ardal, gan gynnwys Cyngor Conwy / Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru - gan gynnwys y potensial i gydweithio ar y cyd gyda nhw. Mi fydd casgliad yr ymholiadau hyn yn cael eu bwydo'n ôl i'r Grŵp Aelodau. Mae Cadeirydd y Grŵp yn cytuno gyda'r angen i edrych ar opsiynau cydweithio ehangach. Cytunodd yr Awdurdod ar 15 Tachwedd i addunedu i "Ras i Sero", a fydd yn fframio camau gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â Charbon.	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru	PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.	Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad.	PW	Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru.	NA
11. Rhaglen Waith Corfforaethol 2022/23 - Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant	<u>Gwella Rheolaeth Hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol Hamdden</u> Yn dilyn cais gan Aelod, i ddatblygu polisi nofio gwyllt.	Adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol .	AJ/PR	I'w gynnwys fel rhan o eitem i'r Gweithgor ar 24.01.24 : Adroddiad Rheolwr Mynediad a Llesiant (ffigyrau llwybrau a mynediad i ddwr/nofio gwyllt).	NA

EITEM RHIF 5

CYFARFOD	Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2023-24
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu'r Aelodau – <ul style="list-style-type: none"> - o drosglwyddiadau sylweddol, - o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2023/24 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol h.y.1^{af} o Ebrill 2023 hyd at yr 31^{ain} o Hydref 2023.
- 1.2 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2022/23.
- 1.3 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog wedi ôl-ddyddio i Ebrill 1^{af}, 2023 bellach wedi ei dderbyn a'r newidiadau yma wedi eu hychwanegu i'r gyllideb.
- 1.4 Mae cynlluniau grant 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (T.C.LI.C) 2022/23 - 2024/25 yn parhau. Cyfanswm gwerth y cynlluniau yma yw £2.5 miliwn gydag amcan o'r gwariant wedi neilltuo dros y tair blynedd a £850,000 ar gyfer 2023/24.
- 1.5 Mae grant ychwanegol T.C.LI.C ar y cyd â pharciau cenedlaethol eraill Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae hyd at £500k wedi ei glustnodi dros dair blynedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweinyddu'r cynllun. Derbyniodd yr Awdurdod £150,000 yn 2022/23 gyda £218,750 ar gael ar gyfer y cynllun ar y cyd yn 2023/24.
- 1.6 Gwaith cyfalaf yw prif ddiben y grantiau T.C.LI.C ond mae ffioedd gweinyddu o 10% wedi eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â ffioedd gweithredu er mwyn cyfrannu at adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynlluniau. Mae'r ffioedd yma yn amrywio o 5% - 15% o gyfanswm y grant yn ddibynnol ar gymhlethdod y cynllun a'r angen am adnoddau ychwanegol er

mwyn eu cyflawni'n effeithiol. Yn arferol mae effaith cynlluniau grant cyfalaf o'r fath ar y waelodlin yn net o '£0', ond mae'n bosib i'r elfen arian gweithredu gyfrannu tuag at amser y staff gan greu arbedion yn erbyn y gwasanaethau a'r waelodlin.

- 1.7 Mae cynllun grant cyfalaf Prosiect Tŷ Natur yn parhau yn 2024/25 gyda'r gwariant yn cael ei hawlio nôl drwy gais i Gyngor Gwirfoddol Gweithredu Cymru (CGGC). Mae cynlluniau grant Treftadaeth y Loteri megis Carneddau hefyd yn parhau.
- 1.8 Mae'r sefyllfa yn parhau lle nad oes disgwyl unrhyw grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. O fewn y gwasanaethau Amaeth mae aelodau staff yn parhau i weithio ar geisiadau am grantiau ychwanegol amrywiol er mwyn ymestyn a darparu dilyniant i gynlluniau cyfredol. Bydd nifer o'r cynlluniau arfaethedig yn bwydo i mewn i 2024/25.

2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2023-24

- 2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar yr 8^{fed} o Chwefror 2023.

Gwasanaethau	Cyllideb Sylfaenol	Trosogl. cynt £	Trosoglwyddiadau	Cyllideb Net Ddiwygiedig		
	£		£	£		
Cynllunio a Rheoli Tir	2,309,185	-	30,587	100,110	2,378,708	
Corfforaethol	5,038,111	-	183,592	-	2,487	5,219,216
Balansau	261,600	-	-	-	261,600	
Cyfanswm Gwasanaethau	7,608,896	153,005	97,623		7,859,524	
Llog a ennilwyd ar falansau	-	28,000	-	92,000	-	120,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	-	503,970	-	218,889	-	722,859
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-	591,050	-	-	-	591,050
Cyllideb net	7,493,816	279,894	97,623		7,871,333	
	-	-	-	-	-	
Arianwyd o	-	-	-	-	-	
Grant Parciau Cenedlaethol	4,119,789	-	-	-	4,119,789	
Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262	-	-	-	1,373,262	
	5,493,051	-	-	-	5,493,051	
Trosoglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn	2,000,765	-	279,894	97,623	2,378,282	
Cyllideb Net ddiwygiedig	7,493,816	-	-	-	7,871,333	

- 2.2 Mae dadansoddiad manwl yn atodiad 1 yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 31^{ain} o Hydref 2023. Mae'r atodiad hefyd yn manylu ar y trosoglwyddiadau i mewn ac o'r cronfeydd wrth gefn.
- 2.3 Mae'r cynnydd yn y gyllideb yn ymwneud a chyflogau yn bennaf gan gynnwys yr addasiad i gyflogau staff lle cytunwyd ar gynnydd o £1,925 i bob hicyn cyflog. Mae'r cynnydd yma yn eithrio'r Tîm Rheoli sydd ar raddfeydd gwahanol ac eisoes wedi derbyn cynnydd o 3.5%, gweithredwyd y newidiadau yma i'r Tîm Rheoli ac adroddwyd arnynt yn niweddariad Cyllideb Medi 2023. Mae'r cyfraniad ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu'r arian sydd angen yn ychwanegol i'r ddarpariaeth wreiddiol ar gyfer cyflogau o £231,600.

Roedd y ddarpariaeth yn 5% ar gyfer swyddi'r waelodlin gyda'r cynnydd gwirioneddol gyfystyr a tua 6%.

- 2.4 Mae'r cynnydd cyflog wedi golygu addasiad i'r cyfraniadau sydd eu hangen o gronfeydd yr Awdurdod ac mewn incwm grantiau gan bartneriaid i gwrdd â'r gyllideb. Mae'r cynnydd cyflog i staff eithrio'r Tîm Rheoli yn £334k ac mae dadansoddiad bras isod.

Cyfanswm Cynnydd Cyflog		334,054
Cyfanswm Cynnydd Incwm	-	19,430
defnyddio darpariaeth chwyddiant	-	231,600
Cynnydd mewn cyfraniad o gronfeydd a grantiau hanesyddol	-	23,880
Cynnydd ar y gwaelodlin		59,144

- 2.5 Mae'r cynnydd mewn incwm yn berthnasol i gynlluniau megis y Carneddau, Adfer Natur a Mawndiroedd lle disgwylir i unrhyw gost ychwanegol gael ei gwrdd drwy'r grantiau. Mae'r cyfraniad o gronfeydd a grantiau hanesyddol yn cynnwys cronfeydd a grantiau hanesyddol sy'n benodol i rai o'r swyddi. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau megis LIFE, Manifesto Ieuenticid, Wyddfa di-blastig a swyddi lle mae arian wedi neilltuo mewn blynyddoedd blaenorol, (Cynllunio - Polisi, a Swyddog Eiddo). Mae'r cynnydd ar y waelodlin yn cynnwys y codiad cyflog ar y swyddi craidd yn o gystal â swyddi lle'r bwriad yw ariannu o gronfeydd penodol ond mae gweddill annigonol o fewn y cronfeydd. Mae disgwyl bydd grantiau ychwanegol yn o gystal â defnydd o'r elfen gweithredu o'r grantiau T.C.LI.C yn cyfrannu at y diffyg ychwanegol i'r waelodlin.
- 2.6 Mae trosglwyddiad pellach o £13.1k wedi ei wneud i ariannu diswyddiadau aelodau staff o Blas Tan y Bwlch, bydd y rhain yn cael eu hariannu o gronfa risgiau penodol/gwytnwch staff. Mae'r ffigur trosglwyddiadau newydd (£97,623) yn nhabl 2.1 felly yn adlewyrchu'r cyfraniad o gronfeydd/grantiau hanesyddol, y cynnydd ar y waelodlin, y cyfraniad ar gyfer diswyddiadau yn o gystal â chywiriad i'r gyllideb o £1.5k.
- 2.7 Mae gweddill i'w adnabod i gwrdd â'r gyllideb ar hyn o bryd yn £553,010, (£492,210 adroddwyd ym Medi cyn cadarnhad y codiad cyflog). Pwysleisir gall y ffigur yma amrywio gydag addasiadau pellach i'r gyllideb cyn diwedd y flwyddyn yn o gystal ag effaith unrhyw orwariant/tanwariant. Mae'r Tîm Rheoli yn parhau i fonitro'r sefyllfa gydag effaith unrhyw newidiadau sylweddol i'w ystyried cyn penderfynu'r ffynhonnell i gwrdd â'r her wrth baratoi ar gyfer 2024/25.

3. CYLLIDEB GYFALAF DIWYGIEDIG

- 3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2023-24 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2. Nid yw cynlluniau grant cyfalaf T.C.L.I.C 2023/24 wedi eu cynnwys gan fod gwariant ar y grantiau yma yn cael ei hawlio yn ôl gan olygu dim cost i'r Awdurdod.

Cyllideb Cyfalaf 2023/24					
	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl. Cynt	Cyllideb Net Ddiwyg.
Meysydd Gwasanaeth	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	122,630	-	122,630	120,316	242,946
Corfforaethol	381,340	-	381,340	98,573	479,913
Cyfanswm	503,970	-	503,970	218,889	722,859

- 3.2 Nid oes addasiadau pellach wedi eu gwneud i'r gyllideb cyfalaf ers diweddariad Medi 2023. Ar hyn o bryd mae'r holl wariant Cyfalaf o fewn unai'r gyllideb neu'r symiau o arian wedi ei neilltuo i'r cynlluniau penodol mewn cronfeydd. Mae'r gwariant yn cael ei fonitro o hyd gyda throsglwyddiadau yn debygol o'u gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn oni bai fydd yna wariant sylweddol sydd angen sylw yn y cyfamser.
- 3.3 Mae gwaith yn parhau gyda gwariant ar gynlluniau cyfalaf nad oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau T.C.L.I.C lle mae £292,415 o wariant hyd at ddiwedd Hydref. Mae gwariant hefyd ar nifer o gynlluniau grant hanesyddol sydd heb eu cyflawni am amryw o resymau megis y pandemig Cofid-19, diffyg adnoddau neu oedi cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau wedi eu hariannu o grantiau Llywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill lle trosglwyddwyd yr arian i gronfeydd wrth gefn. Ar Hydref 31^{ain} roedd y gwariant ar y cynlluniau yma yn £225,561 gyda disgwyl i'r gwariant terfynol gael ei ariannu o gronfeydd sydd wedi eu neilltuo yn benodol neu arian mae darparwyr grant yn fodlon ei arallgyfeirio.
- 3.4 Mae gwariant Cyfalaf pellach ar gynlluniau lle mae grantiau wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn neu angen eu hawlio ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r rhain yn gynlluniau o fewn y gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth megis Prosiect 'Mind the Gap', Prosiect Tŷ Natur a Llefydd Lleol i Natur sydd yn gynllun tair blynedd hyd at 2025. Cyfanswm gwariant y cynlluniau yma hyd at ddiwedd Hydref yw £78,087.

4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2023-24

4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 31^{ain} o Hydref 2023, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2022/23.

Gwasanaethau	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwariant Net hyd yma	Cymhariaeth 2022/23	Gwahaniaeth
	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	2,378,708	1,391,931	1,244,676	- 147,256
Corfforaethol	5,219,216	2,562,604	2,985,329	422,726
Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau	261,600	-	-	-
Cyfanswm Gwariant i wasanaethau	7,859,524	3,954,535	4,230,005	275,470
				-
Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben	- 120,000	- 129,762	- 22,472	107,289
Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf	722,859	703,218	500,421	- 202,797
Addasiadau Taliadau Cyfalaf	- 591,050	- 344,960	- 344,960	-
Cyllideb Refeniw Net	7,871,333	4,183,032	4,362,994	179,962
Arianwyd o:				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	2,000,765			
Cyllideb Net Wreiddiol	7,493,816			
Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru	-			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	377,517			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	7,871,333			

4.2 I grynhoi, mae'r sefyllfa o ran gwariant net y gwasanaethau yn parhau i gymharu'n ffafriol a gwariant net o'r un cyfnod yn 2022/23. Mae cynnydd o dros £60k yn yr incwm Meysydd Parcio yn 2023/24 o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 wedi cyfrannu at y gwahaniaeth. Mae gwariant yn parhau yn uwch ar elfennau a effeithir gan chwyddiant, yn benodol ar ynni. Hyd yma mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn ymddangos yn ddigonol ond bydd angen monitro'r gwariant dros y gaeaf lle bydd cynnydd sylweddol ar ddefnydd ynni. Gan nad yw'r lefel chwyddiant wedi gostwng mor sydyn a ragwelwyd, mae'r cyfraddau llog yn parhau'n uchel. Mae hyn yn parhau i arwain at incwm llog sylweddol i'r Awdurdod. Cynyddwyd y gyllideb/targed incwm llog i £120k i adlewyrchu hyn ac mae'r targed yma eisoes wedi ei uchafu gyda dros £129k o incwm wedi ei dderbyn hyd yma yn 2023/24.

Bydd trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gweithredu ar unrhyw addasiadau pellach i'r gyllideb neu i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl.

Cyflwynir isod esboniadau am rai o'r amrywiannau a gwariant annisgwyl a ragwelir hyd yma.

4.3 **Corfforaethol:**

Plas Tan y Bwlch - Mae gwariant ar gostau tiroedd ac eiddo yn uwch na'r gyllideb hyd yma gyda'r gorwariant yn deillio yn bennaf o gostau cynnal a chadw. Mae disgwyl gwariant pellach ar waith cynnal a chadw angenrheidiol yn y Plas gyda ffynonellau penodol eisoes wedi eu hadnabod megis y gronfa rheoli asedau. Mae'r costau yma tu hwnt i reolaeth Plas fel elfen fasnachol wrth gwrs ac mae costau eraill o fewn tiroedd ac eiddo megis gwariant ar ynni yn parhau o fewn y gyllideb ar hyn o bryd. Mae gorwariant ar wasanaethau a chyflenwadau o ganlyniad i brysurdeb gyda chynnydd cyffelyb yn yr incwm sydd yn negyddu'r effaith ar y waelodlin. Bydd cyllideb Plas yn parhau i gael ei fonitro'n gyson.

Meysydd Parcio, Casglu Sbwriel a Chyfleusterau Ymwelwyr - Mae incwm Meysydd Parcio a Llyn Tegid yn uwch o £135k (cyn addasu am daliadau consesiwn) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r prysurdeb yma wedi arwain at gynnydd mewn sbwriel gyda gorwariant cyffelyb ar gasglu sbwriel. Mae'r gwariant hyd yma yn £39k o gymharu â'r gyllideb casglu sbwriel o £15k. Mae gwaith sylweddol yn parhau yn Hafod Eryri yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch. Mae disgwyl bydd angen i'r gwaged incwm disgwylidig gael ei neilltuo ar gyfer gwariant ar yr eiddo yma yn o gystal â'r gorwariant ar gasglu sbwriel a gwasanaeth diogelwch ym Mhen y Pass.

Ymgysylltu a Chynllun Rheolaeth a Phartneriaethau - Mae addasiadau mewnol ar y gweill ar strwythur a staff o fewn y gwasanaethau yma. Mae disgwyl fydd y newidiadau wedi eu hymgorffori erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac wrth baratoi ar gyfer cyllideb 2024/25. Disgwylir gorffen o fewn y gyllideb neu gyda thanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Cyfreithiol - Mae gwaith yn mynd rhagddo ar achos lle mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor cyfreithiol arbenigol. Mae hyn wedi arwain at orwariant ac ar hyn o bryd nid oes sicrwydd o ganlyniad tebygol yr achos na swm unrhyw adenillion posib. Disgwylir canlyniad i'r achos cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Canolfannau Ymwelwyr - Mae'r canolfannau yn perfformio yn well na'r gyllideb hyd yma eleni gydag incwm yn goresgyn y targed a osodwyd yn wreiddiol. Mae'r cynnydd mewn gwerthiannau wedi arwain at orwariant sylweddol ar nwyddau i'w hailwerthu ond yr incwm ychwanegol yn cwrdd â hyn wrth gwrs. Nid yw'r Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yn rhagweld unrhyw newid sylweddol a all arwain at orwariant eleni.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir:** Ar y cyfan, mae'r gwariant net hyd yma o fewn y gyllideb. Mae disgwyl amrywiannau posib o fewn rhai o'r gwasanaethau lle mae'r gyllideb yn cael ei fonitro gan y penaethiaid a'r cyfarwyddwr. Ymhelaethir ar y prif wasanaethau dan sylw isod.

Treftadaeth Ddiwylliannol a Carneddau - Mae'r cynlluniau ynghlwm â'r pennawd yma yn gynlluniau sydd yn cael eu hariannu yn bennaf gan grantiau. Fodd bynnag mae dau o'r cynlluniau yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyda'r angen i ariannu diswyddiadau i'r aelodau o staff. Mi ddaw'r sefyllfa yn gliriach ar ôl cwblhau'r hawliadau grant a chael rhagamcan

manylach o'r gwariant. Mae'r Pennaeth yn ymchwilio i mewn i unrhyw ffynonellau ychwanegol all fod eu hangen ar hyn o bryd.

Cynllunio - Mae trosiant staff o fewn y gwasanaeth cynllunio wedi arwain at swyddi yn wag am gyfnod gan effeithio ar allbwn y gwasanaeth i raddau. Mae'r angen i ddarparu gwasanaeth arbenigol yn parhau serch hynny gyda gwariant sylweddol ar ymgynghorwyr allanol o ganlyniad i'r swydd wag. Disgwylir i'r sefyllfa barhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda'r pennaeth a'r cyfarwyddwr yn adolygu ar sail gyson wrth gydweithio ar y broses recriwtio. Yn ychwanegol, disgwylir i'r llwyth gwaith gynyddu ymhellach yn sgil oblygiadau 'Erthygl 4' gyda phosibilrwydd o'r angen i ariannu oriau staff ychwanegol.

Ysgwrn - Mae gorwariant bychan yn erbyn y gyllideb net ar hyn o bryd ac incwm yn llai na'r targed a osodwyd yn wreiddiol. Nid yw'r gyllideb wedi ei addasu'n ddigonol yn y blynyddoedd diweddar er mwyn adlewyrchu'r gwir sefyllfa a gosod targedau realistig. Mae hyn wedi golygu fod y gyllideb a'r cyfraniad gan yr Awdurdod yn annigonol. O ganlyniad mae'r pennaeth wedi adrodd gorwariant yn erbyn y gyllideb ar sawl achlysur. Mae trafodaethau'n parhau i osod cyllideb ddiwygiedig ar gyfer yr Ysgwrn yn 2024/25.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth - Mae nifer o gynlluniau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yma wedi derbyn grantiau i gyfrannu at amser staff. Mae aelodau staff yn parhau i geisio denu grantiau a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i ymestyn neu ddarparu dilyniant i rai o'r cynlluniau. Pan osodwyd y gyllideb yn wreiddiol roedd nifer o gyflogau'r gwasanaeth wedi eu nodi yn erbyn y waelodlin rhag ofn. O ganlyniad i'r grantiau ychwanegol, disgwylir i hyn arwain at arbediad o fewn y gwasanaeth. Y bwriad yw neilltuo cyfran o unrhyw danwariant i alluogi'r pennaeth i gynllunio am gyfnod estynedig a pharatoi at ddiwedd cynlluniau megis 'Coedwigoedd Celtaidd LIFE'.

- 4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** - Mae'r ddarpariaeth chwyddiant gwreiddiol o £30,000 yn parhau heb ei ddosrannu ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yn parhau i gael ei fonitro gyda disgwyl i'r arian gael ei neilltuo cyn diwedd y flwyddyn pan fydd unrhyw fylchau yn y gyllideb yn cael eu hamlygu. Mae'r ddarpariaeth chwyddiant cyflogau o £231,600 wedi ei ddefnyddio i gyfrannu at y cynnydd mewn cyflogau a gadarnhawyd yn gynharach ym mis Tachwedd.
- 4.6 **Costau Cyflog** - Roedd darpariaeth wreiddiol yr Awdurdod yn 5% tuag at chwyddiant cyflogau, gyda'r gwir ffigwr oedd angen tua 6%. Mae'r diffyg yn y ddarpariaeth wedi arwain at £59k yn ychwanegol mewn costau i'r Awdurdod gwrdd â'r gyllideb. Mae'n debygol bydd y ffigwr yma yn cynyddu gyda chynnydd arfaethedig o ddau hicyd i'r Prif Weithredwr. Fodd bynnag mae'n bosib fydd grantiau ychwanegol yn o gystal â'r elfen gweithredu o gynlluniau grant T.C.LI.C yn cyfrannu'n rhannol at y cynnydd yma.
- 4.7 **Llog**: Mae'r cyfraddau llog yn parhau yn uchel yn sgil sefyllfa'r economi. O ganlyniad mae'r incwm llog yn sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol o £28,000 a bellach wedi uchafu'r targed diwygiedig o £120,000. Ar ddiwedd Hydref roedd yr incwm llog yn £129,762.

4.8 **Cyfalaf:** Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Gorffennaf yn cynnwys -

Eryri - Carbon a Ni (T.C.LI.C)	£179,311
Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau	£141,617
Hafod Eryri	£58,740
Twristiaeth (T.C.LI.C)	£46,281
Cader Idris (Grant. LI. Cymru)	£44,142
Llefydd Lleol i Natur	£36,691
Prosiect Tŷ Natur	£27,229
Adfywio Harlech (Grant. LI. Cymru)	£29,667
Terfynau Traddodiadol (T.C.LI.C ar y cyd)	£27,187

4.9 Nid oes disgwyl i wariant cyfalaf gynyddu tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei osod neu'r symiau o arian sydd wedi ei neilltuo mewn cronfeydd gan yr Awdurdod. Fodd bynnag gall hyn amrywio yn sgil cynnydd costau deunyddiau a llafur o ganlyniad i chwyddiant. Mae gwaith yn parhau yn Hafod Eryri ar hyn o bryd gyda phosibilrwydd o'r angen am waith pellach annisgwyl. Mae ffynonellau eisoes wedi eu hadnabod i gyfrannu at unrhyw ddiffyg petai'r gwariant yn cynyddu a'r sefyllfa'n cael ei fonitro yn rheolaidd gan y pennaeth Eiddo. Bydd y gwaith yma yn parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU DROS £30,000 ER SYLW'R AWDURDOD.

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau wedi eu cymeradwyo yn ystod saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

5.3 Bydd angen trosglwyddo arian o gyllideb cyfalaf Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol i gyllideb cynllun cyfalaf Treftadaeth Treflun Dolgellau cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n debyg fydd angen neilltuo cyfran o'r arian yma ar gyfer y gwasanaeth 'refeniw' ynghyd a chynllun Harlech ac Ardudwy. Mae'r cynlluniau yma yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol a fydd angen cyllido taliadau diswyddo i'r aelodau staff.

6. ARGYMHELLIAD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf 2023/24.**

7. PAPURAU CEFNDIROL

Dim

				Atodiad 1
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 o Hydref 2023				
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwydd- iadau	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	585,410	10,701	21,830	617,941
Awyr Dywyll	54,430	10	2,520	56,960
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	588,820	-	13,730	602,550
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	24,995	5	-	25,000
Archeoleg	65,000	11,500	2,550	79,050
Treftadaeth Diwylliannol	75,780	-	2,540	78,320
Treftadaeth Treflun Dolgellau	24,630	-	1,910	26,540
Cynllun Harlech ac Ardudwy	53,880	- 13,560	1,990	42,310
Ysgwrn	113,040	- 3,593	8,420	117,867
Cynllunio	723,200	- 35,650	44,620	732,170
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	2,309,185	- 30,587	100,110	2,378,708
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	-	-	112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	91,530	750	3,570	95,850
Rheolaeth Gorfforaethol	597,001	85,344	2,550	684,895
Eiddo	241,400	4,410	6,670	252,480
Cyfreithiol	56,320	6,000	2,060	64,380
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	218,990	93	12,220	231,303
Cyfieithu	106,000	-	2,520	108,520
Personel a Hyfforddiant	149,910	-	6,380	156,290
Pencadlys	260,370	456	1,370	262,196
Systemau Gwybodaeth	355,350	27,090	12,650	395,090
Cyllid	294,230	2,840	15,370	312,440
Plas Tan y Bwlch	462,100	-	37,323	499,423
Ymgysylltu	490,740	- 41,280	20,770	470,230
Safle Gwe Newydd	15,550	39,800	2,540	57,890
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,452,001	125,503	125,993	3,703,497

Atodiad 1 parh.				
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 o Hydref 2023				
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwydd - iadau	Trosgl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	2,309,185	- 30,587	100,110	2,378,708
CORFFORAETHOL	3,452,001	125,503	125,993	3,703,497
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant L.I.C.)	36,080	-	2,540	38,620
Llwybrau Llesiant (Grant L.I.C.)	40,000	-	-	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	345,770	- 5,537	11,680	351,913
Wyddfa Di-Blastig	-	50,610	2,540	53,150
Canolfannau Gwybodaeth	165,920	-	17,420	183,340
Llyn Tegid	- 26,410	4,866	-	- 21,544
Meysydd Parcio	- 502,720	240	7,860	- 494,620
Ciirio Ysbwriel	19,510	-	-	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	263,450	11,770	-	275,220
Mynediad Cyhoeddus	123,940	-	4,070	128,010
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr	1,115,570	- 3,860	57,010	1,168,720
	5,038,111	183,592	229,113	5,450,816
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredin	30,000	-	-	30,000
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	231,600	-	- 231,600	-
	261,600	-	- 231,600	30,000
	7,608,896	153,005	97,623	7,859,524
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd	- 28,000	- 92,000	-	- 120,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	503,970	218,889	-	722,859
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	- 591,050
	7,493,816	279,894	97,623	7,871,333
ARIANWYD O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789	-	-	4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262	-	-	1,373,262
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	2,000,765	279,894	97,623	2,378,282
Cyllideb Net	7,493,816			7,871,333

					Atodiad 2
Cyllideb Cyfalaf 2023/24					
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosogl. (£)	Cyllideb Net Ddiwyg. (£)
Cynllunio a Rheoli Tir					
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	72,000	-	72,000	70,316	142,316
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	-		-	-	-
Cynllun Harlech ac Ardudwy	-	-	-	50,000	50,000
Carneddau - Data LiDAR (Grant LI. C.)	15,630	-	15,630	-	15,630
Carneddau - Llwybrau (Grant LI. C.)	35,000	-	35,000	-	35,000
Is-gyfanswm	122,630	-	122,630	120,316	242,946
Corfforaethol					
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340	-	22,340	-	22,340
System TG - Cynllunio (Grant LI. C.)	-	-	-	47,314	47,314
Dathliadau 70 oed (Grant LI. C.)	15,000	-	15,000	-	15,000
Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant LI. C.)	15,000	-	15,000	-	15,000
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant LI. C.)	25,000	-	25,000	-	25,000
Betws y Coed (Grant LI. C.)	72,000	-	72,000	8,220	63,780
Prosiectau Mynediad	10,000	-	10,000	660	10,660
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	-	14,000	55,719	69,719
Penmaen Brith (Grant LI. C.)	25,000	-	25,000	-	25,000
Llyn Cynwch (Grant LI. C.)	70,000	-	70,000	-	70,000
Nant Gwynant (Grant LI. C.)	38,000	-	38,000	-	38,000
Cadair Idris (Grant LI. C.)	75,000	-	75,000	6,900	68,100
Wyddfa Di-blastig	-	-	-	10,000	10,000
Is-gyfanswm	381,340	-	381,340	98,573	479,913
Cyfanswm	503,970	-	503,970	218,889	722,859

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	CYLLIDEB REFENIW SYLFAENOL 2024/25
AWDUR	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	I nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel yr amcangyfrifir ar gyfer 2024/25 a'r sefyllfa ariannol a ragwelir,

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am gyllideb ddrafft 2024/25 a dangos yr amcan gôst o barhau'r gwasanaethau cyfredol, a chyllido costau a gymeradwywyd ar gyfer y dyfodol.
- 1.2 Mae'r cyllidebau a'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn ar sail cyllideb 'fflat'. Hynny yw, lefel anochel o wariant i barhau a'r lefel bresennol o wasanaeth yn 2024/25 heb unrhyw ychwanegiadau datblygiadol.

2 CRYNODEB CYLLIDEB 2024/25

- 2.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r symudiadau yn y gyllideb sylfaenol o brisiau terfynol 2023/24 i'r prisiau terfynol disgwyliedig yn 2024/25. Gweler crynodeb isod:

CRYNODEB O GYLLIDEB 2024/25		(£)	(£)
Cyllideb Derfynol APCE 2023/24			8,343,805
Newidiadau			
	<u>Newid mewn costau staff</u>		
	Darpariaeth chwyddiant 6%	349,986	
	Newidiadau arfaethedig	75,404	
	Cyfanswm newid mewn costau staff		425,390
	Cynnydd mewn gwariant	50,000	
	Cynnydd mewn incwm	- 72,000	
	Cyfanswm newidiadau incwm a gwariant		- 22,000
Cyllideb Ddiwygiedig			8,747,195
Cyllideb sylfaenol 2024/25			8,747,195
Grant ac ardoll 2024/25			-5,493,051
Cyfraniad net o gronfeydd			-2,376,214
Diffyg			877,930
<i>Gweler atodiad 1 am fwy o fanylion</i>			

2.2 'Rwyf wedi cynnwys darpariaeth o 6% ar gyfer chwyddiant cyflogau yn 2024/25, sydd yn swm gyffelyb i'r swm gafodd ei gytuno yn y cytundeb tâl diweddar ar gyfer 2023/24.

2.3 **Grant Llywodraeth Cymru (amcan £5,493,051):**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bydd dim cynnydd i'r setliad grant ar gyfer 2024/25, felly mi ydw i wedi gwneud rhagdybiaeth bydd y setliad tebygol yn un "gwastad", a fydd yn golygu toriad mewn gwir dermau.

2.4 Ni chynhwysir effaith lawn gwariant ychwanegol a ariennir yn llawn o grantiau yn fan hyn, ond bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Awdurdod ym mis Chwefror.

2.5 **Newid mewn costau staff (£425,390) :**

Y prif newidiadau fydd darpariaeth chwyddiant (£349,986)

2.6 **Newid Mewn Gwariant (£50,000) :**

Mae'r cynnydd o £50,000 yn ymwneud a chostau yn deillio o gynnydd ailbrisiad trethi annomestig.

Mae'n debygol bydd cynnydd yng nghyfraniad yr Awdurdod i'r Cydbwyllgor Corffredig, tydi amcan o'r gost ychwanegol ddim wrth law eto.

- 2.7 **Newid Mewn Incwm (£72,000)** : Mae'r cynnydd yma yn perthyn i gynnydd incwm llog yn dilyn cynnydd mewn graddfeydd llog yn ddiweddar.
- 2.8 **Cyfraniad Net o Gronfeydd Wrth Gefn (-£2,376,214)** : Mae'r cyfraniadau hyn yn berthnasol i wariannau ar gynlluniau penodol lle mae cyllid eisoes wedi ei neilltuo ar eu cyfer unai o danwariannau hanesyddol yr Awdurdod neu grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Fel y nodwyd uchod bydd hyn yn cael ei ddiwygio ymhellach ar gyfer yr Awdurdod ym mis Chwefror. Nid oes unrhyw effaith net ar gyllideb sylfaenol yr Awdurdod.
- 2.9 Mae paragraff 3.3 o'r Rheoliadau Ariannol yn nodi bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau parhaol sy'n werth mwy na £10,000 yr un yn y gyllideb ddrafft. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau o'r fath yma.

3 CRONFEYDD WRTH GEFN

- 3.1 Ymhellach i strategaeth gyllidol ddarbodus yr Awdurdod, mae'r cronfeydd canlynol ar gael er mwyn cyllido y diffyg yn 2024/25:

Enw'r Gronfa	Balans
Cronfa Gyffredinol	717,280
Cronfa Risgiau Penodol	359,306
Cronfa Risgiau Masnachol	120,000
Cronfa Gwytnwch Staff	100,000
Cyfanswm	1,296,586

Bydd rhywfaint o newid i falansau'r cronfeydd fel bydd y flwyddyn ariannol bresennol yn symyd yn ei blaen, ac amrywiad posib yng ngwariant yn erbyn y gyllideb.

Mae'r Awdurdod yn gwynebu cyfnod heriol o ganlyniad pwysau chwyddiant diweddar, ynghyd a setliad 'fflat' y grant craidd ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae defnydd o gronfeydd i gyfarfod a'r diffyg yn ddatrysiad byr dymor, ac mae posiblwydd bydd angen i'r Awdurdod adnabod arbedion cyllidol parhaol yn 2024/25.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 **Nodi'r gyllideb sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellwyd.**

		(£)	Atodiad 1 (£)
1	Cyllideb Sylfaenol 2023/24		8,343,805
2	Newid mewn costau staff		
	Cynnydd darparieth chwyddiant 6%	349,986	
	Addasu Strwythur Gwasanaethau a Swyddi Newydd	79,725	
	Arbedion net	-4321.41	
			425,390
			425,390
3	Newid mewn gwariant		
	Newid mewn Gwerth Ardrethol	50,000	
			50,000
4	Newid mewn incwm		
	Cynnydd		
	Incwm llog	-72,000	
			-72,000
5	Cyllideb Sylfaenol 2024/25		8,747,195
6	Grant Parc Cenedlaethol ac Ardoll 2024/25		-5,493,051
7	Cyfraniad Net o gronfeydd wrth gefn		
	Cyfraniadau Net		-2,376,214
			-
8	Diffyg		877,930

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2022/23
ADRODDIAD GAN:	Pennaeth Archwilio Mewnol
PWRPAS	Adroddiad Blynyddol

1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

- 1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn diffinio Archwilio Mewnol fel **“gweithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig”**.
- 1.2 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn **“gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o’u materion ariannol ac yn sicrhau fod un o’u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn”**. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal gwasanaeth archwilio mewnol.
- 1.3 Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd. Er bod y gwasanaeth wedi ei leoli yn allanol i’r Awdurdod, mae’n darparu gwasanaeth i’r holl awdurdod fel arf i reolwyr i ymwybyddu a chryfhau rheolaeth fewnol, ac yn cynnig i **“Swyddog Adran 151”** yr Awdurdod (y Prif Swyddog Cyllid) y sicrwydd angenrheidiol fel sy’n ofynnol dan ddeddf gwlad.
- 1.4 Mae defnydd priodol o’r adnoddau sydd ar gael i Awdurdod y Parc yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaethau a gynigir o safon uchel. Nod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i’r Prif Swyddog Cyllid, ac fel canlyniad i’r holl Awdurdod, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a’u defnyddio’n briodol, gyda thryloywder.
- 1.5 Mae’r adroddiad blynyddol yma yn cynnwys:
- Disgrifiad o’r cyd-destun ar gyfer paratoi’r adroddiad blynyddol
 - Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23
 - Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.

2. GWAITH ARCHWILIO MEWNOL 2022/23

- 2.1 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn crynhoi barn y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y gwasanaeth ar gynllun archwilio 2022/23.
- 2.2 Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu yw cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.
- 2.3 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2022/23, yn fy marn i mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion yr Awdurdod, gan fod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan.**
- 2.4 Roedd tri darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2022/23, sef:
- Cysoniadau banc
 - Ad-hawlio costau teithio
 - Hyfforddiant mandadol
- 2.5 Cymeradwywyd yr uchod fel cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, penodwyd aelod o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel Pennaeth Cyllid ar secondiad dros dro i'r Awdurdod, a felly cytunwyd i beidio cynnal archwiliad Cysoniadau Banc er mwyn sicrhau annibyniaeth. Cytunwyd i gynnal archwiliad ar 'Gronfa Gymunedol y Carneddau' yn ei le.
- 2.6 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 2.7 Mae adroddiadau archwiliadau mewnol llawn 2022/23 wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 i 3.

2.8 Cronfa Gymunedol y Carneddau (Atodiad 1)

- 2.8.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle wrth weinyddu'r gronfa. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ar gyfer gwerthuso ceisiadau a dyrannu grantiau, monitro cynnydd ac ad-hawlio y cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.
- 2.8.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

2.9 Ad-hawlio Costau Teithio (Atodiad 2)

- 2.9.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gweithwyr yr Awdurdod yn hawlio costau teithio mewn modd cyson a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau am ad-daliad costau teithio, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau'r Awdurdod.
- 2.9.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

2.10 Hyfforddiant Mandodol (Atodiad 3)

- 2.10.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gweithwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau drwy gwblhau cyfres o hyfforddiant mandodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio canran o'r gweithwyr ac Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandodol, ynghyd â threfniadau yr Awdurdod o'u hannog i'w cwblhau.
- 2.10.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

2.11 Gwaith Dilyniant

- 2.11.1 Bwriad y gwaith dilyniant oedd sicrhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ar y gweithrediadau cytunwyd er mwyn lliniaru y risgiau adnabuwyd fel rhan o waith archwilio mewnol 2021/22. Gwelwyd ar y cyfan bod gweithrediad priodol ar y camau, ond bod angen rhagor o amser er mwyn gweithredu yn llawn ar adegau.

3. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24

- 3.1 Mae cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi ei ddatblygu ar sail y Siarter Archwilio Mewnol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ran yr Awdurdod yng Ngorffennaf 2013.
- 3.2 Mae'r dogfennau ac adroddiadau canlynol wedi derbyn sylw penodol gennyf wrth lunio'r cynllun drafft yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol:
- Cynllun Busnes a Gwelliant yr Awdurdod
 - Proffil Risg yr Awdurdod
 - Cyllideb yr Awdurdod a Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol
- 3.3 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau, trafodaethau gyda swyddogion yr Awdurdod, ac ystyriaeth o'r archwiliadau diweddaraf mewn rhai meysydd, awgrymir y canlynol fel cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2023/24:

Archwiliad	Cynllun (Dyddiau)	Rheswm
Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio	9	Risgiau cysylltiedig i beidio ymateb i geisiadau ac ymholiadau yn brydlon.
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	9	Ehangu ar archwiliad Cronfa Gymunedol y Carneddau cynhaliwyd yn 2022/23. Mae risgiau sydd ynghlwm â'r prosiect wedi'u cynnwys ar broffil risg yr Awdurdod.
Cefnogaeth i Aelodau	8	Er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau y gefnogaeth gan yr Awdurdod i gyflawni eu cyfrifoldebau.
Gwaith Dilyniant	2	Dilyniant i archwiliadau 2022/23.
<i>Eraill:</i>		
Rheolaeth a Phwyllgorau	2	Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau'r Awdurdod ac i reoli gwaith.
Cyfanswm	30	

- 3.4 Mae'r cynllun yma yn ddarostyngedig i addasiadau a'i wneud yn derfynol ar sail cyfarfodydd rhwng y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.

4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

- 4.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

5. ARGYMHELLION

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn fel "Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofyn y Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, am y flwyddyn ariannol 2022/23.
- 5.2 Gofynnir i'r pwyllgor hefyd ystyried y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifo 2023/24, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu dderbyn y cynllun.

CRONFA GYMUNEDOL Y CARNEDDAU

1. Cefndir

- 1.1 Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn gasgliad o sefydliadau sy'n gweithio ar gynllun pum mlynedd i helpu warchod treftadaeth y Carneddau. Mae grant o £1.7 miliwn gan Gronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri yn helpu i gyflawni'r cynllun.
- 1.2 Mae cronfa o £100k dros bum mlynedd ar gyfer dyrannu grantiau rhwng £200 a £5k i brosiectau cymunedol bach i ganolig sy'n cyd-fynd ag amcanion y Bartneriaeth. Ei nod yw galluogi cymunedau'r Carneddau i ddarganfod, gwarchod a dathlu'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle wrth weinyddu'r gronfa. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ar gyfer gwerthuso ceisiadau a dyrannu grantiau, monitro cynnydd ac ad-hawlio y cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	0
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae Cronfa Gymunedol y Carneddau yn rhan gymharol fach o weithgareddau Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, gyda chyllideb o £100k dros y pum mlynedd. Gall sefydliad dderbyn hyd at 3 grant gyda gwerth rhwng £200 a £5,000 yn ystod pum mlynedd y cynllun, gyda uchafswm o £10,000 ar gyfer pob prosiect. I'r perwyl yma, mae'n bwysig bod y rheolaethau yn gymesurol er mwyn sicrhau bod yr arian grant dyrannwyd yn cyd-fynd ag amcanion y Bartneriaeth, ond hefyd ddim yn ormodol gall arwain at grwpiau cymunedol ddim yn ceisio am y grant.
- 5.2 Er nid yw cyfanswm gwerth cronfus y grantiau sydd wedi'u dyrannu hyd yn hyn yn sylweddol, sef oddeutu £25k, gwelwyd bod hyrwyddo digonol i greu diddordeb a bod nifer o geisiadau wedi eu gwneud am grant. Caiff ceisiadau am grant dros £1,000 eu craffu gan banel y gronfa a chaiff ceisiadau am grant hyd at £1,000 eu penderfynu gan staff yr Awdurdod. Mae ymdrech i gynghori a datblygu ceisiadau a datrys unrhyw broblemau cyn iddynt gyrraedd y panel, er caiff nifer eu gwrthod. O'r sampl o brosiectau llwyddiannus detholwyd, gwelwyd eu bod yn briodol ac yn cyd-fynd ag amcanion y Bartneriaeth.

- 5.3 Ar amser yr archwiliad, gwelwyd bod tri taliad o £5,000 wedi eu gwneud, sef yr uchafswm unigol gellir ei ddyrannu. Fodd bynnag, mae canllawiau'r grant yn nodi dylai bod pob taliad yn cael ei wneud mewn 2 rhan-daliad, sef 75% ar ddechrau y prosiect a 25% ar ôl derbyn adroddiad monitro diwedd y prosiect.
- 5.4 Gwelwyd bod cynnydd ar weithgareddau Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn cael eu hadrodd i Gronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri yn amserol, ynghyd â cheisiadau am ad-daliad costau, sy'n cynnwys y grantiau cymunedol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Talu grantiau mewn 2 rhan-daliad, sef 75% ar ddechrau y prosiect a 25% ar ôl derbyn adroddiad monitro diwedd y prosiect.**

AD-HAWLIO COSTAU TEITHIO

1. Cefndir

- 1.1 Gall aelodau staff deithio i wahanol leoliadau yn rhinwedd dyletswyddau eu swydd. Bydd yr aelodau staff yma yn derbyn ad-daliad am y teithiau hyn yn dilyn cyflwyno ffurflen F23 'Ffurflen Hawlio Costau Teithio A Chynhaliaeth'.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gweithwyr yr Awdurdod yn hawlio costau teithio mewn modd cyson a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau am ad-daliad costau teithio, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau'r Awdurdod.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Yn ôl 'Canllawiau ar Gwblhau Ceisiadau Costau Teithio 2017/18', mae pedwar prif senario ar gyfer cyfrifo'r milltiroedd i'w hawlio, sef:-
- i) Teithiau yn cychwyn a gorffen yn y swyddfa - gellir hawlio'r oll o'r milltiroedd awdurdodedig deithiwyd - y milltiroedd i gyfateb i'r darlleniad milltiroedd.
 - ii) Teithiau yn cychwyn o gartref ac yn gorffen yn y swyddfa - y milltiroedd ellir eu hawlio yw'r daith rhwng y cartref a'r safle cyntaf ymwelir neu'r daith rhwng y swyddfa a'r safle cyntaf ymwelir, pa run bynnag sydd fyrraf, yn ogystal ag unrhyw filltiroedd busnes eraill a ymgwymerir ar y daith rhwng y safle cyntaf â'r swyddfa.
 - iii) Teithiau yn cychwyn o gartref ac yn gorffen gartref - y milltiroedd ellir eu hawlio yw'r daith rhwng y cartref a'r safle cyntaf ymwelir neu'r daith rhwng y swyddfa a'r safle cyntaf ymwelir, pa run bynnag sydd fyrraf, yn ogystal â'r milltiroedd o'r safle cyntaf i safleoedd eraill ymwelir â hwy, a hefyd y daith fyrraf rhwng y safle olaf ymwelir ag unai'r swyddfa neu'r cartref.
 - iv) Teithiau yn cychwyn yn y swyddfa ac yn gorffen gartref - gellir hawlio'r milltiroedd a deithiwyd o'r swyddfa i safleoedd awdurdodedig, yn ogystal â milltiroedd y daith fyrraf rhwng y safle olaf ymwelwyd â'r swyddfa neu'r cartref."
- 4.2 Mae hawlio am deithiau sy'n cychwyn a gorffen yn y lleoliad gwaith swyddogol yn syml i gyfrifyddu. Fodd bynnag, ers y cyfnod clo, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o staff sy'n gweithio o adref, felly mae'n dilyn bydd mwy o deithiau yn dechrau ac/neu yn gorffen yn nghartref y gweithiwr. Yn yr achosion yma, mae angen ychydig mwy o waith cyfrifyddu y milltiroedd cymwys, ac mae'r risg o anghysondebau yn cynyddu.
- 4.3 Detholwyd sampl diweddar o 23 cais am gostau teithio. Gwelwyd bod gweithwyr yr Awdurdod yn hawlio yn unol â'r canllawiau, gyda dim ond un enghraifft anfaterol o hawliad am ran o daith nad oeddynt yn gymwys i hawlio. Mae'r cyfradd hefyd yn ddibynnol os cyflwynwyd dderbynneg TAW am y tanwydd neu beidio.

- 4.4 Mae gweithio o adref hefyd yn creu rhwystr o ran arwyddo ffurflenni er mwyn cadarnhau bod y rheolwr llinell wedi gwirio ac yn awdurdodi y hawliad am gostau teithio. Fodd bynnag, gwelwyd brawf o awdurdodi drwy'r defnydd o lofnodi electroneg ac e-byst gan reolwyr. Gwelwyd bod disgrifiad digonol o'r daith cynhaliwyd er mwyn cynorthwyo y rheolwr a'r Adran Gyllid i gynnal y gwiriadau penodol.
- 4.5 Mae'r ffurflen hawlio costau teithio yn gofyn i staff gadarnhau "drwy gydol cyfnod y teithio, fod yswiriant cerbyd ar gyfer gwaith a thrwydded ddilys yn weithredol." Mynegwyd bod staff yn cwblhau ffurflen 'Awdurdodiad i Yrru' wrth gychwyn gyda'r Awdurdod, sy'n gynwysedig yn y pecyn anwytho, ac wedyn yn flynyddol wrth wneud eu gwerthusiad blynyddol gyda eu rheolwr llinell.

HYFFORDDIANT MANDADOL

1. Cefndir

1.1 Mae nifer o fodiwlau hyfforddiant ar-lein wedi eu dynodi yn fandodol i staff ac Aelodau yr Awdurdod. Ar amser yr archwiliad, mae'n fandodol bod staff ac Aelodau yn cyflawni y cyrsiau isod drwy becyn ELMS, a'u hadnewyddu yn flynyddol:

- Troseddau Seibr,
- Diogelwch Seibr; a
- GDPR (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol).

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gweithwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau drwy gwblhau cyfres o hyfforddiant mandodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio canran o'r gweithwyr ac Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandodol, ynghyd â threfniadau yr Awdurdod o'u hannog i'w cwblhau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd adroddiadau, dyddiedig 08/12/22, o pryd cwblhawyd neu adnewyddwyd yr hyfforddiant mandodol gan staff ac Aelodau cyfredol. Gwelwyd bod oddeutu 2/3 ohonynt wedi cwblhau neu adnewyddu hyfforddiant Troseddau Seibr a Diogelwch Seibr yn y flwyddyn rhwng 08/12/21 a 08/12/22, ond mai oddeutu 1/3 yn unig oedd wedi cwblhau neu adnewyddu hyfforddiant GDPR yn yr un cyfnod, gyda rhai heb eu cwblhau o gwbl. Fodd bynnag, mae camau eraill mewn lle i amddiffyn yr Awdurdod o ymosodiadau seibr felly un elfen yn unig o'r amgylchedd rheolaethol yw'r hyfforddiant.

5.2 Pan mae hi'n amser i'r staff ac Aelodau adnewyddu y cyrsiau yma, maent yn derbyn e-bost gan ELMS i'w hysbysu. Os ydi'r dyddiad adnewyddu yn pasio heb weithrediad, mae'r rheolwr adran yn derbyn e-bost i ddweud fod yr unigolyn heb gwblhau y cyrsiau. Mae'n gyfrifoldeb ar y rheolwyr i sicrhau bod eu staff yn cwblhau y cyrsiau.

- 5.3 Yn y gorffennol, roedd angen i staff gwblhau y cyrsiau neu byddai hawliau rhwydwaith yr unigolyn yn cael eu tynnu oddi arnynt o fewn mis. Yn ystod pandemig COVID, bu yr Awdurdod yn fwy hyblyg er mwyn helpu gyda'r addasiad i weithio o adre. Ers hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod ac eisoes yn ymwybodol bod y cydymffurfiaeth â'r gofyniad i gwblhau'r hyfforddiant wedi llithro. Roedd bwriad i annog staff i'w cwblhau neu adnewyddu, ond gan bydd cyrsiau newydd yn cael eu cyflwyno yn fuan, bydd yr ymgyrch yn digwydd amser hynny.
- 5.4 Yn ogystal â'r modiwlau mandodol, mae gan yr Awdurdod gyrsiau e-modiwlau ar lechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb, yn ogystal â chysiau penodol mewn person i rai staff yn y meysydd yma. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyrsiau ychwanegol, gan gynnwys Cam-drin Domestig, Anabledd a Gwahaniaethu, Urddas yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Cydraddoldeb yn y Gweithle ac Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Yn ogystal, mae cwrs ymwybyddiaeth iaith/dysgu/gloywi Cymraeg yn cael ei ddatblygu ac mi fydd yn cael ei wneud yn un orfodol, ond nid yw hwn mewn lle eto.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Annog staff i gwblhau hyfforddiant mandodol, ynghyd â monitro cynnydd.**

CYFARFOD:	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD:	29 Tachwedd, 2023
TEITL:	ARALLGYFEIRIO INCWM
AWDUR:	Prif Weithredwr
PWRPAS:	Nodi'r adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd

1. CEFNDIR:

- 1.1 Cynhaliodd Archwilio Cymru astudiaeth o Arallgyfeirio Incwm ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn adolygiad tebyg o gynhyrchu Incwm ar draws Awdurdodau Lleol Cymru. Cyflwynodd Archwilio Cymru eu canfyddiadau yn Eryri i aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 12 Gorffennaf 2023. Dilynodd Archwilio Cymru'r adroddiadau unigol gydag adroddiad tri Pharc Cenedlaethol ar y cyd a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023 (Atodiad 1).

2. YR ADRODDIADAU:

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn dilyn y ddau adroddiad.

2.1 Adroddiad Unigol ar y Parc Cenedlaethol:

Roedd yr adroddiad unigol yn cynnwys dau argymhelliad penodol:

Agwedd strategol tuag at arallgyfeirio incwm

A1 Mae ymgymryd ag arallgyfeirio incwm yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod â digon o gapasiti, y sgiliau cywir a systemau cadarn ond ystwyth i fod ar waith. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod yn:

- defnyddio ein hoffer ar gyfer hunan arfarnu i nodi ei gryfderau a'i wendidau presennol, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm; ac
- fel rhan o'i strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm, mynd ati i osod mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol i sicrhau monitro a chraffu digonol ar gyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno sy'n deillio o'i hunanwerthusiad.

Plas Tan y Bwlch

A2 Yn **Rhan 2** yr adroddiad hwn, rydym yn amlygu heriau ariannol parhaus ym Mhlas Tan y Bwlch. Argymhellwn fod yr Awdurdod, o fewn y 12 mis nesaf, yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol.

- 2.1.1 Mae'r adroddiad ei hun yn amlygu'r chwe bloc adeiladu ar gyfer arallgyfeirio cynhyrchu incwm ynghyd â'r offeryn hunanwerthuso. Mae swyddogion wedi ystyried y rhain ond nid ydynt yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith ymhellach oherwydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y cyd a oedd yn herio Llywodraeth Cymru i ddeall ac ystyried y materion penodol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran arallgyfeirio incwm ac i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar y materion hynny.
- 2.1.2 Nododd adroddiad Archwilio Cymru hefyd yr angen am un strategaeth gorfforaethol ar arallgyfeirio incwm, nid yw'r Awdurdod yn cynhyrchu un ddogfen o'r fath ond yn hytrach mae'n rhoi mwy o fanylion am feysydd cyflawni sy'n darparu cyfleoedd masnachol ee cynlluniau busnes a thargedau incwm ar gyfer meysydd megis Plas Tan y Bwlch, Yr Ysgwrn, Meysydd Parcio a Chanolfannau Croeso. Mae perfformiad gweithgareddau gyda chyfleoedd masnachol yn cael ei fonitro ar lefel swyddogion, byrddau swyddogion/aelodau penodol ac adroddir yn achlysurol naill ai i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.
- 2.1.3 Mae bwrdd Plas Tan y Bwlch yn ystyried y rhesymeg weithredol ar gyfer Plas Tan y Bwlch, cwmpasu modelau busnes posibl a sut mae hynny'n cefnogi cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Bydd angen cyfeirio'r ystyriaethau cychwynnol at yr aelodau yn y flwyddyn newydd, cyn symud ymlaen ymhellach. Mae argymhelliad A2 yn dechrau o ran yr amserlen y cytunwyd arni.

2.2 Adroddiad ar y Cyd y Tri Pharc Cenedlaethol:

- 2.2.1 Mae'r adroddiad ar y cyd yn ail-gadarnhau'r hyn a amlygir yn yr adroddiadau unigol. Mae'r adroddiad yn dadlau bod angen arallgyfeirio incwm oherwydd rhagolygon o ran diffyg arian cyhoeddus. Mae'n ystyried materion sylfaenol fel yr angen am weledigaeth glir, awydd am risg, ystyriaethau moesegol, sgiliau digonol, diwylliannau cywir, asedau sy'n cael eu rheoli a chraffu ac atebolrwydd. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at astudiaethau achos nad ydynt, yn fy marn i, yn adlewyrchu sefyllfa unrhyw un o'r tri Pharc yng Nghymru, mae'r adroddiad yn methu â chydabod rhan y tri Awdurdod Parc Cymreig mewn ffrydiau ariannu masnachol ac elusennol megis Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a'r National Park Foundation.
- 2.2.2 Nid oes gan yr adroddiad ar y cyd unrhyw argymhelliad pellach i Barciau unigol ond mae ganddo her benodol i Lywodraeth Cymru ym mharagraff 41 o'r adroddiad:

Gan ddefnyddio'r gyfres hon o adolygiadau, mae hefyd yn amlwg bod materion cyffredin a phwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyflawni incwm newydd yn llwyddiannus. Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddeall yr heriau a'r rhwystrau presennol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ceisio amrywio eu ffrydiau incwm. Ar sail y canfyddiadau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a diffinio'n glir:

- ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer cynhyrchu incwm gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ar lefel genedlaethol;
- lefel y risg y mae'n gyfforddus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ei chymryd, a pharmedrau eraill ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd;

- y cymorth y bydd yn ei roi i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran y sgiliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd arallgyfeirio incwm, a chraffu arno; a
- sut y bydd yn hwyluso cydweithio rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i allu dilyn mentrau cynhyrchu incwm ar y cyd.

2.2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr adroddiad, ac rydym yn aros am eu hymateb. Nid wyf yn cynghori symud ymlaen ymhellach ar argymhelliad A1 nes ein bod wedi cael y ddeialog a'r ddealltwriaeth ar y materion uchod gyda Llywodraeth Cymru.

3. ARGYMHELLION:

3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Nodi'r cynnydd ar argymhellion A1 ac A2.

3.3. Gohirio gwaith pellach ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn yr adroddiad ar y cyd.

JO/P& R'Incwm

Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

Medi 2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English

Cynnwys

Arallgyfeirio incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru	4
Gan dynnu ar ei waith diweddar ar arallgyfeirio incwm, mae Archwilio Cymru yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrth fynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau a'u diben statudol	4
Canfyddiadau allweddol	8
Arferion da wrth arallgyfeirio incwm	16
Edrych i'r dyfodol – sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	18
Atodiadau	
1 Methodoleg	20


Arallgyfeirio incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

Gan dynnu ar ei waith diweddar ar arallgyfeirio incwm, mae Archwilio Cymru yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrth fynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau a'u diben statudol

- 1 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn derbyn incwm drwy nifer o wahanol ddulliau. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu lefel gymeradwy'r Awdurdod o wariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn ac yn talu 75% o hyn mewn Grant Parc Cenedlaethol. Codir y 25% sy'n weddill drwy godi ardoll ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Gellir cael rhagor o incwm o geisiadau am arian grant ychwanegol, gwerthu asedau, gweithgaredd masnachu, ffioedd, a llog o offerynnau ariannol.
- 2 Mae cyni wedi arwain at ostyngiad mewn termau real yn lefel Grant Parc Cenedlaethol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi hynny, y swm cymharol y gall ei godi drwy'r ardoll. Nid oes gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yr un pwerau na rhyddid masnachol ag awdurdodau unedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fodd bynnag, mae potensial i bob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wneud mwy nag y maent ar hyn o bryd.

- 3 O ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu refeniw grant traddodiadol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y blynyddoedd i ddod, mae parhau â ffyrdd traddodiadol o weithio, heb gydnabod yr angen i arallgyfeirio ffrydiau incwm ymhellach, yn beryglus a bydd yn gwneud cyflawni blaenoriaethau llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn heriol.
- 4 Yn 2022-23, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dri adroddiad ar sut mae pob un o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn arallgyfeirio eu ffrydiau incwm i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Roedd yr adolygiadau hyn yn ymchwilio i sut mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymateb i'r her o gyllid Llywodraeth Cymru yn gostwng mewn termau real. Roedd yr adolygiadau hyn yn nodi'r cynnydd y mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i wneud wrth gynyddu ei ffrydiau cyllido nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth a pha mor dda yw sefyllfa pob un ar gyfer mynd ar drywydd ffrydiau cyllido newydd yn y dyfodol.
- 5 Nododd ein hadolygiadau chwe bloc adeiladu allweddol, ac mae pob un ohonynt yn hanfodol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol pan fyddant yn arallgyfeirio eu ffrydiau incwm (**Arddangosyn 1**).

Arddangosyn 1: blociau adeiladu arallgyfeirio incwm



- 6 Mae'r heriau cyllido sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn debygol o olygu bod angen arallgyfeirio incwm dros y blynyddoedd nesaf. Nid yw hyn yn hawdd ac nid yw heb risg. Ond mae peidio ag ymateb i'r her hon yn peri mwy o risg o bosibl. Mae'r ddibyniaeth barhaus ar ffynonellau cyllid cyhoeddus sy'n lleihau yn anghynladwy ac mae perygl y bydd yn tansellio ymdrechion yr awdurdodau i ddiogelu a gwarchod rhai o asedau naturiol mwyaf gwerthfawr ein cenedl.

- 7 Mae gweddill y papur hwn yn crynhoi ein hasesiad o effeithiolrwydd pob Awdurdod Parc Cenedlaethol o'i gymharu â'r blociau adeiladu allweddol hyn. Ar gyfer y canfyddiadau manylach, ewch i bob un o'r adroddiadau unigol sydd i'w gweld ar ein [gwefan](#). Rydym hefyd yn dod â'r adroddiad i ben drwy awgrymu ffordd ymlaen a rhai camau gweithredu i Lywodraeth Cymru eu hystyried i gefnogi arallgyfeirio incwm yn well ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Canfyddiadau allweddol



Gweledigaeth glir a dull gweithredu strategol


- 8 Er mwyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol optimeiddio ffrydiau incwm, mae'n hanfodol ei fod yn cynllunio a nodi ei weledigaeth ar gyfer cynhyrchu incwm. Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn glir beth yw canlyniad llwyddiannus unrhyw fentrau newydd a faint o risg y mae'r Awdurdod yn fodlon ei chymryd er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn. Ac mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn deall ac yn nodi sut y bydd ei holl ffrydiau incwm yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei ddibenion a'i ddyletswydd statudol.
- 9 Canfuom nad oedd yr un o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi nodi strategaeth gyffredinol ar gyfer cynhyrchu incwm a dim ond un sydd wedi blaenoriaethu'n gwaith penodol i fynd ar drywydd a darparu ffrydiau incwm newydd a mwy masnachol. Mae Bannau Brycheiniog wedi nodi gweledigaeth strategol ar gyfer arallgyfeirio incwm, fodd bynnag, mae hon ar lefel uchel iawn ac nid yw'n weithredol eto. Rydym yn dod i'r casgliad bod gan bob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru waith pellach i'w gyflawni i wneud arallgyfeirio incwm yn flaenoriaeth yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid ydynt eto wedi sefydlu eu parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer arallgyfeirio incwm a chytuno ar sut mae hyn yn cyd-fynd â'u dibenion a'u dyletswydd statudol.
- 10 Fel rhan o'n hadolygiadau lleol, gwnaethom gynnal arolwg o aelodau ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Pan ofynnem ni, 'A oes gan eich Awdurdod bolisi corfforaethol neu strategaeth ar arallgyfeirio incwm?' cymysg oedd yr ymatebion. Er nad oes gan yr un Awdurdod Parc Cenedlaethol bolisi corfforaethol na strategaeth ar arallgyfeirio incwm, dywedodd 16 o'r 28 a ymatebodd i'n harolwg fod gan eu hawdurdod rai. Mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth o ymagwedd strategol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar ran yr aelodau. Yn ogystal, dywedodd 19 o'r 28 o ymatebwyr yr arolwg wrthym nad oeddent yn gwybod a oes gan eu Hawdurdod lefel gytunedig o risg o ran arallgyfeirio incwm. Serch hynny, mae gan y mwyafrif o aelodau ffydd yn eu huwch arweinwyr i allu cyflawni'r agenda hon.



Cytuno ar y paramedrau ar gyfer mynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd

- 11 Ar gyfer pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae'n amlwg bod ystyriaethau moesegol yn hynod o bwysig wrth wneud penderfyniadau ar ffrydiau incwm newydd. Canfuom fod y tri yn glir fod yn rhaid i unrhyw ffrydiau incwm newydd gefnogi'r gwaith o gyflawni eu Cynlluniau Rheoli Parc Cenedlaethol a pheidio â pheryglu eu gallu i gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd statudol.
- 12 Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd wedi ystyried ffiniau moesegol eraill wrth benderfynu ar ddewisiadau cynhyrchu incwm yn y dyfodol, megis peidio ag alinio'n wleidyddol, peidio â chystadlu â busnesau lleol a gwerthu cynnyrch lleol, a gyrchwyd yn foesegol yn bennaf, yn eu canolfannau ymwelwyr. Fodd bynnag, nid oes yr un Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cytuno'n ffurfiol ac wedi nodi eu paramedrau ar gyfer mynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd.
- 13 O'n gwaith maes, fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn llwyr werthfawrogi y bydd optimeiddio incwm masnachol hefyd yn golygu gorfod newid rhai agweddau ar ddiwylliant sefydliadol, y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu ar hyn o bryd a sut mae'n darparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae rhoi cynnig ar bethau newydd i ennill incwm masnachol yn dod â lefelau amrywiol o risg ac mae siawns bob amser na fydd ymgymryd â mentrau masnachol cwbl newydd bob amser yn llwyddiannus. Felly, mae angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod yn barod ar gyfer hynny a bod yn glir beth yw eu parodrydd i dderbyn risg mewn cysylltiad â'r gwaith hwn. Ategwyd hyn yn ein gwaith arolygu, ac mae'n amlwg bod rhywfaint o amrywiaeth ym marn yr aelodau ynghylch sut a ble y dylai eu hawdurdod ganolbwyntio ymdrechion ar arallgyfeirio incwm – **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Barn aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol ar sut y dylai arallgyfeirio incwm edrych yn eu Hawdurdod



Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o aelodau yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2023



Asedau a gwasanaethau presennol

- 14 Gall sylfaen asedau Awdurdod Parc Cenedlaethol benderfynu ar y math o gyfleoedd sydd ar gael iddo o ran cynhyrchu incwm. Canfuom fod gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddull cymysg o gynhyrchu incwm o asedau a gwasanaethau presennol. Ar hyn o bryd mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn cynhyrchu incwm o'u hasedau. Mae hyn wedi bod yn fwy effeithiol gyda rhai asedau nag eraill; er enghraifft, yn hanesyddol mae meysydd parcio wedi bod yn ffynhonnell incwm ddibynadwy.
- 15 Canfuom hefyd fod rhai asedau â photensial da i gynhyrchu incwm, er enghraifft, defnyddio tir ar gyfer ffilmio masnachol. Fodd bynnag, nid yw'r potensial hwn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd oherwydd diffyg gweledigaeth strategol a gallu swyddogion a sgiliau i sicrhau y cynhyrchir yr incwm mwyaf.

- 16 Yn aml nid yw rhai asedau allweddol, fel canolfannau gwybodaeth, yn creu digon o incwm i dalu eu costau ac o ganlyniad mae angen eu helpu â chymhorthdal. Fodd bynnag, o ystyried eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd ac yn cefnogi'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd statudol, mae'n amlwg eu bod yn wasanaethau pwysig y mae angen eu darparu. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd yn berchen ar rai asedau treftadaeth, er enghraifft, Plas Tan y Bwlch, sydd angen cymhorthdal sylweddol i weithredu.
- 17 Y tu allan i Gymru, mae rhai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd â hanes cryf o gynhyrchu incwm yn cyflawni hyn yn rhannol trwy ddadansoddiad trylwyr o'u portffolio asedau a pholisi digyfaddawd ar waredu asedau nad ydynt yn addas i'r diben heb fuddsoddiad sylweddol, nad ydynt bellach yn hyfyw o ran eu hamgylchedd gweithredu presennol neu nad ydynt yn darparu buddion strategol neu gymunedol digonol.
- 18 Gan edrych ymlaen felly, dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gynnal dadansoddiad cost a budd o'u hasedau a nodi ble y gallant sicrhau'r incwm mwyaf a'u dyfu; pryd y mae'n briodol i roi cymhorthdal i wasanaethau neu asedau; a phryd y dylent ystyried defnyddiau gwahanol neu waredu.



Diwylliant, sgiliau a chapasiti

- 19 Nid yw profiad, gwybodaeth a'r set sgiliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd gweithgareddau cynhyrchu incwm newydd yn llwyddiannus yn bethau a gysylltir yn draddodiadol â gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac mae'n bwysig bod yr awdurdodau yn sicrhau bod ganddynt y bobl â'r sgiliau iawn i wneud hyn yn dda. Mae'n bwysig bod swyddogion ac aelodau yn cefnogi gweledigaeth a strategaeth eu Hawdurdod ar gyfer creu incwm ac yn deall y risgiau o beidio ag arallgyfeirio eu ffrydiau incwm.
- 20 Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn cyflogi swyddogion y mae eu swyddogaethau yn cynnwys cyfrifoldeb dros gynhyrchu incwm. Mewn rhai achosion, mae'r rhain wedi'u diffinio'n fanwl ac yn canolbwyntio ar raglenni gwaith neu weithgaredd penodol; er enghraifft wardeiniaid yn Eryri. Mewn eraill, mae'n gyfrifoldeb grŵp ehangach o swyddogion; er enghraifft, y Penaethiaid Gwasanaeth yn Arfordir Sir Benfro.

- 21 Canfuom hefyd, yn gyffredinol, lle mae cynhyrchu incwm wedi'i flaenoriaethu, ei fod wedi dilyn llinellau gweithgaredd traddodiadol ac wedi canolbwyntio ar optimeiddio codi tâl ar gyfer rhai gwasanaethau a masnachu diffiniedig. Mae llawer o waith swyddogion yn dal i flaenoriaethu'r gwaith o ddod o hyd i grantiau a gwneud ceisiadau ar gyfer prosiectau arwahanol. Mae perygl i'r dull hwn fod yn anghynnaladwy yn yr hinsawdd ariannu cyhoeddus bresennol.
- 22 Yn gysylltiedig â'r diffyg strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm, nid oes yr un o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi mentro'n sylweddol i weithgaredd masnachol cynyddol mewn meysydd gwaith cwbl newydd. Mae hyn yn dangos eu bod wedi bod yn amharod i gymryd risg yn y gorffennol o ran cynhyrchu incwm, ond mae'n debyg ei fod hefyd yn adlewyrchu diffyg pwysau ariannol yn y blynyddoedd blaenorol.
- 23 Canfuom nad oes gan bob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol y capasiti i fynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd. Dim ond Bannau Brycheiniog sydd wedi creu swydd bwrpasol yn benodol i ganolbwyntio'n llwyr ar fasnacheiddio, wrth gydnabod bod y capasiti yn cael ei orymestyn mewn meysydd gwasanaeth craidd a phwysigrwydd dod yn fwy masnachol yn y dirwedd cyllid cyhoeddus newidiol.
- 24 Mae gwaith i gydweithio â phartneriaid eraill i gynhyrchu incwm wedi'i gyfyngu hyd yma, er cafwyd rhai swyddi a rennir a rhai mentrau llwyddiannus gyda'r sectorau nid-er-elw a phreifat. Er enghraifft, gwaith yr Ymddiriedolaeth elusennol annibynnol a ddatblygwyd yn Sir Benfro gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'n amlwg bod potensial gan y tri Pharc Cenedlaethol i ddatblygu a rhannu arbenigedd â'i gilydd i helpu i wella capasiti.
- 25 Canfu ein harolwg o aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol fod ymatebwyr o'r farn mai diffyg capasiti yw'r rhwystr mwyaf arwyddocaol rhag datblygu ffrydiau incwm newydd (**Arddangosyn 3**).

Arddangosyn 3: Barn aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y rhwystrau rhag datblygu ffrydiau incwm newydd¹



Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2023

1 Gofynnwyd i'r aelodau ddewis hyd at dri rhwystr. Cafodd y cwestiwn hwn ymatebion gan gyfanswm o 28 aelod (o'r 50 mewn swydd ar y pryd a wahoddwyd i ymateb).



Y broses arfarnu opsiynau

- 26 Bydd proses arfarnu opsiynau effeithiol yn helpu aelodau ac uwch swyddogion i nodi'r set fwyaf priodol o gamau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. I fod yn effeithiol, mae angen i'r broses arfarnu gael yr wybodaeth a'r data cywir er mwyn ystyried a phenderfynu ar yr opsiwn cywir. Dylai ddangos yn glir sut mae'r cyfle masnachol yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol.
- 27 Mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi sefydlu gweithgorau mewnol i oruchwylio gwaith datblygu a rheoli prosiectau. Fodd bynnag, mae eu cylch gwaith wedi canolbwyntio mwy ar grantiau a materion cyflenwi gweithredol yn hytrach na datblygu a gwerthuso gweithgaredd posibl mewn meysydd masnachol newydd.
- 28 Yn hanesyddol, mae'r systemau hyn wedi'u defnyddio'n bennaf ar gyfer cymeradwyo a ffyrdd eraill o lywodraethu ceisiadau grant ac nid ydynt wedi'u profi o ran opsiynau heriol a chraffu ar gyfer prynu gweithgareddau masnachol cwbl newydd. Er gwaethaf hynny, gallai'r fforymau hyn ehangu eu cylch gwaith i ymgymryd â swyddogaethau o'r fath a gellid eu defnyddio o bosibl ar gyfer arfarniadau opsiynau yng nghyd-destun amrywio incwm.
- 29 Er bod y systemau a'r dulliau hyn wedi bod yn addas yn y gorffennol, bydd angen eu hadnewyddu i sicrhau eu bod yn gallu darparu mentrau mwy heriol â risgiau o fasnacheiddio yn y dyfodol. Bydd angen cyflwyno rhai prosesau dadansoddi budd a chost clir hefyd, ac uwchsgilio sgiliau a galluoedd swyddogion ac aelodau er mwyn gallu cynnal arfarniadau.



Atebolrwydd a chraffu ar drefniadau ar gyfer goruchwylio ein gwaith arallgyfeirio incwm

- 30 Mae craffu effeithiol a goruchwylio'r gwaith o arallgyfeirio incwm yn bwysig oherwydd eu bod yn cyfrannu at wneud penderfyniadau da ac yn sicrhau bod awdurdodau'n gwario arian yn ddoeth.

- 31 Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi sefydlu systemau adrodd ar berfformiad. Er bod y rhain wedi bod yn briodol ar gyfer goruchwyllo gwaith yn y gorffennol, nid ydym yn credu eu bod yn ddigon cadarn i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywio incwm a mynd ar drywydd mwy o weithgaredd masnachol.
- 32 Er bod pob awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar eu sefyllfa ariannol a'u perfformiad, mae'r rhain wedi'u hanelu'n bennaf at incwm a gwariant ar wasanaethau presennol. Hyd yn oed yma, fodd bynnag, gwelsom fod diffygion o hyd. Er enghraifft, prin yw'r adrodd ar berfformiad ariannol asedau unigol i ddangos eu gwir berfformiad ac a ydynt yn cynhyrchu diffyg neu warged.
- 33 Er mwyn ymgymryd â gwaith craffu masnachol trylwyr mewn meysydd gwaith annhraddodiadol a allai fod yn wahanol iawn, bydd gofyn i awdurdodau graffu ar ddata cwbl newydd a'i ddadansoddi – er enghraifft marchnadoedd a galw; manteision posibl o ran costau; ac ystyriaethau prisio a masnachu cynhwysfawr. Mae'r rhain yn sgiliau newydd i lawer o aelodau a swyddogion.
- 34 Fe wnaethom hefyd weld rhai gwendidau mewn systemau a dulliau presennol y bydd angen mynd i'r afael â nhw i gefnogi llywodraethu arallgyfeirio incwm yn effeithiol wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cytuno ar strategaeth incwm neu fasnachol, gyda thargedau a mesurau llwyddiant priodol a pherthnasol ar gyfer eu holl weithgareddau cynhyrchu incwm;
 - y gallu i roi gwybod am wybodaeth berthnasol, amserol a digon manwl i alluogi craffu priodol; a
 - sefydlu dangosyddion masnachol allweddol er mwyn gallu gwerthuso a chraffu ar opsiynau yn y dyfodol.
- 35 Mae gan aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol a ymatebodd i'n harolwg farn gymysg ar ba mor glir a phriodol yw prosesau'r Awdurdod ar gyfer craffu ar gynigion arallgyfeirio incwm. Mae hyn yn cyd-fynd â thrafodaethau a gawsom gydag aelodau sy'n nodi bod gan Awdurdodau yng Nghymru systemau sylfaenol dda sydd wedi gweithio'n dda yn y blynyddoedd blaenorol, ond nad ydynt yn ddigon cadarn ar gyfer arallgyfeirio incwm ac felly bydd angen datblygu a mireinio pellach. Yn yr un modd, mae gan aelodau'r Awdurdod farn gymysg ar eu sgiliau a'u gwybodaeth am arallgyfeirio incwm, gan nodi y gallai fod angen hyfforddiant ychwanegol.



Arferion da wrth arallgyfeirio incwm

Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs

- 36 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi datblygu strategaeth aml-faes ar gyfer arallgyfeirio ei incwm gyda'r nod o wneud ei waith yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, trosglwyddwyd perchnogaeth Parc Gwledig Blaendulais i Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs o Gyngor Sir Dwyrain Sussex ym mis Gorffennaf 2021. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle masnachol a gynigir gan y buddsoddiad hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi ymgorffori Cwmni Masnachu, South Downs Commercial Operations Ltd. Mae cam cyntaf y gwaith ar Barc Gwledig Blaendulais yn cynnwys buddsoddiad o ychydig o dan £2 filiwn (gan Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs a'r ymddiriedolaeth elusennol annibynnol, South Downs National Park Trust) ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfleusterau yn eu lle i fodloni niferoedd ymwelwyr yn effeithiol ac i ofalu am y dirwedd.
- 37 Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs darged i gynyddu cyfran y Parc Cenedlaethol a reolir ar gyfer natur o 25% i 33% gyda'r nod o ail-natureiddio 13,000 hecтар o dir erbyn 2030. Ynghyd â'r Awdurdod, lansiodd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol South Downs Ymgrych ReNature ym mis Gorffennaf 2021. Mae'n bwriadu adfer 1,000 hecтар y flwyddyn drwy brosiectau sy'n cefnogi tîrfeddianwyr er mwyn sicrhau arian preifat, gan newid arferion rheoli tir presennol o blaid byd natur.
- 38 Yn 2023-24, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi gosod targed uchelgeisiol i godi £2.5 miliwn y flwyddyn mewn incwm hunangynrchedig. Y nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ei Chynllun Rheoli Partneriaeth (PMP), drwy gynigion i ffynonellau statudol a chefnogaeth i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol South Downs i barhau i adeiladu ffrwd incwm cynaliadwy o roddion a chymynroddion.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

39 Yn ei Ddatganiad o Gyfrifon 2021-22, cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd £5.79 miliwn mewn grantiau a chyfraniadau gan y llywodraeth ond cynhyrchodd hefyd £10.27 miliwn mewn incwm o ffynonellau eraill. Er bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd bortffolio asedau sylweddol – gwerth £35 miliwn – mae hefyd yn blaenoriaethu gwaith ar optimeiddio incwm, gan weithredu yn unol â set o egwyddorion sy'n helpu i sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar ei asedau. Mae'r egwyddorion hyn yn glynu'n agos wrth flociau adeiladu masnacheiddio yn **Arddangosyn 4** ac yn berthnasol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cynnwys:

- strategaeth fasnachol, y mae Bwrdd Strategaeth Fasnachol a gweithgor o aelodau a swyddogion yn craffu ar y gwaith o'i chyflawni i oruchwylio gweithgaredd masnachol;
- dadansoddiad trylwyr o'i bortffolio asedau a pholisi digyfaddawd ar waredu asedau nad ydynt yn dod â budd digonol i'r Awdurdod;
- diwylliant sy'n cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu incwm i awdurdodau parciau cenedlaethol;
- ymrwymiad cryf gan arweinwyr sy'n helpu i ysbrydoli meddylfryd cadarnhaol ar draws y sefydliad; a
- diwylliant ac amgylchedd cadarnhaol sy'n annog arloesi a chymryd risgiau ond sy'n sicrhau bod staff yn teimlo ei bod yn 'ddiogel i fethu'.



Edrych i'r dyfodol - sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

- 40 Yn yr adroddiadau unigol ar gyfer pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, rydym yn argymhell y dylai pob Awdurdod ddefnyddio ein rhestrau gwirio hunanasesu i nodi eu cryfderau a'u gwendidau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu strategaeth a'u gweledigaeth ynghylch arallgyfeirio incwm yn y dyfodol.
- 41 Gan dynnu ar y gyfres hon o adolygiadau, mae hefyd yn amlwg bod materion cyffredin a phwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw os yw Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am sicrhau incwm newydd yn llwyddiannus. Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddeall yr heriau a'r rhwystrau presennol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ceisio arallgyfeirio eu ffrydiau incwm. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a diffinio'r canlynol yn glir:
- ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer cynhyrchu incwm Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ar lefel genedlaethol;
 - lefel y risg y mae'n fodlon i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ymgymryd â hi, a pharamedrau eraill ar gyfer mynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd;
 - y cymorth y bydd yn ei ddarparu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r sgiliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd arallgyfeirio incwm, a darparu gwaith craffu arnynt; a
 - sut y bydd yn hwyluso cydweithio rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i allu mynd ar drywydd mentrau cynhyrchu incwm ar y cyd.



Atodiadau

1 Methodoleg

1 Methodoleg

Gwnaethom gynnal tri adolygiad unigol yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Eryri ac Arfordir Penfro yn ystod gaeaf 2022-23. Roedd ein dulliau yn cynnwys:

- atgyfnerthu ein gwybodaeth a'n profiad archwilio cronol.
- arolwg o aelodau ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Gwnaethom wahodd yr holl aelodau mewn swydd ar adeg yr arolwg i ymateb. Gan fod pedair swydd wag gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, anfonom yr arolwg hwn at gyfanswm o 50 aelod. Cawsom ymatebion gan 28 aelod ar draws tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- adolygu data a dogfennau allweddol.
- cyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig ym mhob Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- cyfweld â swyddogion allweddol mewn sefydliadau partner gan gynnwys swyddogion o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig.
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r isadran tir, natur a choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd, 2023
TEITL	RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2023-24
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Adroddiad cynnydd Chwarter Cyntaf a'r Ail (Ebrill – Medi) 2023 a Chwarter 3 os yn berthnasol

1. CEFNDIR

- 1.1 Ynglwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2023 (Ebrill - Medi) a chwarter 3 os yn berthnasol, i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.
- 1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 **Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2023-24: Adroddiad Cynnydd ar y Chwarter Cyntaf a'r Ail yn 2023 a Chwarter 3 os yn berthnasol.





AMCANION LLESIANT 2023-24 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL


Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant
Diweddariad Chwarter 1 a 2 : Ebrill - Medi, 2023
(a Chwarter 3 os yn berthnasol)


Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)






1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:		AC 1	GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGyddOL HAMDDEN		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)		Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.1	 Diweddariad Ch. 1-3	<p>Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2022.</p> <p>Adroddiad wedi ei chynyrchu ac ar gael ar safle we'r Parc Cenedlaethol: https://Awdurdod.eryri.llyw.cymru/gwybodaeth/visitor-monitoring-figures/ Bydd Rheolwr Mynediad a Llesiant yn cyflwyno'r adroddiad i Weithgor Aelodau mis Tachwedd.</p> <p style="text-align: right;">WEDI'I GYFLAWNI</p>		Parhaus Adroddiad nesaf erbyn Meh.Gorff 2023	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Llesiant


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023







Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.2  1.2.1	 Diweddariad Ch. 1-3	Ymgyrch Negeseuon Tymor 2023 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad. Mae APCE wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr ac wedi annog pobl i ymweld yn gynaliadwy a. Gweithredu Ymgyrch Eryri Ni 23 – Bydd Llysgenhadon Aur yn gymwys ar gyfer graffeg cyfryngau cymdeithasol mewn partneriaeth ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd Llysgenhadon Aur yn gallu cofrestru yn erbyn dyddiad y cytunwyd arno a byddant yn derbyn cyfres o deils wedi'u teilwra yn cynnwys logo eu cwmni i hyrwyddo negeseuon allweddol y strategaeth. Byddant hefyd yn derbyn pecyn hyrwyddo ar gyfer eu busnes. Cafwyd adborth bositif ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol canolog yr Awdurdod, amlygwyd y negeseuon gan ddefnyddio 40 o Lysgenhadon Eryri fel 'Llysgenhadon Digidol' i rannu ein negeseuon ymhellach. Hefyd, cyhoeddwyd erthygl â thâl ar '7 ffordd o ymweld ag Eryri'n gynaliadwy' gan North Wales Live. CWBLHAWYD ar gyfer prif dymor twristiaeth 2023	Rhagfyr 2023	Pen. Cyfathrebu Pen. Partner. Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy
	Diweddariad Ch. 1-3	b. Datblygu atebion i faterion cartrefi modur gan gynnwys mesurau ymgysylltu a chyfathrebu Cynhyrchwyd tudalen bwrsasol ar wefan Eryri i annog ymweliadau cyfrifol gan berchnogion cartrefi modur: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/cynllunio-eich-ymweliad/faniau-cysgu-a-cartrefi-modur/ Cynhyrchwyd fersiwn estynedig a gwell o daflen Fan Gwersylla Eryri yn 2023 sydd bellach wedi ehangu'r rhestr o feysydd gweryslla swyddogol ar y daflen, ac mae peiriannau dosbarthu wedi'u gosod mewn mwy o ardaloedd lle gall y Gwasanaeth Wardeniaid gyfeirio ymwelwyr yn hawdd. WEDI'I GWBLHAU AR GYFER PRIF TYMOR YMWELWYR 2023		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023








Tud. 2


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
1.2.2	Diweddairad Ch. 1-3	Mae o leiaf dwy deithlen wedi'u datblygu ar ein gwefan sy'n canolbwyntio ar rinweddau arbennig gan gynnwys diwylliant Cymru a thwristiaeth gynaliadwy Cyhoeddwyd 7 arweinlyfr gan gynnwys "5 taith gerdded yn Eryri wedi'u trwytho mewn Chwedloniaeth" a "Sut i Ymweld ag Eryri heb gar"	Rhag. 2023	Pen. Cyfathrebu
AC 1.3		Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr ➤ Canolfan Wybodaeth Betws y Coed: y blwch tywod a'r arddangosfa rithwirionedd wedi agor i'r cyhoedd ➤ Gwelliannau i arwyddion Canolfan Groeso Betws y Coed i'w cwblhau ➤ Gweithio gyda CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i roi cam 2 o welliannau dehongli Ogwen ar waith	Disgwyllir gorffen erbyn Ebrill 2023 Hydref 2023 Mawrth 2024	Rh. Twristiaeth Cynaliadwy Pen. Cyfathrebu
	Diweddariad Ch. 1-3	Mae arddangosfa Betws y coed wedi ei chwblhau a'i hagor ond bydd rhai agweddau o'r gwaith yn cael eu newid dros y Gaeaf. Dehongliad Ogwen ar y cwrs i'w gwblhau erbyn Mawrth 2024.		
	Ch. 4			
AC 1.4	  Diweddariad Ch. 1-3	Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl Gwaith mynediad ar draws y Parc yn parhau gyda cynnal a chadw, gwelliannau ac datblygu teithiau sy'n cael eu hyrwyddo. Wedi apwyntio Uwch Warden – Mynediad fydd yn cydlynnu prosiectau canolig i mawr. Gwaith o gasglu, blaenoriaethu, a rhaglennu yn ailgychwyn gyda cyfarod blaenoriaethu gwaith ym mis Tachwedd.	Parhaus	Pen. Wardeinio a Mynediad (WaM)
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023








Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.5	 Diweddariad Ch. 1+2 Ch. 3 Ch. 4	Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf.	Chwefror 2024	Pen. WaM
AC 1.6	 Diweddariad Ch. 1+2 Ch. 3 Ch. 4	Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf.	Chwefror 2024	Pen. WaM
AC 1.7	 Diweddariad Ch. 1 -3 Ch. 4	Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn Gwaith yma'n parhau ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith Wardeniaid Ardal.	Parhaus	Pen. WaM
AC 1.8	 Diweddariad Ch. 1 -3 Ch. 4	Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yn cynlluniau ardal Wardeniaid	Parhaus	Pen. WaM

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Tud. 4


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.9 	 Diweddariad Ch. 1-3	Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid Mae pob warden efo cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) efo'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.	Parhaus	Pen. WaM
	Ch. 4			
AC 1.10 	 Diweddariad Ch. 1 - 3 Ch. 4	Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2023. Mae tudalen benodol ar ein gwefan yn ymdrin â phrif ymgyrchoedd a digwyddiadau'r prosiect: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/yr-wyddfa-ddi-blastig	Parhaus	Pen. Partneriaethau


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 2	YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD
--	------	---








AC 2.1 	 Blynyddol	Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.	Adroddiad blynyddol	*Pen. RhDaCh * Pen. PC
---	--	---	---------------------	---------------------------


* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC) *Pennaeth Polisi Cynllunio (Pen. PC)


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023






Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.2 	 Diweddariad Ch. 1-3	Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus Mae'r gwaith yn parhau – mae nifer o brosiectau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i Ben y Pass, Ysgwrn a'r Pencadlys yn cael eu cwblhau trwy ffrwd ariannu prosiect SLSP. Hyd yma mae mesurau effeithlonrwydd ynni mewn goleuadau LED, atal drafftiau a gwell perfformiad thermol adeiladau wedi arwain at arbediad o 223,000 KWH o ynni y flwyddyn, sy'n werth tua £100,000 o arbed ynni i'r Awdurdod.	Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2024 + ymlaen Pennaeth Eiddo	
	Ch. 4			
AC 2.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 Cafodd adroddiad Aquater ei hstyried gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Carbon ac argymhellwyd fod y Strategaeth Rheoli Asedau yn cynnwys y cyfrif carbon ar gyfer pob ased a reolir. Mae Rheolau Sefydlog diwygiedig yn darparu ar gyfer caffael sy'n cynnwys ôl troed carbon nwyddau os dymunir. Mae caffael ehangach mewn perthynas â nwyddau a charbon yn cael ei drafod gyda'n dau Awdurdod Lleol cyfagos.	Mabwysiadu erbyn 2024 Parhaus 2030	Prif Weithredwr (PW) Pen. Eiddo
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023






Tud. 6


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.4 		Datblygu Cynllun Gweithredu yn dangos sut y gall ardal Eryri symud tuag at fod yn garbon niwtral	Rhagfyr 2023	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT)
	Ch. 1-3	<p>Mae Grŵp Aelodau ar Garbon wedi trafod 3 phrif faes, yn dilyn asesiad o'r 2 adroddiad a luniwyd gan ymgynghorwyr (Aquaterra a Small World Consulting).</p> <p>Bydd y cyntaf yn berthnasol i ystâd a phrosesau mewnol a chaffael yr Awdurdod, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Aquaterra. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y Pennaeth Eiddo lle bydd polisïau carbon isel yn cael eu hintegreiddio i brosesau a gweithdrefnau mewnol yr Awdurdod.</p> <p>Yr ail faes (gan adeiladu'n rhannol ar waith Small World Consulting) fydd sicrhau bod dau gynllun statudol y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n llawn at nodau di-garbon yr Awdurdod. Mae'n bwysig bod y rhain yn rhan o'r strategaeth ar gyfer y ddau gynllun hyn. Caiff y ddau dîm eu hysbysu'n llawn am arwyddocâd y mater hwn a'r angen i'w integreiddio ar ddechrau'r broses.</p> <p>Y trydydd maes fydd arweinyddiaeth yn y maes hwn. Er na all yr Awdurdod reoli llawer o'r materion sy'n effeithio ar yr agenda garbon yn uniongyrchol, gallwn ymgymryd â rôl arwain ac eiriolaeth gref. Yn hyn o beth, bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno papur ar y 'Ras i Sero', ac os caiff ei fabwysiadu, bydd yn rhoi trefn gliriach ar gyfer datblygu cynllun gweithredu.</p> <p>Bydd y 3 maes hyn nawr yn cael blaenoriaeth i'r Awdurdod wrth fynd i'r afael â'r agenda di-garbon, a bydd yr Aelodau'n cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd yn hyn o beth.</p> <p>Mae strategaeth mawndiroedd wedi'i hadolygu ac mae strategaeth coetir yn cael ei datblygu.</p>		
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023








Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.5 	 Diweddariad Ch. 1-3	Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol Mae swydd Arweinydd Strategol ar gyfer Adfer Natur a Chadw Carbon wedi'i lleoli yn Eryri. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac mae canfyddiadau/strategaeth amlinellol i'w hystyried yn gynnar yn 2024. Nodwyd saith amcan a drafftwyd rhaglen waith i'w cyflawni. Dau brif ganlyniad sy'n deillio o'r rhaglen waith yw Strategaeth Galluogi wedi'i hanelu at LIC a'r cyrff rheoli Tirweddau Dynodedig a darn prawf ar y rhyngwyneb rhwng y cyrff rheoli DL a'r rheolwyr tir sy'n gweithredu oddi mewn iddynt, a elwir ar hyn o bryd yn 'Llyfr Bach o Opsiynau'. Mae mecanweithiau ariannu a sgiliau recriwtio a chadw yn destun holiadur a anfonwyd at staff. Mae fframwaith strategol yn cael ei ddrafftio fel sail i gynlluniau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar gyfer adfer natur, fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plymio'n Ddwfn ar Fioamrywiaeth ar gyfer y DLs. Bydd y fframwaith strategol yn ffurfio tudalen gyntaf y Strategaeth Galluogi a fydd yn mynd ymlaen i drafod cyfnewid gwybodaeth, adnabod asedau, meddwl integredig a gwneud penderfyniadau, cynllunio senarios, cytundebau, newid ymddygiad, a llywodraethu. Mae Cynnwys y Llyfr Bach o Opsiynau yn cael ei ddrafftio tra'n chwilio am bartneriaid i'w gyflwyno, sy'n debygol o gael ei anelu at gynhyrchwyr cig eidion a chig oen yn Eryri. Bydd yr Ysgwrn yn destun rhywfaint o waith cwmpasu ar ddefnyddio data a meddwl integredig a gwneud penderfyniadau.	Parhaus	PW Arweinydd Strategol
	Ch. 4			






 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 3	GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL
--	------	---









Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.1 	 Diweddariad Ch. 1-3 Ch. 4	Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE Gwaith mewnol ar y strategaeth yn bwrw ymlaen drwy weithdai staff. Ymchwil allanol wedi'i gwblhau. Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro.	Gwanwyn 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
AC 3.2 	 Diweddariad Ch. 1+2 Ch. 3 Ch. 4	Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2023/24 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025 Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi gwneud cynnydd da iawn yn ystod y ddau chwarter cyntaf ac mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen.	Parhaus - 2025 Gawnwyn 2024	Pen. TDd Rheolwr Prosiect y Carneddau


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) Cyfrifol
AC 3.3 	 Diweddariad Ch. 1-3 Ch. 4	Cyflwyno adroddiad terfynol ar Gynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau Mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen, i'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2023.	Rhag. 2023	Rheolwr Prosiect TT Dolgellau


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023








 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

<p>AC 3.4</p> 	 <p>Diweddariad Ch.1-3</p>	<p>Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law a cyflwyno DoDD i'r Gronfa Loteri</p> <p>Mae gwaith ymgysylltu gydag Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cymunedol ym mis Medi a Hydref</p>	<p>Rhag. 2023</p>	<p>Pen. TDd. Swyddog Prosiect TDd</p>
Ch. 4				
<p>AC 3.5</p> 	 <p>Diweddariad Ch. 1-3</p>	<p>Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru</p> <p>Mae prosiect dehongli Ynyspandy yn symud yn ei flaen. Mae swyddogion yn gweithredu ar amryfal grwpiau'r dynodiad ac yn cynghori ar ddatblygiadau amrywiol.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Pen. TDd.</p>
Ch. 4				
<p>AC 3.6</p> 	 <p>Diweddariad Ch. 1-3</p>	<p>Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth</p> <p>Teithiau cerdded wedi cael eu cynnal yn fisol gyda nifer o fynychwyr yn amrywio. Fydd angen i ni geisio hyrwyddo'r teithiau ym mhellach gan dargedu cynulleidfaoedd gwahanol. Fyddwn yn gwahodd arbenigwyr yn y teithiau sy'n cychwyn yn Ionawr.</p>	<p>Parhaus 2023/24</p>	<p>Pen. Gwas. WaM</p>
Ch. 4				
<p>AC 3.7</p> 	 <p>Diweddariad Ch. 1-3</p>	<p>Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol</p> <p>Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd ac yn cyfrannu at weithdy Lliniaru Newid Hinsawdd sy'n cael ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2024. Rydym yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn nhirweddaru dynodedig eraill Cymru.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Pen. TDd.</p>
Ch. 4				





 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.8 	 Diweddariad Ch. 1-3	Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau Mae'r Ysgwrn yn profi blwyddyn gadarnhaol gyda'r niferoedd ymwelwyr a'r incwm yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd sawl cais grant llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gan alluogi rhaglen weithgareddau ac addysg o safon uchel.	Rhag. 2023	Pen. TDd.
	Ch. 4			
AC 3.9 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol Mae'r gwaith cychwynnol hwn wedi'i gwblhau ac mae gwaith pellach yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd WEDI'I GWBLHAU	Mawrth 2024	Pen. TDd. Swyddog Cynllunio yr Amg. Hanesyddol


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 4	MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT
--	------	--

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 4.1		Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol	Parhaus	*Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen






 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


	Diweddariad Ch. 1-3	Proses barhaus. Wedi'i gyfyngu o ran potensial mewnbwn hyd yma, ond mae datblygiadau newydd yn cynnig gwell potensial. Mae plymio dwfn Bioamrywiaeth hefyd wedi agor llwybr newydd o fynd ar drywydd amcanion. Bydd y Strategaeth Coed a Choetiroedd yn bwydo i mewn i'r uchod. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, tua 40% wedi'i gwblhau.		
	Ch. 4			
AC 4.2	 Diweddariad Chr. 1-3	Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir Parhaus, perthynas waith agos yn cael ei chynnal.	Mawrth 2023 + Parhaus	Pen. CCA
	Ch. 4			


*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 5	MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR
--	------	---












Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.1 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri Datblygiadau ar Cynllun Adfer Natur ar weill	Mawrth 2024	Pen. CCA
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Tud. 12

AC 5.2 	 Adroddiad blynyddol	Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffuriad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru	Adroddiad Blynyddol	Pen. RhDaCh
AC 5.3 	 Diweddariad Ch.1-3	Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb i'r newidiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru: "Budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau" yn ystod mis Mai 2023. Mae'r polisi terfynol i'w gynnwys yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12) wedi'i raglennu tua diwedd 2023.	Mawrth 2024 Parhaus	Pen. PC
	Ch. 4			
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.4 	 Diweddariad Ch. 1-3	Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach Mae'r elfen Cadwraeth, Coed ac Amaeth o'r gwaith ar darged	Cyflwyno adroddiad diweddarau ar brosiectau unigol dwy waith y flwyddyn	Pen CCA Rheolwyr Prosiectau
	Ch. 4			
AC 5.5 	 Diweddariad Ch. 1-3	Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) a pharatoi Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Eryri Mae gwaith Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) yn symyd ymlaen yn dda. Strategaeth tua 40% wedi'i chwblhau	Mawrth 2025	Pen CCA
	Ch. 4			

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CANLYNIADAU:

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

AC1: Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1*)

AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2*)

AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4*)

AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5*)

AC1: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3*)

AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1*)


AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2*)


AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1*)


AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2*)

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (*yn unol â Chynllun Eryri A4.2*)

AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. (*yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*).

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

2. CYMUNEDAU CYDNERTH








Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 1	CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR
--	-------------	---


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.1	<p>Diweddariad Ch. 1-3</p>	<p>Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae ffiltter wedi'i roi ar waith ar y safle Teithiau Cerdded a Llwybrau fydd yn galluogi ein cynulleidfya i deilwra eu canlyniadau yn seiliedig ar Leoliad, Anhawster, Hyd, Amgylchiadau, Nodweddion Arbennig a Mynediad Tramper. ➤ Hyrwyddwyd llwybrau i'w huwchlwytho i'r wefan (Pontydd Arthog a Betws y Coed) ➤ Arweinlyfrau ymweld wedi eu huwchlwytho megis “Dewis y llwybr cywir ar Yr Wyddfa” a 5 “Cymru wedi'i thrwytho mewn Chwedloniaeth” 	Parhaus	Pen. Cyfathrebu Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We
	Ch. 4			
CC 1.2	<p>Diweddariad Ch. 1+2</p>	<p>Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol</p> <p>Cyflawnwyd y cyfan o'r uchod a chyflwynwyd Strategaeth Wirfoddoli wedi'i diweddarau ac adroddiad blynyddol i'r Aelodau ym mis Mehefin 2023. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn gweithredu fwy fel swyddog Gwirfoddoli Corfforaethol ac yn parhau i ehangu ar ystod o brofiadau gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol.</p> <p style="text-align: right; color: blue;">WEDI'I GYFLAWNI AM 2023-24 Y GWAITH YN PARHAU</p>	Parhaus	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles


Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023





Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig Mae Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022 yn dangos cynnydd amlwg mewn gwirfoddolwyr er ei bod yn anodd casglu'r data sydd ar gael ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae grwpiau ffoaduriaid a sefydliadau elusennol eraill i gyd wedi bod yn rhan o'r rhaglen yn 2022-23 ac mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn parhau i ehangu perthnasoedd yn y meysydd hyn	Parhaus	Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles
	Ch. 4			
CC 1.4	 Adroddiad blynyddol	Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh
CC 1.5	 Diweddariad Ch. 1-3	Erthygl 4: ➤ Cynhyrchu adroddiad tystiolaeth drafft yn ceisio cyngor cyfreithiol ➤ Cyflwyno adroddiad tystiolaeth i'r Aelodau ar gyfer penderfyniad i symud ymlaen neu fel arall ➤ Os yn symud ymlaen gyda Chyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri, cychwyn cyfnod o 12 mis o rybudd ac ymgynghoriad cyhoeddus	Tachwedd/ Rhagfyr 2023	Cyf. CaRhT
	Ch. 4	Papur cyfiawnhau Erthygl 4 wedi'i ddrafftio a chyngor cyfreithiol wedi'i geisio yn ystod Haf 2023. Adroddiad ar gyfeiriad Erthygl 4 wedi'i ddrafftio ar gyfer y Gweithgor Aelodau ym mis Hydref.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023






Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.6	 Diweddariad Ch. 1-3	Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r iaith Gymraeg. Mae Cronfa Cymunedau Eryri wedi ariannu 9 prosiect yn 2023-24 – pob un ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn Chwefror 2024. Cyfanswm cyllid y prosiect yw £59,958.95. Mae ceisiadau wedi blaenoriaethu'r themâu canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • seilwaith gwyrdd • gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles • cynhyrchu ynni • gwelliannau amgylcheddol lleol megis sbwriel a rheoli gwastraff • datblygu cymunedol • ffyniant yr iaith Gymraeg • datgarboneiddio Mae cronfa grantiau bach cymunedol a llesiant y PC yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ac mae wedi cynorthwyo mewn amrywiaeth o brosiectau sydd eisoes yn y flwyddyn ariannol hon	Mawrth 2024	Pennaeth Partneriaethau Swyddog Prosiect CCE
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023









Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 2	CEFNOGI POBL IFANC
--	------	---------------------------


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 2.1 	 Diweddariad Ch. 1+2	Aelodau i gysidro Maniffesto leuencid drafft Wedi cychwyn taith o amgloch ysgolion i gynnal gweithdai yn hyrwyddo gwaith y Parc a derbyn barn ynglyn yr hyn hoffent eu gweld yn digwydd. Fydd y gweithdai yn darparu barn a gwybodaeth fydd yn rhan o'r Maniffesto.	Medi 2023	Pen. WaM Swyddog Pobl Ifanc
	Ch. 3 Ch. 4			
CC 2.2 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun Y cynllun Ceidwad Ifanc yn parhau gyda amrywiaeth o weithgareddau ar draws y Parc. Rydym yn parhau i chwilio am fynhonellau cyllidol ac wedi derbyn cyngor addawol gyda arian Loteri.	Chwefror 2024	Pen. WaM
	Ch. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023










 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:		CC3	HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)		Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.1 	 Diweddariad Ch. 1-3	<p>Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.</p> <p>Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.</p> <p>Cwblhawyd Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a'i lansio'n swyddogol ar 25 Medi 2023. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r Bartneriaeth a Grŵp Llywio i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu cyntaf erbyn diwedd Mawrth 2024.</p>		Lansio Medi 2023 Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
	Ch. 4				
CC 3.2 	  Diweddariad Ch. 1-3	<p>Datblygu cyfleoedd i annog trafndiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafndiaeth a pharcio Gogledd Eryri ➤ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafndiaeth yn ardal Nantgwynant. ➤ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen <p>Mae grwpiau partneriaeth Nant Gwynant ac Ogwen yn cyfarfod yn fisol ac maent wedi cael cyrhaeddiad sylweddol yn nhymor 2023 drwy gydweithio yn y ddwy ardal.</p> <p>Prosiectau TrC ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-4 yw: Strategaeth Arwyddion Eryri, i ddatblygu argymhellion ar gyfer arwyddion gwell a chyson yn y Parc Cenedlaethol; Hwb Trafnidiaeth Llanberis, cymryd dyluniadau cysyniad i mewn i broses Wel-Tag Cam 1 a 2 gan gasglu mewnbyn gan yr holl randdeiliaid; Rhwydwaith Sherpa'r Wyddfa, yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau sy'n rhedeg o amgylch ardal Yr Wyddfa; T10 Gwasanaeth Bangor i Gorwen, parhau i wella'r gwasanaeth hwn.</p> <p>Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen.</p>		Parhaus tan Ebrill 2025	Pen. Partneriaethau
	Ch. 4				


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023



 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 3.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	Annog ymwelwyr i ddod ar drafndiaeth gyhoeddus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i ardaloedd gwahanol er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru Cyfrannodd canllawiau ymweld ar-lein, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, fideos cyngor warden, erthyglau taledig a llysgenhadon digidol i gyd at negeseuon y tu allan i oriau brig y tymor. Ar ddiwedd Ch2 gweithredwyd negeseuon o amgylch Awyr Dywyll fel rhan o ymgyrch Eryri Ni 23 i annog ymwelwyr ymweld yn ystod tymor y gaeaf. CWBLHAWYD AR GYFER 2023	Rhag. 2023	Pen. Cyfathrebu
CC 3.4 	 Diweddariad Ch. 1-3	Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'u defnyddio i helpu i ledaenu negeseuon mewn perthynas â'r uchod. Datblygu achrediad Llysgennad Gwyrdd fel rhan o gynllun Llysgenhadon Eryri gyda modiwlau twristiaeth gynaliadwy cysylltiedig. Cynnwys gwybodath am y rhai sy'n cyflawni'r achrediad ar ein gwefan Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd – gyda'r nod o gyrraedd 1000 o Lysgenhadon Eryri erbyn 3ydd penblwydd y cynllun ym mis Tachwedd 2023. Yn ystod Tachwedd 2023 bydd wythnos gyntaf Llysgenhadon Cymru gyfan lle mae Eryri yn cynnal digwyddiad Zoom Cymru gyfan a digwyddiad Awyr Dywyll ym Mhlas Tan y Bwlch.	Parhaus Chwefror 2024	Pen. Partneriaethau Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa
	Ch. 4			
CC 3.5 	 Adroddiad blynyddol	Sicrhau bod y CDLI presennol yn rhoi ei bolisiau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC






 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


CC 3.6 		Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLI fel rhan o'r broses CDLI mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.	Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau
	Diweddariad Ch. 1-3	Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen		
	Ch. 4			



Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC4	HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL
--	-----	--

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.1 		Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
	Diweddariad Ch. 1-3	Cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i deuluoedd ac i oedolion, sy'n dathlu gwahanol agweddau o ddiwylliant Cymreig, e.e. arddangosfa Geiriau Diflanedig, gweithgareddau celf a nosweithiau cerddorol.		
	Ch. 4			








 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


CC 4.2 	 Diweddariad Ch. 1+2	<p>Datblygu'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth cronfa TCLIC), gan ddod ag arddangosfa 'Geirfa Coll' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi</p> <p>Lansiwyd yr arddangosfa ym mis Mehefin gyda agoriad swyddogol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau yn llwyddiannus, gan gynnwys adnodd addysg newydd.</p>	Parhaus hyd ddiwedd yr arddangosfa Mawrth 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
--	---	---	--	--------------------------------

WEDI'I GWBLHAU





Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	<p>Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri</p> <p>Mae'r gwaith ar y cam nesaf sef enwau llynnoedd Eryri yn parhau a bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2023.</p>	Mawrth 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
	Ch. 4			
CC 4.4 	 Diweddariad Ch. 1-3	<p>Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli. ➤ Mynychu Eisteddfod Pen Llyn. ➤ Cwblhau'r prosiectau dehongli yn Ogwen a Hafod Eryri <p>➤ Darperir cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy baru gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl â'r rhai sy'n dymuno dysgu neu loywi eu Cymraeg llafar</p> <p>➤ Cafodd yr Awdurdod wythnos lwyddiannus iawn ar faes yr Eisteddfod. Daeth nifer dda i'r stondin gyda llawer o wahanol weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos. Roedd gan Tirweddau</p>	Parhaus Awst 2023 Tachwedd 2023	Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles Swyddog Cyfathrebu (GAE) "


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

		<p>Cymru gynrychiolaeth ar y stondin hefyd.</p> <p>➤ Gwaith yn parhau ar ddatblygu darpariaeth dehongli yng Nghanolfan Cwm Idwal. Bydd elfennau'r prosiect a ariannwyd drwy arian grant Cyfoeth Naturiol Cymru megis paneli gwybodaeth ychwanegol a chomisiynu ffilmiau wedi'u cwblhau o fewn y targed. Fodd bynnag, mae gwaith ar agweddau eraill o'r prosiect yn parhau gyda'r nod o'u cyflawni cyn gynted â phosibl o fewn y flwyddyn ariannol hon.</p>
	Ch. 4	




Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 4.5 	 Diweddariad Ch. 1-3	<p>Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweiliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli</p> <p>Mae'r gwaith yn parhau drwy Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ac mae Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy wedi cyfrannu dros 150 o enwau i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, gan gynnwys enwau rhai o furddunnod yr ardal.</p>	Parhaus hyd at Rhag. 2025	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
	Ch. 4			
CC 4.6 	 Adroddiad blynyddol	<p>Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu</p>	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC5	DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL
--	-----	--

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 5.1		Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisiâu cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC
	Adroddiad Blynyddol			
CC 5.2		Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC
	Adroddiad Blynyddol			

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CANLYNIADAU:

CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (*yn unol â Chynllun Eryri B1.2*)

CC1, 3, 5: Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1*)

CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2*)

CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2*)

CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

CC 4: Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

CC4: Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2*)

CC4: Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3*)

CC1, 2, 4: Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1*)



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen








Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023





Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 1	DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS
--	-------------	---------------------------------






Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 1.1	 Diweddariad Ch. 1-3 Ch. 4	<p>Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis ➤ Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis <p>Mae'r broses o werthuso aelodau staff yn 2023 ymlaen ers mis Mai. Cyn gynted ag y bydd y broses wedi'i chwblhau byddwn yn asesu'r anghenion hyfforddi.</p>	Parhaus Mawrth 2024	Pen. Adnoddau Dynol (AD)
CW 1.2	 Parhaus	<p>Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau</p> <p>Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid.</p>	Parhaus Mawrth 2024	Pen. AD Pen. Gwasanaeth
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 1.3	 Parhaus	<p>Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol</p> <p>Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.</p>	Parhaus Mawrth 2024	Pen. AD Pen. Gwas.

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 2	DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU
--	-------------	--

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 2.1	 Ch. 1-3	Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru.	Mawrth 2024	Pen. Eiddo
	Ch. 4			
CW 2.2	 Diweddariad Ch. 1-3	Coladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn Parciau Cenedlaethol eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y gweithgor Aelodau Gwaith ar y gweill i goladu arferion gorau ac adolygu polisïau APCE yn ôl yr angen. Mae arferion gorau lechyd a Diogelwch Parciau Cenedlaethol eraill ac ALLau rhanbarthol wedi'u coladu a thrafodaethau wedi'u cynnal ar lefel Tîm Rheoli ar y ffordd ymlaen. Daeth trafodaethau i'r casgliad bod angen 2 swydd Swyddog lechyd a Diogelwch rhan amser i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth lechyd a Diogelwch gofynnol. Mae Swydd Ddisgrifiad wedi'i lunio ac mae'r swyddi ar hyn o bryd yn y cyfnod recriwtio. Mae papur trafod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor P&R i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.	Mawrth 2024	Pen. AD



CWBLHAWYD







 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Tud. 27










CW 2.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru o weithio gartref a gweithio cyfunol o'r cartref/swyddfa lle mae'n bosibl i staff wneud hynny	Rhagfyr 2023	Pen. AD
		Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol rhwng y Pennaeth AD, y Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth i gychwyn trafodaethau mewn perthynas â mabwysiadu model Gweithio Hybrid hirdymor ar gyfer yr Awdurdod. Gosodwyd Swydd Ddisgrifiadau swyddi o fewn pob gwasanaeth yn seiliedig ar gweithio o'r Swyddfa/ Cartref/ Hybrid / Gweithiwr o Bell. Ymhellach, mae Polisi Gweithio Hybrid a Pholisi Fflecsi Hyblyg yn cael eu hysgrifennu ac ar ôl eu cwblhau a'u cymeradwyo byddant yn cael eu rhannu gyda staff ac undebau llafur at ddibenion cyd-drafod cyn cychwyn ar gyfnod prawf ar gyfer y ddau bolisi.		
	Ch. 4			


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:		CW 3 GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 3.1	 Diweddariad Ch. 1+2	Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chfylwyno i'r Awdurdod. Cyflwyno'r ail adroddiad cynnydd i'r Awdurdod	Mehefin 2023	Pen. Partneriaethau
		Cyflwynwyd ail adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ym mis Mai 2023.	CWBLHAWYD	
CW 3.2 	 Diweddariad Ch. 1-3	Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru	Parhaus	PW
	Qtr. 4	Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Bartneriaeth. Mae arfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Mae trefniadau ar gyfer seminar 2024 ar y gweill.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023





Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 3.3 	 Diweddariad Ch. 1-3	Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill Mae adnoddau yn cael eu cynhyrchu ar gyfer aelodau PPC a Sefydliad y PC e.e. menter BMW. Mae cynigion pellach yn cael eu datblygu. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol PPC a Sefydliad y PC yn ystod y 3ydd chwarter.	Parhaus	PW
	Ch. 4			
CW 3.4 	 Diweddariad Ch. 1-3	Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru Dim datblygiad arwyddocaol o ran penodi swyddogion ar gyfer y swyddogaeth gynllunio, fodd bynnag cytunwyd ar gyllideb ar gyfer y swyddogaeth gynllunio.	Parhaus	Cyf. CaRhT
	Ch. 4			
CW 3.5 	 Qtrs. 1-3 Update	Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2023. Cyflwyno crynodeb i'r Aelodau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac efallai y bydd angen diwygio'r amserlenni i adlewyrchu capasiti.	Rhag. 2023	Pen. Partneriaethau
	Qtr. 4			


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 4	MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU
--	-------------	---



<p>CW 4.1</p> 	 <p>Diweddariad Ch. 1+2</p>	<p>Sefydlu a oes galw gan Aelodau'r Awdurdod mewn rhaglen fentora ac, os felly, datblygu un</p> <p>Holiadur wedi'i anfon at yr Aelodau i dderbyn eu barn ar ofynion hyfforddi a datblygu ac yn gofyn a oedd galw am raglen fentora. Derbyniwyd 3 ymateb. Mae nifer yr ymatebion yn awgrymu bod yr angen am raglen fentora yn isel ymhlith aelodau.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p>	Rag. 2023	Cyf. Gwas. Corfforaethol
<p>CW 4.2</p> 	 <p>Diweddariad Ch. 1-3</p>	<p>Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu</p> <p>Yn aros am fanylion pecyn hyfforddi Llywodraeth Cymru a chynnwys modiwlau hyfforddi ar gyfer Aelodau. Rhagwelir y bydd y modiwlau hyfforddi yn ymdrin â materion amrywiol megis llywodraethu effeithiol, mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Disgwylir manylion cyn ddiwedd y flwyddyn.</p>	Parhaus	Cyf. Gwas. Corfforaethol
	Ch. 4			





 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 5	CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL
--	-------------	---





CW 5.1 	 Diweddariad Ch. 1-3	Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio)
	Ch. 4			


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.2	 Diweddariad Ch. 1-3	Gweithredu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod	Parhaus	Pen. Cyfathrebu
	Ch. 4	Mae metrigau yn cael eu gweithredu'n barhaus yn y Strategaeth Gyfathrebu		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.3	 Diweddariad Ch. 1-3	Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i ddiweddarau a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLI CWBLHAWYD	O leiaf 1 cyfarfod blynyddol	Pennaeth Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer
CW 5.4	 Ch. 1-3	Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Lleol Mynediad Eryri Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd y FfLI a gynhalwyd ym mis Mawrth, Mehefin a Medi. Cyswllt nesaf i'w gynnal ym mis Rhagfyr.	Parhaus Mawrth 2024	Rheolwr Mynediad a Llesiant
	Ch. 4			
CW 5.5		Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol	Cyfarfod Blynyddol Tachwedd	Pennaeth CCA
	Cyfarfod Blynyddol	Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Tachwedd 2023 CWBLHAWYD		

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CW 5.6	 Ch. 1-3	<p>Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, Ilunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.</p> <p>Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi'i phenodi ar sail swyddog prosiect dwy flynedd, ym mis Ebrill 2023 i gyflawni Cynllun Cymunedau Eryri ac i ddrafftio Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod. Mae gwaith mapio eisoes wedi dechrau ar draws y Gwasanaethau perthnasol o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned yn ystod proses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 wedi derbyn ymateb da gan y Cyngorau Cymuned fel dull ymgysylltu ar gyfer proses CDLI Eryri.</p>	Parhaus Mawrth 2024	Pen. Partneriaethau Pen. RhDaCh Swyddogion
	Ch. 4			



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen



Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023



Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CANLYNIADAU

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.


CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.


CW2, 4: Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.


CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)*

CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2)*


CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio	AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4
Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040	CC 3.3 CW 2.3
Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol	AC 5.5 (PAWS)
Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30	AC 5.1 - AC 5.5
Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol	AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4
Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas	AC 5.1
Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio	CW 3.2
Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau	
Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir	AC 1.10


LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith	AC 4.1
Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol	-
Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg	CC 1.4
Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy	AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9 CC 3.1 – 3.5
Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy	-
Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol	-
Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â <i>Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru</i> i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol	AC 3.1 – AC 3.9
Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni <i>Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i>	CC 4.1 – CC 4.7
Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli	CC 1.2 1.3
Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.	CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2 CW 5.1

LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLILC o dan arweiniad y sector	-
Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau	CW 4
Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol	CW 4
Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol	CW 4
Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd	CW 4
Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisiâu Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd)	CW 3.4

LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))	Prosiect/ Gwaith APCE 
Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24	CW 3.2 CW 3.3
<p>Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:</p> <p>i. Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon, i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon</p> <p>ii. Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.</p> <p>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd; • Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd; • Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffyrdd ariannu arloesol. <p>iii. Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydarddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig.</p>	AC 2.5
Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo	-

JO/Perfformiad/Amcanion Llesiant 2023-24
Chwarter 1+2 Ebrill – Medi 2023

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol
PWRPAS	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- 1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.
- 1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:
- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
 - sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
 - y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
 - gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.
- 1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2022-23 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

3. PAPURAU CEFNDIR

- 3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2022-23



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2022 – 23

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	4
3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru	6
4. Beth a Gyflawnwyd	7
5. Hyfforddiant	21
6. Asesu Effaith Cydraddoldeb	22
7. Gwybodaeth Cyflogaeth	23

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu sy'n disodli amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod 2020-24 yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 15fed o Orffennaf 2020.

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ers tro ar ei wefan. Mae data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig (ar y pryd) o 25,702 wedi'i rannu'n gategoriâu amrywiol gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn rhoi darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol o fewn y Parc Cenedlaethol yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Rhyddhawyd canfyddiadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 ym mis Mehefin 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a oedd yn amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd wedi'u talgrynnu fesul awdurdod lleol.

Er bod cyfanswm poblogaeth Cymru gyfan wedi cynyddu 44,000 (1.4%) i 3,107,500, gostyngodd poblogaeth Gwynedd a Chonwy. Yng Ngwynedd, gostyngodd maint y boblogaeth 3.7% o tua 121,900 yn 2011 i 117,400 yn 2021, ac yng Nghonwy, gostyngodd maint y boblogaeth 0.4%, o tua 115,200 yn 2011 i 114,800 yn 2021.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi crynodebau pwnc ar:

- Ddemograffeg a mudo
- Yr Iaith Gymraeg
- Grwpiau ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- Tai
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Dros y flwyddyn i ddod, bydd setiau data aml-amrywedd yn cael eu rhyddhau. Bydd y data hwn yn ein galluogi i gyfuno gwahanol newidynnau ac edrych ar y berthynas rhwng y data ar gyfer aelwydydd yn Eryri.

Bydd hwn yn ddata pwysig i nodi'r croestoriadedd sy'n allweddol wrth archwilio amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac mae'n crynhoi'r anghydraddoldebau canlyniad allweddol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.

Yn ogystal, bydd gwaith yn cychwyn trwy Rwydwaith Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ac yn cael ei ariannu trwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, i gomisiynu dadansoddiad pellach o ddata'r Cyfrifiad a data perthnasol arall, i ddarparu adroddiad data lleol sy'n fwy perthnasol a manwl gywir.

Gwybodaeth ac Ymgysylltu

Yn ystod 2022/23, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd ar-lein, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori a gwybodaeth personol.

Er bod Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaethyddiaeth Blynnyddol, Fforymau Mynediad Gogledd a De i enwi dim ond rhai, wedi symud i gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, rhithiol a hybrid dros y flwyddyn ddiwethaf; mae'n debygol y bydd trefniadau o'r fath yn parhau i gael eu hadolygu a'u haddasu dros y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn trwy amrywiol opsiynau hyblyg i ymuno.

Y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi'u cynnal eleni, mae ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol i alluogi rhannu gwybodaeth ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar heriau niferus mae'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac ei gymunedau wedi wynebu oherwydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

Yn ychwanegol, mae dau ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Yr un gyntaf fel rhan o'r broses o greu Strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg; ac yr ail fel rhan o waith partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a'r creu Cynllun ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 7 amcan lefel uchaf, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.
2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.
3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion a ddiogelir.
4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.
5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.
6. Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau**.
7. Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

4. Beth a Gyflawnwyd

Amcan: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Meysydd Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data ar y bwch tâl rhyw yn flynyddol.	Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol.	Rhyw	Pennaeth Adnoddau Dynol

Adroddiad Diweddarau 2022/23:

Sefydlodd data ar gyfer 31.03.2012 y llinell sylfaen a oedd yn seiliedig ar gyfraddau canolrif yr awr, megis:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£12.77	Dim	Dim
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Dim	Dim
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae data ar gyfer 31.03.2022 wedi'i osod islaw:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£16.01	£15.53	£15.81	0.28c	0.48c
Rhan Amser	£11.81	£11.61	£11.65	0.04c	0.20c
Holl Staff	£15.30	£13.67	£14.42	0.75c	£1.63

Mae data ar gyfer 31.03.2023 wedi'i osod islaw:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£15.60	£15.60	£15.60	NIL	NIL
Rhan Amser	£10.39	£10.81	£10.81	NIL	NIL
Holl Staff	£15.60	£13.18	£13.44	0.26c	£2.42

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigwr CANOLRIF (MEDIAN).

Mae Canllawiau ACAS ar Reoli Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd cymedrig yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd canolrif yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall gyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn dra arglwyddiaethu dros bethau ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.
- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle. Mae'r materion bwch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau CYMEDRIG (MEAN)

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.22, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £15.14 a'r gyfradd gyflog gymedrig yr awr i bob merch yw £13.68. Mae hyn yn rhoi bwch cyflog o 9.6%.

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.23, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £16.82 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £15.64. Mae hyn yn rhoi bwch cyflog o 7.27%.

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau ar weithio hyblyg.	Bydd polisi teg ac effeithiol yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mae rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ac er mwyn aros yn y gwaith.	Pawb	Pennaeth Adnoddau Dynol
<u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Arweiniodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ar adolygiad cyffredinol o arferion a pholisïau gweithio hyblyg yr Awdurdod i gynnwys trefniadau gweithio Hybrid a threfniadau amser Fflecsi wrth symud ymlaen. Mae'r tîm rheoli wedi cymeradwyo cyfnod prawf ar gyfer gweithio Hybrid ac i'r cynllun amser Fflecsi gael ei ddiwygio, - megis gwardu oriau craidd. Mae dau bolisi yn cael eu llunio i gynnig arweiniad ac arfer gorau i staff a rheolwyr, ac unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben gydag aelodau staff a'r undebau bydd y cyfnod prawf yn cychwyn.			
Mi fyddwn yn cyhoeddi data perthnasol ar gyflogaeth a hyfforddiant mewn taenlen data agored ar ein gwefan yn flynyddol.	Bydd y data yn gallu dangos pa gynnydd a wnaed. Mae taenlen data agored yn galluogi mwy o rwyddineb wrth gymharu â meincnodi gyda chyrrff cyhoeddus eraill.	Pawb - fodd bynnag mae data cyflogaeth yn anghyflawn ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir, a lle maent ar gael, efallai na fyddant yn cael eu cyhoeddi oherwydd y niferoedd bychan.	Pennaeth Adnoddau Dynol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Cwblhawyd. Crëwyd a chyhoeddwyd taenlen ffynhonnell data agored sy'n cynnwys yr holl ddata cyflogaeth berthnasol ar gyfer 2022/23.			
Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb.	Asesu'r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy'n briodol.	Pawb	Pennaeth Adnoddau Dynol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Mae modiwlau hyfforddiant cydraddoldeb ar gael trwy ELMS (System Rheoli Dysgu Electronig), platfform a ddefnyddir ar draws y Parciau Cenedlaethol. Mae'r modiwlau hyn wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg gan yr Awdurdod er mwyn sicrhau bod staff ac Aelodau'n gallu cael mynediad atynt yn eu dewis iaith.			

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Adolygu'r opsiynau ar gyfer ffurflenni cais am swyddi sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau hygrychedd.	Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau i bobl anabl i ymgeisio am swyddi.	Pobl anabl	Pennaeth Adnoddau Dynol
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Cwblhawyd. Mae'r Awdurdod yn defnyddio system Webrecruit, sy'n galluogi pobl i gyflwyno eu ceisiadau am swyddi yn uniongyrchol ar-lein. Gweithredwyd newidiadau a gwelliannau i'r system bresennol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 i sicrhau ein bod yn bodloni safonau hygrychedd.</p>			
Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n mynd trwy'r darfyddiad (menopôs).	Cefnogir lles y staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol.	Pawb, yn arbennig rhyw	Pennaeth Adnoddau Dynol
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Mae polisi Menopos yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei roi ar waith yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24.</p>			
Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n profi camdriniaeth ddomestig.	Yn cefnogi lles y staff yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.	Pawb	Pennaeth Adnoddau Dynol
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2022/23 oherwydd bod polisïau eraill yn cael blaenoriaeth. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn adolygu'r cam gweithredu hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.</p>			

Amcan: Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchoddedig.

Maes Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal ar bob polisi, cynllun neu brosiect newydd neu ddiwygiedig, ac y cymerir camau priodol i ymateb i unrhyw effeithiau negyddol a nodir.	Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisiâu a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf.	Pawb	Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain.
Adroddiad Diweddar 2022/23: Mae'r holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisiâu newydd neu ddiwygiedig wedi cael Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod 2022/23. Mae asesiadau llawn wedi'u cynnal ar yr holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisiâu sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ac anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, ac os yw'n briodol mae mesurau lliniaru wedi'u nodi a'u rhoi ar waith.			
Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud.	Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan.	Pawb	Trefnwyr digwyddiadau
Adroddiad Diweddar 2022/23: Erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol hon, roedd Llywodraeth y DU a Chymru wedi codi bron pob cyfyngiad covid, gan nodi dechrau 'normal' newydd. Mae mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau allanol wedi'u cynnal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf (e.e., teithiau cerdded, yoga coetir, digwyddiadau a gweithgareddau addysgol plant a phobl ifanc ac ati). Mae pob trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu'n llawn ar gyfer hygyrchedd ar yr un pryd ag y cynhelir yr asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr a oedd am gymryd rhan yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Roedd digwyddiadau cyhoeddus ar-lein yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu i alluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i gymryd rhan yn llawn a deall cyfraniad pawb. Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, gwahoddiadau ac ati yn gwbl ddwyieithog bob amser.			

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisiâu effeithiol yng NghDLI Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.	Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol.	Pawb	Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio
<p>Adroddiad Diweddarau 2022/23:</p> <p>Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Tai Teg, trwy gyfraniad ariannol i'w Cynllun Tai Fforddiadwy. Cynhyrchodd Tai Teg Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn yn ystod y flwyddyn ar y cynllun, a chyfrannodd yr Awdurdod fel rhan o'r broses ymgynghori.</p> <p>Mae trafodaethau rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal gyda'r ddau Awdurdod Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu lle bo angen. Mae trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid i ariannu swydd newydd Swyddog Tai a arweinir gan y gymuned.</p> <p>Ymchwil yn cael ei wneud i asesu effaith prisiau tai cynyddol ac ail gartrefi/llety gwyliau. Bydd ymchwil yn llywio'r defnydd o gyfeiriad Erthygl 4 a llunio polisi ar gyfer adolygiad nesaf CDLIE.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn bartneriaid yn Beilot Dwyfor, sy'n cwmpasu rhan o Ardal y Parc Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cynllun peilot yn ardal Dwyfor i dreialu a monitro mentrau newydd i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a fforddiadwyedd.</p> <p>Lansiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynllun prynwyr tro cyntaf i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Defnyddiodd y fenter hon arian 106 APC Eryri.</p> <p>Yn ystod 2022/23, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 2 tŷ fforddiadwy newydd.</p>			
Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnwys yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol.	Sicrhau fod adeiladau'r Awdurdod yn hygyrch i bawb.	Pobl Anabl	Pennaeth Eiddo a Phenaeithiaid Gwasanaeth perthnasol
<p>Adroddiad Diweddarau 2022/23:</p> <p>Ni chodwyd unrhyw adeiladau newydd ac ni wnaed unrhyw waith adnewyddu sylweddol a oedd yn cynnwys newidiadau i fynediad pobl a'r defnydd o adeilad ar adeiladau'r Awdurdod yn ystod 2022/23.</p>			

Amcan: Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol.**

Maes Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau cadarnhaol i gefnogi staff.	Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi Iechyd a Llesiant staff.	Pawb	Pennaeth Adnoddau Dynol
<p>Adroddiad Diweddarau 2022/23: Gwnaethpwyd penderfyniad i sefydlu'r grŵp hwn yn gynnar yn 2020, ond oherwydd pandemig Covid-19 ni chyfarfu'r grŵp byth yn ffurfiol, wrth i flaenoriaethau eraill gymryd drosodd. Ni wnaethpwyd unrhyw gynnydd yn ystod 2022/23 oherwydd ymddeoliad a chyfnod mamolaeth 2 aelod o'r tîm AD a dechreuwyd newydd yn ymgymryd â chyfnodau prawf o ddysgu ac yn ymgyswngwyo â'u rolau newydd. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn adolygu'r cam gweithredu hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.</p>			
Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol.	Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr.	Pawb, ond pobl anabl yn benodol.	Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.
<p>Adroddiad Diweddarau 2022/23: Ar ôl llwyddiant y peilot y llynedd, datblygwyd ac ymestynnwyd y prosiect Dydd Mercher Lles ymhellach.</p> <p>Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i'r cyhoedd archwilio'r buddion lles y gall gweithgareddau fel ioga, cerdded gyda myfyrdodau tywys ac Ysgolion Coedwig eu cael pan fyddant yn cael eu gwneud yn yr awyr agored. Roedd y sesiynau ar gael i unrhyw un am ddim. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu trwy gyfryngau cymdeithasol, a thrwy feddygfeydd meddygon teulu gyda'n cysylltiadau trwy'r is-grŵp Iechyd Gwyrdd a drefnir gan BIPBC. Yr unig gost o gynnal y gweithgareddau hyn oedd talu'r hwyluswyr.</p>			

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl.	Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a'u hyrwyddo'n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant.	Pawb	Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u></p> <p>Mae swm sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn cael eu datblygu/cefnogi gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant trwy roi'r Strategaeth Gwirfoddoli a Llesiant ar waith.</p> <p>Gwerth amcangyfrifedig gwirfoddoli i'r Awdurdod yn 2022 yw £52,800 (gwerth gwirfoddolwr economaidd wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyflog byw y DU o £9.50).</p> <p>Prosiect newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2022 yn gweithio gyda "Pobl i Bobl" i ddod â gwesteion o Syria, Afghanistan ac Wcraïn i mewn i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer teithiau cerdded tywys a gweithgareddau cadwraeth hwyliog.</p> <p>Mae Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol unwaith eto o ran patrolio'r llwybrau. Yn ystod tymor 2022 bu presenoldeb warden ar Yr Wyddfa am 77 diwrnod. Mae 36 o wardeniaid gwirfoddol wedi gwirfoddoli ac wedi rhoi cyfanswm o 272 o shifftiau. Mae hyn yn cyfateb i 1600+ o oriau gwirfoddol.</p> <p>Yn 2022 am y tro cyntaf, cafodd Wardeiniaid Gwirfoddol eu recriwtio i gynorthwyo'r Wardeniaid ar Gader Idris. Recriwtiwyd 11 o wirfoddolwyr newydd yn arbennig ar gyfer y rôl hon. Cwblhawyd cyfanswm o 35 o shifftiau, sef 220 o oriau gwirfoddol.</p> <p>Gwelodd Cynllun Caru Eryri 2640 o oriau gwirfoddoli dros yr haf gan 87 o wirfoddolwyr. Yn ogystal, trefnwyd cyfleoedd gwirfoddoli fel Digwyddiadau Corfforaethol, cynhaliwyd y Cynllun Ceidwaid Ifanc yn llwyddiannus eto, yn ogystal â chyfleoedd i gyfranogwyr Grwpiau Coleg a Gwobr Dug Caeredin.</p> <p>Canlyniadau ystadegau gwirfoddoli 2022: (Darparwyd cyfleoedd i wirfoddoli) Plant (grwpiau ysgol): 132 Pobl ifanc (14-24): 87 25 - 50:74 50+: 115</p>			

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
<p>Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau pellter hir sydd wedi'u ddiffinio'n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi.</p>	<p>Mae rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a chadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant.</p>	<p>Pawb</p>	<p>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</p>
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u></p> <p>Mae Strategaeth Hamdden yr Awdurdod ar ffurf drafft ar hyn o bryd a'r gobaiith yw y caiff ei mabwysiadu yn y flwyddyn i ddod. Mae Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De ill dau, wedi cael mewnbwn uniongyrchol i ddatblygiad y Strategaeth, sydd ynghyd â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd a Chonwy, yn mynd i ddarparu map ffordd o welliannau dros y blynyddoedd i ddod.</p> <p>Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gwmpasu Llwybrau Teithio Llesol / Hamdden ychwanegol mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth sy'n un o strategaethau pwysicaf Partneriaeth Yr Wyddfa.</p> <p>Mae'r holl lwybrau a hyrwyddir gan yr Awdurdod ar y wefan newydd. Y cam nesaf yw codi ymwybyddiaeth o'r 'adnodd' i bartneriaid a'r bwrdd iechyd. Mae adnoddau a fideos ychwanegol wedi'u datblygu ar gyfer defnyddwyr anabl.</p>			
<p>Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir.</p>	<p>Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i</p>	<p>Pawb</p>	<p>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</p>

	wella eu hiechyd a'u llesiant.		
<p>Adroddiad Diweddaru 2022/23: Mae'r gwasanaeth Wardeniaid yn cynorthwyo gyda'r arolygon GIS ar lwybrau Hawliau Tramwy. Mae Cymdeithas Eryri yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod i ddarparu rhaglenni cynnal a chadw blynyddol ar Yr Wyddfa, Lôn Gwyrfaï a Llwybr Mawddach.</p> <p>Mae gwaith mynediad ar raddfa fach yn cael ei nodi a'i reoli gan y Wardeniaid Ardal. Mae gwaith bach i ganolig yn cael ei arwain gan Wardeniaid Ardal gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid. Mae gwaith yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn eu cynllun gwaith a/neu gynlluniau lleoedd ardal. Mae gwaith mynediad mwy yn cael ei asesu a'i drafod mewn 'Cyfarfodydd Blaenoriaethu Prosiectau Mynediad' sy'n cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Wardeiniaid, Uwch Wardeniaid, Rheolwr Lies a Mynediad a Swyddog Prosiect Mynediad. Yn ogystal, mae cyllid LIC Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) wedi cefnogi cynnwys mwy o waith llwybrau troed yng nghynlluniau ardal Wardeniaid.</p>			
Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio o gymdeithas, gan nodi'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf.	Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi'r rhwystrau a chynyddu'r lefelau cyfranogi.	Pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.	Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.
<p>Adroddiad Diweddaru 2022/23: Mae'r holl lwybrau a hyrwyddir gan yr Awdurdod ar y wefan newydd. Y cam nesaf yw codi ymwybyddiaeth o'r 'adnodd' i bartneriaid a'r bwrdd iechyd. Yn ystod hydref 2022 comisiynwyd gwneuthurwr ffilmiau lleol Film UP High, a buom yn gweithio ar greu cyfres o fideos hyrwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth o fynediad i bob llwybr, sydd bellach i gyd ar gael ar y wefan.</p> <p>Mae cyfraddau defnydd y 3 cherbyd (dau Tramer ac un beic 4 olwyn) sy'n eiddo i'r Awdurdod yn parhau i wella. Gyda'r wefan newydd daeth y system archebu ar-lein ar gyfer llogi Tramer a wnaeth y broses gyfan yn llawer symlach i'r cwsmer ac yn haws ei rheoli. Gall defnyddwyr llogi Tramer ar gyfer unrhyw fynediad ar gyfer pob llwybr sydd wedi'i labelu'n gyfeillgar i Tramer ar y wefan.</p> <p>Mae cytundeb gyda 1085 Adventures wedi galluogi lleoli un o'r cerbydau yng nghoedwig Beddgelert er mwyn iddyn nhw ei llogi. Yn ystod haf 2022, cafodd ei llogi dros 50 o weithiau, gyda 2 gerbyd arall yr Awdurdod yn cael eu llogi 36 o weithiau.</p> <p>Bydd mabwysiadu'r Strategaeth Hamdden newydd yn galluogi cynnydd pellach ar y gwaith hwn.</p>			

Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.	Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a'u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol.	Pawb	Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.
<p>Adroddiad Diweddar 2022/23: Ers ei lansio, mae'r cynllun wedi mynd o nerth i nerth gyda dros 800 yn ennill teitl Llysgennad Eryri.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i ehangu ac esblygu'r cynllun ymhellach drwy fodiwlau newydd ar Bartneriaeth y Carneddau yn ogystal â modiwl arbennig yn cynorthwyo busnesau llety i leihau plastig untro.</p>			
Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol.	Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r holl staff.
<p>Adroddiad Diweddar 2022/23: Mae 97.3% o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn newis iaith y cyhoedd.</p> <p>Mae cael canran mor uchel o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Wedi dweud hynny, y risg fwyaf i'r Awdurdod o hyd yw'r gallu i recriwtio staff â chymwysterau addas sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i'r lefel ofynnol ar gyfer swyddi gwag.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn parhau i sicrhau bod pob cyfarfod rhithiol, pwyllgor, digwyddiad a gweminar yn gallu cael cyfleusterau cyfieithu llawn yn yr un modd â chyfarfodydd personol blaenorol.</p> <p>Mae'r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg, drwy wirfoddoli, mynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau rhithiol amrywiol i bobl o bob oed yn ystod pandemig Covid-19.</p> <p>Mae'r Ysgwrn wedi comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn i'w fabwysiadu yng ngwanwyn 2022 a fydd yn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r Ysgwrn i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru i blant a phobl ifanc 7-14 oed yn seiliedig ar 6 thema sy'n cwmpasu'r 6 maes dysgu.</p>			

Mae'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a chynllun Harlech ac Ardudwy.

Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa yn cael eu paru yn ôl gallu ieithyddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Mae'r Ysgwrn yn ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau safle gan gynnwys gwirfoddoli.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod. Rydym bob amser wedi gweithio ar y sail bod gwasanaethau Cymraeg bob amser ar gael heb orfod gofyn amdanynt.

Amcan: Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder.**

Maes Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru	Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael mwy o effaith o lawer.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddiad Diweddar 2022/23:

Cynhaliwyd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb rhwng yr 8fed a 15fed o Hydref 2022.

Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gydgysylltiedig gan holl bartneriaid sector cyhoeddus gogledd Cymru (sy'n cynnwys yr Awdurdod) yn ystod y cyfnod hwn, a defnyddiwyd delweddau a negeseuon cyson i atgyfnerthu negeseuon allweddol o ran nodi ac adrodd am droseddau casineb.

Yn ogystal, cynhaliodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC) ymgyrch hyrwyddo addysgol a chodi ymwybyddiaeth trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, Diwrnod Gwrth-gaethwasiaeth, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a thrwy gydol Mis Hanes Pobl Dduon.

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gweithio gyda phartneriaid o Ogledd Cymru ar amryw o ymgyrchoedd i hyrwyddo diogelwch ar-lein.	Mae dioddefwyr sgamiau ar-lein a bwlio yn aml iawn yn bobol fregus sy'n agored i niwed. Bydd codi ymwybyddiaeth trwy gyfres o negeseuon cyson yn cael mwy o effaith.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Ni chrëwyd unrhyw ymgyrchoedd uniongyrchol gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC) yn ystod y flwyddyn, gan fod yn rhaid cyfeirio adnoddau cyfyngedig y Rhwydwaith at waith blaenoriaeth arall.</p> <p>Fodd bynnag, y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yw gweinyddydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol y Rhwydwaith, ac mae wedi gweithio'n agos gydag Uned Seiberdroseddu Heddlu Gogledd Cymru i ledaenu ymwybyddiaeth barhaus o seiberdroseddu a negeseuon diogelwch ar-lein.</p>			

Amcan: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Maes Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da.	Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir.	Pawb	Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth
<p><u>Adroddiad Diweddar 2022/23:</u> Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, lle rhennir arfer gorau a lle mae cefnogaeth a chyingor bob amser ar gael gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Wrth i amser ac adnoddau ganiatáu, gwneir gwaith a phrosiectau ar y cyd hefyd fel y gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau cyfyngedig.</p>			

Amcan: Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Meysydd Gweithredu:

Prosiect / Menter / Gweithred	Sut mae hyn yn cyfrannu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaethau a brynir i mewn yn gallu cwrdd ag ymrwymiad a disgwyliadau'r Awdurdod ar gydraddoldeb.	Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo'r gwaith neu'r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'r broses.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<p>Adroddiad Diweddar 2022/23: Mae'r Awdurdod yn defnyddio Gwerthwchi Gymru i hysbysebu'r mwyafrif o wasanaethau a gaffaelir, gan mai hwn yw'r man galw cyntaf i gwmnïau sydd am gynnig am gytundebau sector cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y contractau a gynigir gan yr Awdurdod yn cyrraedd ei gynulleidfa ehangaf bosibl.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod yn caffael llawer iawn o wasanaethau, gan fod mwyafrif y contractau o'r fath ar gyfer nwyddau. O'r contractau gwasanaeth hynny, ni fydd pob un yn berthnasol o ran ymrwymadau cydraddoldeb a mesurau a ddisgwylir gan y cwmnïau hynny.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhellion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau'r Awdurdod mewn perthynas â chontractau yn ddigon tryloyw, ac yn unol â hynny mae fersiwn newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau wedi'i gynhyrchu sy'n ymgorffori'r argymhellion ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud â'r ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae sesiynau hyfforddi mewnol wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p>			
Darparu cefnogaeth (a lle'n briodol) hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion a ddiogelir.	Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Adnoddau Dynol
<p>Adroddiad Diweddar 2022/23: Mae staff perthnasol yn ymwybodol y gall y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar ystyriaethau cydraddoldeb, y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau a ffrydiau gwaith newydd.</p>			

Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd ar gael i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer unrhyw gontractau cyflogaeth newydd a grëir yn yr Awdurdod.

Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn.	Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Adnoddau Dynol
--	---	------	--

Adroddiad Diweddar 2022/23:

Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fel arfer yn gweithio gydag aelodau staff unigol perthnasol ar ddatblygu Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun, y Polisi, neu'r Strategaeth sy'n cael ei adolygu neu ei ddatblygu ac ar unrhyw Benderfyniad Strategol sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod yr asesiadau mor gadarn ag y gallant fod, a lle bo'n berthnasol hefyd yn cynnwys asesiad cadarn o effaith economaidd-gymdeithasol ar Benderfyniadau Strategol.

5. Hyfforddiant

Mae modiwlau dwyieithog ar-lein ar gael ar ELMS ar y pynciau canlynol i staff:

- Urddas a Pharch yn y Gwaith;
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gwaith;
- Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb;
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl; a
- Cynhwysiant Niwroamrywiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd aelod o staff Weithdy Cynhwysiant LHDTQ+. Roedd y gweithdy wedi'i anelu'n benodol at bobl sy'n gweithio mewn rolau a thimau rheng flaen, gyda'r diben o:

- Ddatgelu terminoleg ac egluro camsyniadau cyffredin;
- Gwella dealltwriaeth o gasineb LHDT; ac
- Archwilio llwybrau cymorth (gan gynnwys bod yn Wylwr Gweithredol, adrodd i'r Heddlu, Gwasanaethau Cymorth Arbenigol Annibynnol, Awdurdodau Lleol a Grwpiau Llawr Gwlad).

6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i sgrinio ac asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion newydd neu ddiwygiedig neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 2 asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Islaw mae crynodeb byr o'r asesiadau effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd.

Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Fel y brif iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol o fewn y Parc, mae bywiogrwydd y Gymraeg wedi ei adnabod fel nodwedd unigryw o Eryri y mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i'w warchod yn ogystal â'i hyrwyddo trwy bob agwedd o'i waith. Fel nodwedd arbennig mae wedi ei gynnwys yng Nghynllun Eryri, Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rhan fywiog o'n bywyd bob dydd.

Mae'r Strategaeth hefyd yn ofyniad statudol fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Strategaeth felly yn cyflwyno cyfres o nodau a chamau gweithredu strategol sy'n dilyn strategaeth 5 mlynedd wreiddiol yr Awdurdod, sy'n anelu at hysbysu, addysgu yn ogystal â hyrwyddo'r iaith er mwyn annog mwy o ddefnydd dyddiol a chynyddu nifer y defnyddwyr.

Mae datblygiad y Strategaeth wedi cael ei arwain gan Grŵp Llywio staff/aelodau a sefydlwyd yn arbennig at y diben hwn (Grŵp Llywio Strategaeth Hybu'r Gymraeg Newydd), ac mae wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr. Cafodd y Strategaeth groeso cynnes ac ni nododd yr asesiad effaith unrhyw effeithiau negyddol posibl, ond yn hytrach canfuwyd y byddai gweithredu'r Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ac yn cynorthwyo i feithrin gwell dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Strategaeth Hamdden

Mae'r Strategaeth yn cyflwyno cyfres o nodau a chamau gweithredu strategol a fydd yn datblygu a rheoli cyfleoedd hamdden yn Eryri mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw'r gweithgareddau hynny yn cael effaith negyddol ar rinweddau arbennig eraill y Parc Cenedlaethol, tra ar yr un pryd yn hyrwyddo manteision cymdeithasol a lles i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd, a gwella hygyrchedd.

Mae'r Strategaeth yn darparu ar gyfer yr angen i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd a'r rhai nas clywir yn aml, gan sicrhau bod ganddynt gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden amrywiol. Mae'n cefnogi Cynlluniau allweddol eraill sydd gan yr Awdurdod, ac yn eistedd yn uniongyrchol o dan Gynllun Eryri. Mae'r Cynlluniau hyn yn nodi ymhellach y rhwystrau i gyfranogiad gan grwpiau gwarchoddedig, wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac anodd eu cyrraedd ac yn rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Gan nad yw'r Strategaeth Hamdden wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol eto, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dal yn fyw. Ym mhob cam ymgynghori, bydd yr aseiad effaith yn cael ei adolygu a'i fireinio yn ôl yr angen i ystyried adborth a sylwadau perthnasol.

7. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodweddion a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
 - Tâl
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
 - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a fethodd
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn o / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2023 = 149

Proffil oedran

24 a iau	11
25 – 34	25
35 – 44	33
45 – 54	36
55 – 64	28
65 a throsodd	16

Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

Benywod	82
Gwrywod	67

Mae 1.3% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 7 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Tsieineaidd).

O achos y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2023 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd wahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
IC	£8.91	1	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1	1
1	£9.60	2	0	2	0	0	0	2	2	0	0	0	0
2	£9.79	0	1	1	1	0	0	1	2	0	0	0	0
3	£10.39	0	1	10	5	0	0	7	3	3	3	0	0
4	£10.81	2	3	15	3	0	0	16	6	0	0	1	0
5	£11.93	1	11	4	1	0	0	5	10	0	0	0	2
6	£13.44	6	3	2	0	0	0	4	3	0	0	4	0
7	£15.60	8	13	2	0	0	0	8	12	0	0	1	2
8	£17.36	9	9	1	1	0	0	7	9	0	0	3	1
9	£18.85	3	4	0	0	0	0	3	2	0	0	0	2
10	£19.98	3	3	2	0	0	0	3	3	0	0	2	0
11	£21.03	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
12	£22.09	2	1	1	0	0	0	1	3	0	0	0	0
13	£23.13	2	3	0	0	0	0	2	3	0	0	0	0
14	£24.19	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£36.15	0	2	0	0	0	0	0	2	0	0	0	0
Prif Swyddog - Prif Weithredwr	£47.62	0	1	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0

Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

O'r ymgeiswyr sydd wedi llenwi ffurflenni monitro:

Tarddiad Ethnig

- 259 Gwyn
- 2 Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd
- 1 Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd
- 1 Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
- 2 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
- 1 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
- 5 Gwell gennyf beidio â dweud

Cenedl

151 Gwryw

120 Benyw

Anabledd

3 ymgeisydd gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

	Ceisiadau	Penodiadau
Gwryw	2	2
Benyw	1	1
Cyfanswm	3	3

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 12 achlysur gan fenywod a 11 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

Benyw	1
Gwryw	1
Cyfanswm	2

Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Roedd dim gweithiwr yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Benyw	9
Gwryw	11
Cyfanswm	20

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH 2022/23
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Adnoddau Dynol
PWRPAS	Er gwybodaeth

1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod adrodd am y flwyddyn 22/23 fel bod gwybodaeth arwyddocaol a chyfredol mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch yn cael ei adrodd i'r pwyllgor.

Yn dilyn penodi'r Pennaeth Adnoddau Dynol newydd ym mis Mehefin 2022, cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o weithdrefnau lechyd a Diogelwch yr Awdurdod ac o ganlyniad roedd yn amlwg bod angen cynnal adolygiad pellach, manylach gan arbenigwr lechyd a Diogelwch er mwyn derbyn adroddiad manwl o ganfyddiadau a chamau gweithredu gofynnol ar gyfer rheoli lechyd a Diogelwch ar draws yr Awdurdod.

2. ADOLYGIAD IECHYD A DIOGELWCH

Yn ystod mis Chwefror 2023, comisiynwyd Mike Roberts, Rheolwr lechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol ADRA (Grad IOSH DipNEBOSH) i gynnal yr adolygiad hwn ac i ddarparu adroddiad o ganfyddiadau ac argymhellion i'r Tîm Rheoli.

Cynhaliwyd yr adolygiad dros gyfnod o 3 mis a oedd yn cynnwys adolygu dogfennaeth bresennol yr Awdurdod gan gynnwys y Polisi lechyd a Diogelwch a chyfweld trawstoriad o benaethiaid adrannau a gweithwyr eraill yr Awdurdod er mwyn cynnal adolygiad ar draws yr Awdurdod cyfan.

3. CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION

Dychwelodd yr adroddiad grynodedb o'r canfyddiadau a'r argymhellion canlynol:

- O drafodaethau gyda gwahanol aelodau o APCE roedd yn amlwg bod iechedd a diogelwch yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio a chyflawni gwaith. Fodd

bynag, nid yw dogfennau amrywiol y cafwyd tystiolaeth ohonynt megis polisïau a matricesau hyfforddi wedi'u diweddarau ers peth amser ac nid ydynt yn adlewyrchu dull gweithredu presennol APCE yn fanwl gywir.

- Roedd dogfennaeth megis asesiadau risg yn amrywio yn y templed a ddefnyddiwyd ac o ran sgorio risg.
- Mae'r Rheoliad Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael mynediad at gyngor iechyd a diogelwch cymwys. Ymddengys nad yw APCE wedi cael mynediad at gymorth a chynghor iechyd a diogelwch cyson ers peth amser. Byddai cymorth o'r fath yn amhrisiadwy wrth ddatblygu, gweithredu a chydlynu system rheoli iechyd a diogelwch gan ddefnyddio dull Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu yn gyson a pharhaus.
- Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 7 o'r MHSWR, dylai APCE roi ystyriaeth ddifrifol i benodi person cymwys yn fewnol (wedi'i hyfforddi i Dystysgrif Gyffredinol NEBOSH o leiaf) gyda chyfrifoldebau penodol am gynghori ar faterion iechyd a diogelwch a sicrhau bod system gadarn wedi'i dogfennu yn ei lle.

4. GWEITHREDU AR YR ARGYMHELLION

Cyflwynwyd adroddiad Mike Roberts i'r Tîm Rheoli yn ystod Mai 2023 ac mewn perthynas â'r argymhelliad penodol y dylid penodi swyddog iechyd a diogelwch cymwys yn fewnol, awdurdododd y Tîm Rheoli i greu swydd ddisgrifiad a'i gwerthuso er mwyn hysbysebu'r swydd yn allanol.

Ar ôl ystyriaeth bellach, penderfynwyd er mwyn i'r Awdurdod dderbyn cefnogaeth gyson trwy gydol y flwyddyn, y dylid ceisio dwy rôl swyddog iechyd a diogelwch rhan amser yn hytrach nag un swyddog llawn amser. Hysbysebwyd y rôl ar 10 Tachwedd a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 27 Tachwedd. Gobeithiwn gael y swyddogion yn eu swyddi yn ystod Ionawr 2024 yn adrodd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

5. ADRODD A RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH

5.1 Grŵp Iechyd a Diogelwch

Mae Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod yn cyfarfod bob chwarter. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ran y Tîm Rheoli a bydd yn cael ei gydlynu a'i weinyddu gan y Swyddogion Iechyd a Diogelwch sydd newydd eu penodi.

Aelodau'r Grŵp fydd:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Swyddogion Iechyd a Diogelwch
Pennaeth Adnoddau Dynol
Pennaeth Wardeiniaid
Swyddog Prosiect Mynediad
Pennaeth Eiddo/Rheolwr Eiddo a Chyfleusterau

Uwch Swyddog Cynllunio – Rheoli Datblygu
Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaeth
Swyddog Coed a Choetiroedd

Bydd swyddogion eraill yn adrodd i / mynychu'r Grŵp yn ôl yr angen. Er enghraifft, Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, Pennaeth Partneriaethau, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol.

Nid yw'r grŵp wedi cyfarfod ers i Adra gael ei gomisiynu i gynnal adolygiad o arferion lechyd a Diogelwch ac mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio i roi'r argymhellion yn eu lle ers derbyn eu hadroddiad. Felly, y bwriad yw ailgynnull y cyfarfodydd newydd hyn unwaith y bydd y strwythur lechyd a Diogelwch newydd yn ei le yn gynnar yn 2024.

5.2 Cyd Weithgor Lleol

Mae lechyd a Diogelwch hefyd wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Cyd Weithgor Lleol lle bydd yr Undebau Llafur a'r swyddogion lechyd a Diogelwch yn adrodd fel y bo'n briodol.

5.3 Cyfarfod y Tîm Rheoli

Mae eitem safonol ar agenda cyfarfod y Tîm Rheoli lle gellir codi unrhyw faterion.

6. HYFFORDDIANT

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mynychodd 23 aelod o staff gyrsiau hyfforddi mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch:

Cwrs Hyfforddi	Mynychwyr
Cymorth Cyntaf - Sylfaenol	5
Cymorth Cyntaf – Gofal Brys / Achub mewn Argyfwng	14
Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwyyo – Dyfarniad Lefel 2	4

7. DIGWYDDIADAU

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn bu cyfanswm o 10 damwain yn ymwneud â staff yr Awdurdod. O'r 10 anaf, roedd angen sylw meddygol ar 2 ohonynt ac amser i ffwrdd o'r gwaith sy'n golygu bod y rhain yn rhai i'w hadrodd i RIDDOR.

Dyddiad y Ddamwain	Math o anaf	Gofal Meddygol Angenrheidiol	Cyfnod Absenoldeb	Adroddadwy i RIDDOR
19.06.23	Asennau wedi torri - syrthio (oddi ar dractor)	Oedd	6 wythnos	Ydi
29.08.22	Llosgi Llaw – Arllwysiad (Te)	Na	Dim	Na

20.09.22	Anaf i'r Llaw - Paratoi bwyd	Na	Dim	Na
07.11.22	Taro'r pen - Dosbarthwr llieiniau / tywelion	Na	Dim	Na
24.11.22	Cleisiau – cwymbo oddi ar ystol	Na	Dim	Na
07.12.22	Torri ffêr - llithro	Oedd	3 Mis	Ydi
05.01.23	Tynnu cyhyr – cwyp	Na	Dim	Na
17.01.23	Clais ar foch – Wrth godi rhywbeth	Na	Dim	Na
07.03.23	Straen Cefn – Wrth godi rhywbeth	Na	Dim	Na
20.03.23	Tynnu cyhyr ysgwydd - Llithro	Na	Dim	Na

8. Damweiniau Adroddadwy i RIDDOR

Yn ystod y cyfnod adrodd bu 2 ddamwain adroddadwy i RIDDOR.

- Yn dilyn y ddamwain yn ymwneud â syrthio oddi ar dractor fe farciwyd y tractor hwnnw fel un na ddylid ei ddefnyddio ar unwaith ac fe'i anfonwyd wedyn at Major Owen i gael gwasanaeth ganddynt, - roedd y drefn o gynnal gwasanaeth arno wedi peidio ers cyfnod sylweddol. Dyfynnwyd atgyweiriadau ar gyfer y cerbyd hwnnw ac roedd y swm yn werth mwy na gwerth y cerbyd. Gwnaethpwyd penderfyniad gan y Tîm Rheoli i gael gwared ar y tractor am werth sgrapio yn unig.
- Bu'r ddamwain yn ymwneud â thorri ffêr tra bod coedwigwr yn 'bwydo' cangen coeden trwy beiriant naddu pan drodd ei ffêr yn lletchwith gan achosi'r toriad.

9. Camau a Gymerwyd i Leihau Risg Pellach o'r un Digwyddiad(au) yn Digwydd Eto

Cafodd y tractor ei sgrapio a bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl gerbydau a pheiriannau yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal.

O ganlyniad i 3 anaf a gafwyd wrth godi pethau a chwymbo o uchder, mae cyrsiau hyfforddi Codi a Chario a Gweithio o Uchder wedi'u gosod ar yr amserlen matrices hyfforddi ar gyfer 2024.

10. ARGYMHELLIAD

Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	29 Tachwedd 2023
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CANOLFANNAU CROESO
ADRODDIAD GAN	Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy
PWRPAS	Diweddariad i'r aelodau ar gynnydd y Canolfannau Croeso

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod dair Canolfan Groeso, sef Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed. Mae canolfannau Aberdyfi a Beddgelert wedi bod yn dymhorol, tra bod canolfan Betws y Coed ar agor drwy'r flwyddyn.
- 1.2 Ers 2018 mae swyddfa Beddgelert wedi agor am wythnos dros hanner tymor mis Chwefror ac yna ar benwythnosau yn unig tan yr agorwyd am y tymor o benwythnos olaf mis Mawrth. Yn dilyn llwyddiant y ganolfan yn ddiweddar penderfynwyd treialu agoriad y ganolfan ar benwythnosau (a dros wyliau'r Nadolig) ar gyfer 2023 – 2024.
- 1.3 At ddiben yr adroddiad hwn, mae cymariaethau ar gyfer y pedair blynedd diwethaf wedi'u cynnwys a 2023 yw'r flwyddyn gyntaf ers 2019 lle nad oes unrhyw fesurau Covid-19 mewn lle.

2. TROSOLWG O'R FLWYDDYN 2023-24 HYD YN HYN

- 2.1 Agorodd y dair canolfan ar amser ac roeddynt i fod ar agor am y tymor cyfan.
- 2.2 Gwelodd 2022 nifer o heriau gyda lefelau staffio. Roedd recriwtio ar gyfer 2023 yn llawer mwy llwyddiannus. Mae lefelau staffio llawn wedi bod yn eu lle yng nghanolfannau Beddgelert a Betws y Coed am y tymor cyfan ac ni chollwyd unrhyw ddiwrnodau oherwydd diffyg cyflenwad. Nid oedd hyn yn wir yn Aberdyfi gyda recriwtio a chadw yn broblem unwaith eto.
- 2.3 Ehangwyd y cynnig manwerthu ar-lein ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ehangu ynghyd ag ychwanegu bwcio digwyddiadau wedi cynyddu'r elw ar werthiannau tua 50%.

Ionawr 2023 – Diwedd Hydref 2022 - £3230

Ionawr 2022 – Diwedd Hydref 2022 - £2049

Ionawr 2021 - Diwedd Hydref 2021 - £1584

3. CANOLFAN ABERDYFI

- 3.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1. Yn gynwysedig mae tymor byr gyda chymariaethau â 22/23 a 19/20, hefyd tueddiadau tymor hir o 2015.
- 3.2 Unwaith eto profwyd aflonyddwch yn Aberdyfi oherwydd lefelau staffio. Yn dilyn ymadawiad staff cyn dechrau tymor 2023, ni chynhaliwyd recriwtio tan ddechrau mis Mai. Roedd hyn yn golygu bod 18 diwrnod wedi'u colli trwy gau ar ddechrau'r tymor. Roedd eu hymadawiad am swydd barhaol ddiwedd mis Medi yn golygu bod cyfanswm y dyddiau y caewyd Canolfan Aberdyfi yn 2023 wedi codi i 34. Mae hyn 3 diwrnod yn fwy nag yn 2022.
- 3.3 Er gwaethaf colli diwrnodau masnachu, cynyddodd trosiant Aberdyfi 24% dros y tymor o gymharu â 2022/23. Roedd hyn yn adeiladu ar y flwyddyn uchaf erioed y llynedd er gwaethaf ofnau y byddai'r rhagolygon economaidd yn arwain at lithriad o ran perfformiad ariannol y ganolfan.
- 3.4 Arhosodd ymholiadau ymwelwyr yn sefydlog ac maent yn debyg i 2022/23. O gymharu â 2019/20 mae nifer yr ymholiadau gan ymwelwyr wedi gostwng 18%, fodd bynnag os caiff Ebrill a Hydref eu diystyru (y misoedd y collodd y ganolfan y mwyafrif helaeth o ddiwrnodau masnachu oherwydd cau) mae hyn yn newid i 4%.
- 3.5 O edrych ar y gymhariaeth hirdymor gallwn weld bod y gwariant cyfartalog fesul trafodiad wedi cynyddu eto. Cynyddodd elw y pen ers y llynedd, gan barhau i fod yn uwch na lefelau cyn-bandemig.

4. CANOLFAN BEDDGELERT

- 4.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.
- 4.2 Fel y rhagwelwyd, cadwodd Beddgelert yr enillion ariannol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd trosiant 14% yn uwch na thymor 2022. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i 2 ffactor;
 - Chwyddiant uwch - mae'r mwyafrif o'n cyflenwyr presennol wedi cynyddu eu prisiau'n sylweddol dros y 12 – 18 mis diwethaf, bu'n rhaid trosglwyddo'r cynnydd hwn i gynnal ein helw ar nwyddau a werthir.
 - Lefelau Staffio - ni cholodd y ganolfan unrhyw ddiwrnodau oherwydd yr angen i gau dros y tymor. Yn 2022 fe wnaethom amcangyfrif colled o tua £4k oherwydd cau canolfan.
- 4.3 O edrych ar y gymhariaeth tymor hir gwelwn fod elw y pen wedi ei gynnal o 2022 oherwydd y cynnydd mewn ymholiadau ymwelwyr. Gellir priodoli'r cynnydd hwn mewn ymholiadau ymwelwyr o gymharu â 2022/23 yn bennaf i'r ffaith bod gennym staff llawn a cholli dim diwrnodau masnachu yn ystod y flwyddyn hon.

5. CANOLFAN BETWS Y COED

- 5.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.
- 5.2 Mae manwl gywirdeb niferoedd ymwelwyr ym Metws y Coed (gostyngiad o 22% ar 2022 yn ôl data) yn aneglur, oherwydd problemau gyda chownter cyfri pobl newydd

ar yr ail fynedfa/allanfa. Wrth gymharu'r gostyngiad hwn â'r cynnydd nodedig mewn trosiant (cynnydd o 37% o gymharu â 2022) mae'n ymddangos yn arbennig o amlwg.

- 5.3 Agorwyd y ddau ddarn arddangos newydd yn y ganolfan cyn y Pasg ac maent wedi bod yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr. Er gwaethaf y problemau cychwynnol, rydym yn gobeithio y byddant yn denu'r pobl yn y dyfodol.

6. I GLOI

- 6.1 Cynyddodd pob un o'r 3 canolfan eu trosiant eleni er gwaethaf y rhagolygon economaidd enbyd ar ddiwedd 2022. Mae nifer o ffactorau yn berthnasol i hyn, mae rhai allan o'n rheolaeth i raddau helaeth ac eraill y gallwn ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt –
- Chwyddiant – Fel y soniwyd uchod ym mhwynt 4.2.
 - Gwell Recriwtio a Chadw – Nid oes amheuaeth bod hyn wedi cyfrannu at y cynnydd yn y trosiant ym Meddgelert ac i raddau llai ym Metws y Coed.
 - Ehangu cyflenwyr – Cyn 2020 roedd y Prynwr Manwerthu yn ymweld ag un Ffair Fasnach y flwyddyn ym mis Gorffennaf. Nid yw hyn wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig. Eleni ymwelwyd â dwy ffair fasnach, un ym mis Ionawr ac un ym mis Gorffennaf. Helpodd hyn i ehangu'r sylfaen cyflenwyr yn sylweddol am y tro cyntaf ers 2019.
 - Ymwelwyr tramor a chyfraddau cyfnewid – Fel y rhagwelwyd eleni gwelwyd cynnydd anecdotaidd arwyddocaol mewn ymwelwyr tramor. Mae hyn ynghyd â'r cyfraddau cyfnewid ffafriol yn cynyddu eu pŵer gwario.
- 6.2 Fel y gwelwyd gan adwerthwyr eraill, credwn ein bod wedi profi achos uwch na'r cyfartaledd o ddwyn o siopau dros y 12 mis diwethaf. Mae'r TCC a osodwyd yn Aberdyfi a Beddgelert, a'r system wedi'i huwchraddio ym Metws y Coed, o ganlyniad i bandemig Covid-19 wedi bod yn werthfawr o ran cynorthwyo gydag adrodd.
- 6.3 Fel y soniwyd yn 1.2 mae Canolfan Beddgelert yn cael treial agor dros y gaeaf ar gyfer 2023/24. Bydd y ganolfan ar agor ar benwythnosau drwy'r gaeaf yn ogystal ag am gyfnod dros wyliau'r Nadolig.
- 6.4 Oherwydd y cynnydd mewn incwm a gynhyrchir rhagwelir y bydd y canolfannau yn diweddu'r flwyddyn ariannol o fewn eu cyllideb gweithredu gosodedig. Y disgwyliad yw y bydd 2023/24 fel a ganlyn -
- Aberdyfi yn costio tua £17k i'r Awdurdod
 - Beddgelert yn costio tua £25k i'r Awdurdod
 - Betws y Coed yn costio tua £42k i'r Awdurdod
- Mae'r costau sy'n weddill ar gyfer gwasanaethau cefnogi.

ARGYMHELLIAD

- 1. Bod yr Aelodau trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau a ddylai cael eu cymryd wrth i ni edrych tuag at 2024-2025.**

CANOLFAN / CENTRE: ABERDYFI
YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES

MIS MONTH	2023/24					2022/23					CYMHARIAETH 23/24 - 22/23		2019/20		CYMHARIAETH 23/24 - 19/20	
	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	% + / -		TOTAL	% + / -		
EBR / APR	1,582	-	14	7	1,603	2,173	-	23	10	2,206	-27.33	EBR / APR	4,272	-62.48		
MAI / MAY	4,186	-	18	8	4,212	2,991	-	48	10	3,049	38.14	MAI / MAY	5,984	-29.61		
MEH / JUN	5,316	1	54	11	5,382	4,295	-	54	5	4,354	23.61	MEH / JUN	4,203	28.05		
GOR / JUL	4,021	1	38	7	4,067	6,672	1	61	6	6,740	-39.66	GOR / JUL	6,654	-38.88		
AWS / AUG	8,175	-	36	4	8,215	7,586	1	69	4	7,660	7.25	AWS / AUG	8,873	-7.42		
MED / SEP	5,900	-	26	6	5,932	3,516	-	24	1	3,541	67.52	MED / SEP	4,539	30.69		
HYD / OCT	1,146	-	12	5	1,163	2,041	-	15	4	2,060	-43.54	HYD / OCT	2,584	-54.99		
TACH / NOV	69	-	1	-	70	209	-	3	-	212	-66.98	TACH / NOV	165	-57.58		
RHAG / DEC	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	#DIV/0!	RHAG / DEC	-	#DIV/0!		
ION / JAN	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	#DIV/0!	ION / JAN	-	#DIV/0!		
CHWE / FEB	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	#DIV/0!	CHWE / FEB	-	#DIV/0!		
MAW / MAR	-	-	-	-	-	227	-	4	1	232	#DIV/0!	MAW / MAR	-	#DIV/0!		
CYFANSWM / TOTAL	30,395	2	199	48	30,644	29,710	2	301	41	30,054	1.96		37,274	-17.79		
EBR-HYD / APR-OCT	30,326	2	198	48	30,574	29,274	2	294	40	29,610	3.26		37,109	-17.61		

CYN. TAW / INC. VAT MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH				
	2023-24	2022-23	2019/20	23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
EBR / APR	£ 1,693.36	£ 1,971.01	£ 2,474.30	-14.09	-31.56
MAI / MAY	£ 3,745.08	£ 2,462.62	£ 2,870.54	52.08	30.47
MEH / JUN	£ 5,786.88	£ 3,128.17	£ 2,720.19	84.99	112.74
GOR / JUL	£ 5,435.85	£ 4,596.19	£ 4,183.88	18.27	29.92
AWS / AUG	£ 5,492.63	£ 4,774.52	£ 4,656.28	15.04	17.96
MED / SEP	£ 4,830.39	£ 4,236.46	£ 3,638.97	14.02	32.74
HYD / OCT	£ 2,186.97	£ 2,312.19	£ 1,913.05	-5.42	14.32
TACH / NOV	£ -	£ 455.77	£ 222.20	-100.00	-100.00
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAW / MAR	£ -	£ 373.04	£ -	-100.00	#DIV/0!
CYFANSWM / TOTAL	£ 29,171.16	£ 24,309.97	£ 22,679.41	20.00	28.62
EBR-HYD / APR-OCT	£ 29,171.16	£ 23,481.16	£ 22,457.21	24.23	29.90

2019/20

	Gwerthiant	Llety	EiW
	TOTAL	TOTAL	TOTAL
EBR / APR	£ 2,474.30	£ 9.50	£ 985.88
MAI / MAY	£ 2,870.54	£ -	£ 1,152.64
MEH / JUN	£ 2,720.19	£ -	£ 1,051.70
GOR / JUL	£ 4,183.88	£ 26.50	£ 1,691.74
AWS / AUG	£ 4,656.28	£ 7.50	£ 1,856.32
MED / SEP	£ 3,638.97	£ 39.00	£ 1,469.64
HYD / OCT	£ 1,913.05	£ -	£ 762.02
TACH / NOV	£ 222.20	£ -	£ 80.86
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -
ION / JAN	£ -	£ -	£ -
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -
	£ 22,679.41	£ 82.50	£ 9,050.80
	£ 22,457.21	£ 82.50	£ 8,969.94

MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH				
	2023-24	2022-23	2019/20	23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
EBR / APR	£ -	£ 8.00	£ 9.50	-100.00	-100.00
MAI / MAY	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MEH / JUN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
GOR / JUL	£ -	£ 19.00	£ 26.50	-100.00	-100.00
AWS / AUG	£ 45.00	£ 31.50	£ 7.50	42.86	500.00
MED / SEP	£ 10.50	£ -	£ 39.00	#DIV/0!	-73.08
HYD / OCT	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
TACH / NOV	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CYFANSWM / TOTAL	£ 55.50	£ 58.50	£ 82.50	-5.13	-32.73
EBR-HYD / APR-OCT	£ 55.50	£ 58.50	£ 82.50	-5.13	-32.73

ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn)	CYMHARIAETH CYMHARIAETH				
	2023-24	2022-23	2019/20	23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
EBR / APR	£ 688.86	£ 755.99	£ 985.88	-8.88	-30.13
MAI / MAY	£ 1,510.12	£ 988.44	£ 1,152.64	52.78	31.01
MEH / JUN	£ 2,318.77	£ 1,213.06	£ 1,051.70	91.15	120.48
GOR / JUL	£ 2,191.27	£ 1,897.26	£ 1,691.74	15.50	29.53
AWS / AUG	£ 2,219.75	£ 1,977.25	£ 1,856.32	12.26	19.58
MED / SEP	£ 1,944.34	£ 1,735.21	£ 1,469.64	12.05	32.30
HYD / OCT	£ 863.12	£ 926.60	£ 762.02	-6.85	13.27
TACH / NOV	£ -	£ 174.13	£ 80.86	-100.00	-100.00
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAW / MAR	£ -	£ 142.85	£ -	-100.00	#DIV/0!
CYFANSWM / TOTAL	£ 11,736.23	£ 9,810.79	£ 9,050.80	19.63	29.67
EBR-HYD / APR-OCT	£ 11,736.23	£ 9,493.81	£ 8,969.94	23.62	30.84

CANOLFAN / CENTRE: BEDDGELERT
YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES

MIS MONTH	2023/24					2022/23					CYMHARIAETH		2019/20		CYMHARIAETH	
	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	23/24 - 22/23 % + / -	CYFANSWM TOTAL	23/24 - 19/20 % + / -			
EBR / APR	4,912	-	112	8	5,032	EBR / APR	4,155	-	136	20	4,311	16.72	EBR / APR	4,492	12.02	
MAI / MAY	4,977	-	114	5	5,096	MAI / MAY	4,128	1	103	20	4,252	19.85	MAI / MAY	6,028	-15.46	
MEH / JUN	5,132	-	118	7	5,257	MEH / JUN	3,947	-	87	12	4,046	29.93	MEH / JUN	5,163	1.82	
GOR / JUL	7,272	1	121	7	7,401	GOR / JUL	7,134	-	142	15	7,291	1.51	GOR / JUL	7,326	1.02	
AWS / AUG	8,985	-	117	7	9,109	AWS / AUG	9,084	1	183	29	9,297	-2.02	AWS / AUG	12,194	-25.30	
MED / SEP	5,611	-	73	2	5,686	MED / SEP	5,545	-	82	7	5,634	0.92	MED / SEP	6,177	-7.95	
HYD / OCT	4,023	-	63	3	4,089	HYD / OCT	4,061	-	65	10	4,136	-1.14	HYD / OCT	4,086	0.07	
TACH / NOV	392	-	2	-	394	TACH / NOV	453	-	6	-	459	-14.16	TACH / NOV	285	38.25	
RHAG / DEC	-	-	-	-	-	RHAG / DEC	-	-	-	-	-	#DIV/0!	RHAG / DEC	-	#DIV/0!	
ION / JAN	-	-	-	-	-	ION / JAN	-	-	-	-	-	#DIV/0!	ION / JAN	1	-100.00	
CHWE / FEB	-	-	-	-	-	CHWE / FEB	568	-	20	-	588	-100.00	CHWE / FEB	830	-100.00	
MAW / MAR	-	-	-	-	-	MAW / MAR	942	-	34	-	976	-100.00	MAW / MAR	324	-100.00	
CYFANSWM / TOTAL	41,304	1	720	39	42,064		40,017	2	858	113	40,990	2.62		46,906	-10.32	
EBR-HYD/ APR-OCT	40,912	1	718	39	41,670		38,054	2	798	113	38,967	6.94		45,466	-8.35	

MIS/MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	CYN. TAW / INC. VAT	GWERTHIANNAU / SALES			
	2023-24	2022-23	2019/20		
EBR / APR	£ 11,572.94	£ 10,603.43	£ 8,154.03	9.14	41.93
MAI / MAY	£ 11,519.73	£ 10,352.18	£ 9,887.04	11.28	16.51
MEH / JUN	£ 12,995.47	£ 8,877.17	£ 7,914.44	46.39	64.20
GOR / JUL	£ 17,194.26	£ 15,703.55	£ 11,190.44	9.49	53.65
AWS / AUG	£ 21,811.35	£ 19,091.41	£ 14,157.50	14.25	54.06
MED / SEP	£ 15,765.53	£ 14,881.52	£ 9,445.28	5.94	66.91
HYD / OCT	£ 12,984.32	£ 11,411.99	£ 8,477.61	13.78	53.16
TACH / NOV	£ -	£ 1,514.82	£ 615.94	-100.00	-100.00
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ 1,953.43	£ 1,005.69	-100.00	-100.00
MAW / MAR	£ -	£ 2,628.39	£ 504.56	-100.00	-100.00
CYFANSWM / TOTAL	£ 103,843.60	£ 97,017.89	£ 71,352.53	7.04	45.54
EBR-HYD/ APR-OCT	£ 103,843.60	£ 90,921.25	£ 69,226.34	14.21	50.01

MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	INCWM LLETY / ACCOM INCOME				
	2023-24	2022-23	2019/20		
EBR / APR	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAI / MAY	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MEH / JUN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
GOR / JUL	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
AWS / AUG	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MED / SEP	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
HYD / OCT	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
TACH / NOV	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CYFANSWM / TOTAL	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
EBR-HYD/ APR-OCT	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!

MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn)				
	2023-24	2022-23	2019/20		
EBR / APR	£ 4,643.14	£ 4,182.82	£ 3,134.25	11.01	48.14
MAI / MAY	£ 4,578.07	£ 4,010.73	£ 3,787.25	14.15	20.88
MEH / JUN	£ 5,192.13	£ 3,406.85	£ 3,039.26	52.40	70.84
GOR / JUL	£ 6,783.57	£ 6,224.43	£ 4,427.67	8.98	53.21
AWS / AUG	£ 8,668.57	£ 7,612.09	£ 5,631.23	13.88	53.94
MED / SEP	£ 6,267.04	£ 5,937.90	£ 3,754.43	5.54	66.92
HYD / OCT	£ 4,994.15	£ 4,460.08	£ 3,329.81	11.97	49.98
TACH / NOV		£ 576.89	£ 235.67	-100.00	-100.00
RHAG / DEC		£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN		£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB		£ 766.42	£ 401.41	-100.00	-100.00
MAW / MAR	£ -	£ 1,062.49	£ 202.35	-100.00	-100.00
CYFANSWM / TOTAL	£ 41,126.67	£ 38,240.70	£ 27,943.33	7.55	47.18
EBR-HYD/ APR-OCT	£ 41,126.67	£ 35,834.90	£ 27,103.90	14.77	51.74

	2019/20		
	Gwerthiant TOTAL	Llety TOTAL	Elw TOTAL
EBR / APR	£ 2,474.30	£ 9.50	£ 985.88
MAI / MAY	£ 2,870.54	£ -	£ 1,152.64
MEH / JUN	£ 2,720.19	£ -	£ 1,051.70
GOR / JUL	£ 4,183.88	£ 26.50	£ 1,691.74
AWS / AUG	£ 4,656.28	£ 7.50	£ 1,856.32
MED / SEP	£ 3,638.97	£ 39.00	£ 1,469.64
HYD / OCT	£ 1,913.05	£ -	£ 762.02
TACH / NOV	£ 222.20	£ -	£ 80.86
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -
ION / JAN	£ -	£ -	£ -
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -
	£ 22,679.41	£ 82.50	£ 9,050.80
	£ 22,457.21	£ 82.50	£ 8,969.94

CANOLFAN / CENTRE: BETWS-Y-COED
YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES

MIS MONTH	2023/24					2022/23					CYMHARIAETH		2019/20		CYMHARIAETH	
	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	👤	📧	📞	e.	CYFANSWM TOTAL	23/24 - 22/23 % + / -	CYFANSWM TOTAL	23/24 - 19/20 % + / -			
EBR / APR	5,833	2	90	35	5,960	6,251	-	109	31	6,391	-6.74	8,925	-33.22			
MAI / MAY	6,120	-	102	29	6,251	6,449	-	101	29	6,579	-4.99	9,317	-32.91			
MEH / JUN	6,672	2	72	22	6,768	9,304	-	90	18	9,412	-28.09	7,907	-14.40			
GOR / JUL	7,844	-	117	30	7,991	10,130	1	96	17	10,244	-21.99	10,058	-20.55			
AWS / AUG	9,139	-	118	25	9,282	12,587	-	127	20	12,734	-27.11	15,114	-38.59			
MED / SEP	7,066	1	63	24	7,154	9,700	-	95	19	9,814	-27.10	9,606	-25.53			
HYD / OCT	5,246	-	56	18	5,320	7,104	1	64	11	7,180	-25.91	7,126	-25.34			
TACH / NOV	474	-	10	-	484	3,692	-	33	15	3,740	-87.06	3,467	-86.04			
RHAG / DEC	-	-	-	-	-	1,923	-	25	15	1,963	-100.00	2,671	-100.00			
ION / JAN	-	-	-	-	-	1,380	-	30	20	1,430	-100.00	2,636	-100.00			
CHWE / FEB	-	-	-	-	-	2,434	-	60	17	2,511	-100.00	2,761	-100.00			
MAW / MAR	-	-	-	-	-	2,766	-	47	17	2,830	-100.00	1,955	-100.00			
CYFANSWM / TOTAL	48,394	5	628	183	49,210	73,720	2	877	229	74,828	-34.24	81,543	-39.65			
EBR-HYD/ APR-OCT	47,920	5	618	183	48,726	61,525	2	682	145	62,354	-21.86	68,053	-28.40			

* Ffigyrau ddim yn gyflawn

MIS/MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	2023-24	2022-23	2019/20		
EBR / APR	£ 12,462.36	£ 10,866.46	£ 9,961.02	14.69	25.11
MAI / MAY	£ 13,199.46	£ 10,478.10	£ 11,900.62	25.97	10.91
MEH / JUN	£ 14,211.69	£ 10,439.73	£ 11,642.12	36.13	22.07
GOR / JUL	£ 16,780.55	£ 11,526.49	£ 15,941.64	45.58	5.26
AWS / AUG	£ 20,248.64	£ 14,457.78	£ 18,088.17	40.05	11.94
MED / SEP	£ 17,433.59	£ 11,457.46	£ 13,525.68	52.16	28.89
HYD / OCT	£ 13,026.61	£ 9,125.33	£ 10,108.25	42.75	28.87
TACH / NOV	£ -	£ 6,082.69	£ 5,488.55	-100.00	-100.00
RHAG / DEC	£ -	£ 4,915.19	£ 5,654.97	-100.00	-100.00
ION / JAN	£ -	£ 2,204.85	£ 2,935.18	-100.00	-100.00
CHWE / FEB	£ -	£ 5,205.27	£ 3,555.98	-100.00	-100.00
MAW / MAR	£ -	£ 6,418.40	£ 2,754.21	-100.00	-100.00
CYFANSWM / TOTAL	£ 107,362.90	£ 103,177.75	£ 111,556.39	4.06	-3.76
EBR-HYD/ APR-OCT	£ 107,362.90	£ 78,351.35	£ 91,167.50	37.03	17.76

* Ffigyrau ddim yn gyflawn

MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	2023-24	2022-23	2019/20		
EBR / APR	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAI / MAY	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MEH / JUN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
GOR / JUL	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
AWS / AUG	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MED / SEP	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
HYD / OCT	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
TACH / NOV	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
ION / JAN	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
CYFANSWM / TOTAL	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!
EBR-HYD/ APR-OCT	£ -	£ -	£ -	#DIV/0!	#DIV/0!

* Ffigyrau ddim yn gyflawn

MIS / MONTH	CYMHARIAETH CYMHARIAETH			23/24 - 22/23 % + / -	23/24 - 19/20 % + / -
	5046.5	4408.43	2019/20		
EBR / APR	£ 5,358.94	£ 4,234.71	£ 3,937.74	26.55	36.09
MAI / MAY	£ 5,763.65	£ 4,236.66	£ 4,745.15	36.04	21.46
MEH / JUN	£ 6,790.25	£ 4,672.40	£ 4,570.20	45.33	48.58
GOR / JUL	£ 8,216.84	£ 5,875.47	£ 6,252.20	39.85	31.42
AWS / AUG	£ 7,027.71	£ 4,663.11	£ 7,244.73	50.71	-3.00
MED / SEP	£ 5,205.58	£ 3,664.58	£ 5,387.02	42.05	-3.37
HYD / OCT	£ -	£ 2,450.69	£ 4,063.94	-100.00	-100.00
TACH / NOV	£ -	£ 1,930.19	£ 2,173.89	-100.00	-100.00
RHAG / DEC	£ -	£ 889.25	£ 2,235.34	-100.00	-100.00
ION / JAN	£ -	£ 2,071.48	£ 1,132.86	-100.00	-100.00
CHWE / FEB	£ -	£ 2,603.01	£ 1,371.16	-100.00	-100.00
MAW / MAR	£ -	£ 2,059.44	£ 1,065.49	-100.00	-100.00
CYFANSWM / TOTAL	£ 38,362.97	£ 39,350.99	£ 44,179.72	-2.51	-13.17
EBR-HYD/ APR-OCT	£ 38,362.97	£ 29,797.62	£ 36,200.98	28.75	5.97

* Ffigyrau ddim yn gyflawn

	2019/20		
	Gwerthiant TOTAL	Llety TOTAL	Elw TOTAL
EBR / APR	£ 2,474.30	£ 9.50	£ 985.88
MAI / MAY	£ 2,870.54	£ -	£ 1,152.64
MEH / JUN	£ 2,720.19	£ -	£ 1,051.70
GOR / JUL	£ 4,183.88	£ 26.50	£ 1,691.74
AWS / AUG	£ 4,656.28	£ 7.50	£ 1,856.32
MED / SEP	£ 3,638.97	£ 39.00	£ 1,469.64
HYD / OCT	£ 1,913.05	£ -	£ 762.02
TACH / NOV	£ 222.20	£ -	£ 80.86
RHAG / DEC	£ -	£ -	£ -
ION / JAN	£ -	£ -	£ -
CHWE / FEB	£ -	£ -	£ -
MAW / MAR	£ -	£ -	£ -
	£ 22,679.41	£ 82.50	£ 9,050.80
	£ 22,457.21	£ 82.50	£ 8,969.94

WEDI SELIO AR FLWYDDYN GALENDER YN HYTRACH NA BLWYDDYN ARIANOL

Elw ar Werthiannau	Aberdyfi	Beddgelert	Betws y Coed
	Cyfanswm	Cyfanswm	Cyfanswm
2015	£5,664.54	£ 12,413.31	£20,083.96
2016	£8,705.86	£ 18,362.32	£30,099.03
2017	£7,998.18	£ 22,643.70	£34,699.75
2018	£8,752.51	£ 25,942.14	£39,508.29
2019	£9,038.85	£ 28,235.48	£45,322.49
2020	£4,530.58	£ 13,136.96	£13,630.91
2021	£8,106.29	£ 31,194.13	£26,967.40
2022	£9,667.94	£ 38,047.94	£40,276.89
2023	Ddim yn gyflawn	£ 42,955.58	£48,973.21

Elw Y Pen	Aberdyfi	Beddgelert	Betws y Coed
	Avarage	Avarage	Avarage
2015	£0.18	£0.23	£0.16
2016	£0.23	£0.33	£0.22
2017	£0.26	£0.36	£0.27
2018	£0.27	£0.47	£0.35
2019	£0.27	£0.65	£0.54
2020	£0.53	£0.70	£0.63
2021	£0.74	£0.76	£0.56
2022	£0.41	£1.04	£0.60
2023	Ddim yn gyflawn	£1.04	£0.86

Ymholiadau Ymwelwyr	Aberdyfi	Beddgelert	Betws y Coed
	Cyfanswm	Cyfanswm	Cyfanswm
2015	31768	52029	121307
2016	40197	56307	134126
2017	32824	56144	127258
2018	34031	59634	123491
2019	37493	47205	84678
2020	8359	16606	29266
2021	9692	33032	39517
2022	29822	40759	74436
2023	Ddim yn gyflawn	43234	55497

Avarage Spend Per Transaction	Aberdyfi	Beddgelert	Betws y Coed
	Avarage	Avarage	Avarage
2015	£8.10	£5.72	£5.75
2016	£7.59	£7.34	£7.12
2017	£7.39	£8.53	£8.12
2018	£7.74	£8.83	£9.07
2019	£9.18	£10.11	£9.60
2020	£10.29	£12.72	£12.67
2021	£10.24	£11.24	£10.31
2022	£10.02	£12.16	£10.78
2023	Ddim yn gyflawn	£12.71	£10.90



**BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH
DYDD MERCHER 13 MEDI 2023**

	<p><u>Yn bresennol:</u></p> <p>Aelodau: Ms. Tracey Evans Cyng. Meryl Roberts Emyr Williams Iwan Jones</p> <p>Yn bresennol: Cyng. Annwen Hughes (ex-officio)</p> <p>Swyddogion: Dewi Aeron Morgan, David Williams, Edward Jones, Anwen Gaffey.</p> <p>Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.</p>
1.	<p>Cadeirydd</p> <p>Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Tim Jones wedi mynegi ei barodrwydd i barhau fel Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch am y flwyddyn i ddod.</p> <p>Etholwyd Mr Tim Jones yn Gadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch a chytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb.</p>
2.	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Tim Jones.</p>
3.	<p>Datgan Budd</p> <p>Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.</p>
4.	<p>Cofnodion</p> <p>Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 22ain Mawrth 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.</p> <p>Yn codi o'r cofnodion, adroddodd y Prif Weithredwr fod amgylchiadau nas rhagwelwyd wedi arwain at oedi yn yr amserlen ar gyfer asesu dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch. Hefyd, yn dilyn Adroddiad Arallgyfeirio Incwm diweddar gan Archwilio Cymru lle argymhellwyd y dylai'r Awdurdod adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch, teimlai'r Prif Weithredwr y byddai'n rhesymol aros am eu hadroddiad pellach a fydd yn rhoi asesiad o'r hyn sy'n dderbyniol o ran lefel y risg i'r Parciau Cenedlaethol, cyn cyflwyno unrhyw argymhellion terfynol.</p>

5 .	<p>Diweddariad Plas Tan y Bwlch</p>
	<p>Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar yr opsiynau a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.</p> <p>Adroddwyd – Cynghorodd Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi paratoi cyfres o benawdau pwnc/cwestiynau i'r Aelodau eu hystyried, ac i roi arweiniad ar sut y dylai'r Awdurdod symud ymlaen.</p> <p>Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cwestiynau ynghyd â'r ymateb a awgrymwyd ganddo. Yna gofynnwyd i'r aelodau wneud ychwanegiadau neu anghytuno â'r hyn oedd yn cael ei gynnig.</p> <p>1. <u>Beth yw Plas Tan y Bwlch?</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - adeilad/stad o gymeriad pwysig, sy'n rhan o'r hanes diwydiannol a treftadaeth yr ardal gyda chysylltiad â'r diwydiant llechi. - rhan o ddynodiad treftadaeth byd "Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru". <p>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael y penawdau ymlaen llaw i baratoi ymateb manylach. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu copi i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod. - Teimlai'r aelodau hefyd fod yr ateb yn dibynnu ar bwy oedd yn gofyn y cwestiwn ac y gallai barn allanol amrywio o farn y Prif Weithredwr. Efallai y bydd rhai yn gweld Plas Tan y Bwlch fel ased sy'n draul ar adnoddau'r Awdurdod. <p>2. <u>Beth mae Plas Tan y Bwlch yn ei ddarparu fel adnodd ffisegol?</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - safle i gynnal digwyddiadau ar gyfer y gymuned leol a chymdeithasau - lleoliad ar gyfer digwyddiadau ffurfiol - man cyfarfod - llety - mynediad i'r gerddi a'r coetiroedd <p>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - tra bod y Plas yn ased gyda chyfleoedd helaeth i'r dyfodol, roedd angen sicrhau bod ganddo'r staff cywir a bod gweledigaeth a strategaeth er mwyn iddo fod yn llwyddiant. Gofynnodd yr aelodau ai Parc Cenedlaethol Eryri oedd y sefydliad cywir i wneud hyn. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylai fod gan yr Awdurdod sail resymegol dros barhau i reoli'r Ganolfan a nododd fod Archwilio Cymru yn ddiweddar wedi herio sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. <p>3. <u>Beth mae perchnogaeth Plas Tan y Bwlch yn ei gynnig i'r Awdurdod?</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - adnodd ar gyfer cyflawni busnes yr Awdurdod - perchnogaeth sector cyhoeddus sy'n gwarchod adeilad rhestredig Gradd II* - mae'n darparu cyfleusterau/adnoddau ar gyfer y gymuned ac fel rhan o ddyletswyddau'r Awdurdod, mae'n darparu dimensiwn lles moesol a chymunedol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. <p>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - bod Plas Tan y Bwlch hefyd yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cyflogaeth ac yn defnyddio cyflenwyr lleol ac ati. <p>4. <u>A oes angen Plas Tan y Bwlch ar yr Awdurdod i gyflawni ei fusnes</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - nid oedd yn angenrheidiol fel lleoliad cyfarfod gan fod opsiynau eraill megis y Pencadlys. - yr her gan Archwilio Cymru oedd cynnal yr asesiad yn unol â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol:- <ul style="list-style-type: none"> o Pwrpas 1af - ymylol oedd hyn ar wahân i warchod adeilad rhestredig Gradd II*. Bu Plas Tan y Bwlch yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol yn y gorffennol ac wedi derbyn grant i gynnal y gwaith hwn. Nid oedd hyn yn wir bellach gan

fod y farchnad wedi newid, gyda chyfleoedd ar gyfer mentora yn y gweithle, modiwlau ar-lein, cyrsiau nos ac ati yn cael blaenoriaeth.

- 2il bwrpas – o bosibl roedd yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gyflawni hyn, a
- gellid cyflawni'r ddyletswydd i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol hefyd.

5. Beth yw rôl Plas Tan y Bwlch o dan reolaeth yr Awdurdod?

- Nid oedd Plas Tan y Bwlch bellach yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol.
- gallai fod ganddo rôl i gyflwyno pobl ifanc i'r amgylchedd naturiol, yr iaith, treftadaeth a diwylliant.
- canolfan i grwpiau sy'n cael eu hysbrydoli gan werthoedd arbennig Eryri. e.e. ffotograffwyr, peintwyr ac ati.
- menter er lles – nid oedd Plas Tan y Bwlch wedi manteisio ar y farchnad les.
- canolfan i ddathlu digwyddiadau arbennig fel priodasau.
- o ofod swyddfa y gellid ei osod i'r gymuned / busnesau lleol.
- canolfan i roi ffocws cymdeithasol ar faterion gwerin, megis Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod.

Gwnaeth yr Aelodau a'r swyddogion y sylwadau ychwanegol a ganlyn:-

- roedd llawer o ddiddordeb cyffredinol a dryswch o ran cyrraedd y targed sero net. A ellid defnyddio Plas Tan y Bwlch fel adnodd i helpu'r gymuned a rhoi arweiniad i bobl ynglŷn â grantiau ac ati? Byddai'r rôl hon yn cyd-fynd â phwrpasau statudol a chymunedol yr Awdurdod. Nid oedd yr aelodau a'r swyddogion yn argyhoeddedig bod angen gwneud hyn yn y Plas gan ei bod yn bosibl i swyddog fynd allan i'r gymuned i wneud y gwaith hwn.
- Trafododd aelodau a swyddogion y cyfleoedd a ddarperir gan y cwricwlwm newydd. Roedd angen cael yr adnoddau a'r staff gyda'r cefndir cywir. Hefyd, byddai angen i gyfleoedd gweithgareddau awyr agored gael eu rhedeg fel busnes, o bosibl yn cynnwys mentergarwyr dawnus. Roedd llawer o botensial ar gyfer gweithgareddau awyr agored y profwyd eu bod yn gwella iechyd meddwl, ymyrraeth gynnar ac ati, ond eto ai'r Awdurdod oedd y sefydliad cywir i symud hyn ymlaen. Nid oedd yr aelodau'n dymuno gweld Plas Tan y Bwlch yn symud staff oddi wrth eu rolau craidd.
- cytunodd y Prif Weithredwr i gynnwys rôl bosibl ar gyfer gweithgareddau awyr agored a fyddai'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r manteision corfforol i bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i greu dinasyddion yn hytrach na darparu addysg.

6. Modelau tebyg

- yr Awdurdod
- Partneriaeth Gymunedol ee gallai Antur Stiniog elwa o gysylltiad Treftadaeth y Byd Plas Tan y Bwlch.
- YHA, sy'n gweithredu ar sail masnachfrint. Efallai y bydd modd rhannu Plas Tan y Bwlch yn ddau fusnes ar wahân drwy redeg y tŷ ar wahân i'r stablau y gellid eu gweithredu fel busnes byncws.
- Mae 'Llety Arall' yng Nghaernarfon hefyd yn ased oedd yn cael ei osod allan a gallai'r Awdurdod elwa o ddysgu mwy o'r fenter fusnes hon.

7. A oedd diddordeb ar y farchnad agored i brynu Plas Tan y Bwlch?

- dywedodd y Rheolwr Eiddo ei fod wedi cysylltu â dau gwmni gwahanol a roddodd ddau amcangyfrif tra gwahanol. 'Roedd o'r farn bod un amcangyfrif yn fwy realistig, gan fod y farchnad yn crebachu yn arbennig ar gyfer tai mawr, er bod marchnad ar gyfer adnodd fel Plas a all gynhyrchu incwm.

Roedd un cwmni'n fwy optimistaidd ac awgrymodd brofi'r farchnad yn y Gwanwyn trwy roi'r eiddo ar werth am bris heriol. Awgrymodd y cwmni arall isafbris i ddenu diddordeb a chreu argraff. Nododd y Prif Weithredwr faint o wariant oedd ei angen i ddod â'r eiddo i fyny i safon, ond ar y cyfan roedd y ddau asiant wedi eu synnu ar yr ochr orau fod Plas Tan y Bwlch mewn cyflwr mor dda. Roeddent hefyd yn gwbl ymwybodol o rwymedigaethau hirdymor o ran y gwaith cynnal a chadw. Roedd y ddau asiant yn rhagweld prynwyr preifat, gyda'r bwriad o barhau fel busnes, gan fod y tŷ yn rhy fawr i fod yn dŷ preifat gyda chymaint o adeiladau allanol.

Gwnaeth yr Aelodau a'r swyddogion y sylwadau ychwanegol a ganlyn:-

- cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch rhoi'r eiddo ar y farchnad, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod angen cyngor cynllunio cyn cyflwyno cais i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'r ased. Un pryder oedd y byddai datblygwr yn rhannu'r tŷ yn unedau a'u gwerthu fel fflatiau drud, ac o bosib yn gwneud elw mawr.
- roedd un Aelod yn disgwyl i'r gwerth fod yn fwy a chytunodd mai dim ond dau opsiwn oedd ar y bwrdd. Un oedd creu cynllun busnes diwygiedig oedd yn gweddu'n well i bwrpasau'r Awdurdod a dau, llwyddo i gyrraedd y ffigyrau gwerthiant. Yna gallai'r aelodau lunio barn rhwng y ddau. Yn ogystal, byddai swyddogion yn gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais i weld beth fyddai'n dderbyniol ar y safle.

8. Angen gosod cyllideb realistig os yw Plas Tan y Bwlch yn parhau o dan reolaeth y Awdurdod

- gan fod y Cynllun Busnes yn dal i gael ei ddatblygu, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr hyn yr hoffent ei gyflawni ym Mhlas Tan y Bwlch a beth oedd ei werth i'r Awdurdod. Nododd y Prif Weithredwr y gellid dod o hyd i waelodlin o £60k-£70k, ond pe bai'n agosach at £200k - £300k byddai hyn ar draul gwasanaethau eraill.
- dywedodd y Prif Weithredwr y bydd yr adolygiad sydd i ddod o'r Strategaeth Rheoli Asedau yn rhoi manylion am gostau cynnal a chadw holl asedau'r Awdurdod a hefyd, sut y dylid eu hariannu.

9. Be' nesaf?

- i ganfod anghenion cyfalaf Plas Tan y Bwlch am y 5 i 10 mlynedd nesaf a datblygu cynllun busnes. Hefyd, i gynnwys anghenion referniw ar gyfer dibenion yr Awdurdod.
- Argymhellodd yr Aelodau y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun busnes ar unwaith, a chytunwyd ei bod yn bwysig cyflogi rhywun a allai fod yn wrthrychol ac â gwybodaeth gefndirol o Blas Tan y Bwlch er mwyn datblygu Cynllun Busnes ystyrlon. Roedd hefyd angen deall pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'r goblygiadau cysylltiedig i'r Awdurdod. Awgrymodd y Prif Weithredwr Mr. Owain Wyn sydd â'r cefndir ac a oedd yn ymwneud â nifer o fentrau twristiaeth a lletai. Hefyd, pe gallai Aelodau argymhell unrhyw rai eraill a allai fod â diddordeb, i roi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau.
- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai gwerth y gwaith i greu Cynllun Busnes yn is na'r trothwy tendro o £5k.

GWEITHRED

- **y Prif Weithredwr i gynnal sesiwn debyg gyda Chadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a thrafod y penawdau yn fanylach.**

	<ul style="list-style-type: none"> - y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i lunio briff a chwilio am ymgynghorwyr, yn ddelfrydol rhywun sydd â chefnidir a gwybodaeth am Blas Tan y Bwlch a'r Awdurdod. - y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol er mwyn caniatáu trafodaeth fanwl gyda'r holl Aelodau.
6.	<p>Adroddiad gan y Pennaeth Eiddo</p> <p>Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y safle ar hyn o bryd.</p> <p>Adroddwyd - nododd yr Aelodau fod gwaith adfer ar y bwtres/parapet yn mynd rhagddo. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y garreg ar y parapet mewn cyflwr gwael a bod yr Ymgynghorydd a'r Tirfesurydd yn bwriadu mynd at Cadw eto i ofyn am ganiatâd i ganiatáu amlen o blwm o amgylch y gwaith carreg i ymestyn oes y garreg, am fod y garreg yn frau, a'r dirywiad yn parhau. Nid oedd yn ymarferol ailosod yr hyn sydd yno eisoes ac nid oedd yn cynnig gwerth am arian. Gellid newid yr addurniadau ar y top i dywodfaen gan nad oedd yn gynaliadwy i wneud y gwaith hwn bob 20 mlynedd.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.</p>
7.	<p>CYFRINACHOL: Adroddiad Adolygu Plas Tan y Bwlch</p> <p>Cyflwynwyd – Adroddiad gan David Jones Datrys HR Solutions, a gomisiynwyd o ganlyniad i faterion a godwyd gan y staff a'r rheolwr tŷ.</p> <p>Adroddwyd – Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod materion wedi codi gyda'r gweithlu ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd rhai staff wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod ers hynny ac mae rhai tensiynau wedi'u lleddfu. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod hefyd wedi cymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer y garddwr am nifer o resymau gan gynnwys iechyd a diogelwch. Byddai'r Awdurdod yn awr yn cyflogi contractwyr i wneud y gwaith, sy'n fwy diogel i'r Awdurdod o ran rheoli rhwymedigaethau.</p> <p>Nododd yr aelodau fod yr adroddiad wedi'i gomisiynu cyn penodiad diweddar Pennaeth y Tŷ ac yn anffodus, nid oedd y penodiad wedi parhau oherwydd nifer o faterion. Ers hynny mae newidiadau wedi eu gwneud i'r strwythur staff, gyda thri phennaeth gwasanaeth yn cael eu creu ar gyfer y prif ffrydiau gwaith, Gweinyddol / Glanhau / Cegin. Yn y tymor byr, byddai'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn parhau i gyflenwi dros y cyfnod pontio ond ni allai barhau â'r gwaith hwn am gyfnod amhenodol. Ceisir Rheolwr Tŷ arall cyn gynted â phosibl, a nodwyd hefyd bod rhedeg y Ganolfan fel gwely a brechwast wedi rhoi llawer o straen ar staff gyda'r pris isel yn denu cwsmeriaid gwahanol i'r hyn sy'n arferol i'r Plas. Er bod y fantolen wedi dangos incwm uwch, ni fu erioed yn fwriad rhedeg cyfleuster gwely a brechwast ar gyfer y tymor hir, gan mai model busnes ôl-covid yn unig oedd hwn.</p> <p>Nododd yr aelodau fod y Tîm Rheoli wedi trafod a derbyn yr adroddiad a'r argymhellion yn llawn.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.</p>

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30